Y DRYSORFA.

Rhif. 711.] IONAWR, 1890. [Llyfr LX.

ADDEWIDION DUW YN NGHRIST.

GAN Y PARCH. HUGH JONES, LIVERPOOL.

2 Corinthiaid i. 20: "Oblegid holl addewidion Duw ynddo ef ydynt ïe, ac ynddo ef Amen, er gogoniant i Dduw trwom ni."

Y mae y gwirionedd gwerthfawr sydd yn yr adnod hon wedi dyferu oddiwrth yr Apostol Paul, yn ei waith yn ei amddiffyn ei hun yn wyneb amcan rhywrai i iselu ei gymeriad yn ngolwg yr eglwys yn Corinth. Yr achlysur a gymerodd y dynion hyn i ymosod arno ydoedd, iddo ballu ymweled â'r eglwys ar ei ffordd i Macedonia, fel yr ydoedd wedi bwriadu, ac wedi rhoddi ar ddeall iddynt hwythau y gwnelai. Y mae yr Apostol yn cydnabod y bwriad hwn yn y bennod hon: "Megys y cydnabuoch ni o ran, mai nyni yw eich gorfoledd chwi, fel chwithau yr eiddom ninnau hefyd yn nydd yr Arglwydd Iesu. Ac yn yr hyder hwn yr oeddwn yn ewyllysio dyfod atoch o'r blaen, fel y caffech ail ras;" hyny yw, trwy ddau ymweliad â hwynt yn agos i'w gilydd. Y gras cyntaf oedd ei ymweliad â hwynt ar ei ffordd i Macedonia; yr ail ras ydoedd ei ymweliad â hwynt, drachefn, ar ei ddychweliad o Macedonia: megys y mae yn dywedyd yma, "A myned heb eich llaw chwi i Macedonia [galw wrth fyned heibio], a dyfod drachefn o Macedonia atoch, a chael fy hebrwng genych i Judea." Ond yr ydoedd wedi newid ei drefniadau, ac, yn wir, wedi gwneyd hyny yn hysbys yn niwedd ei lythyr cyntaf atynt, pen. xvi. 5—7. Ymddengys fod gwrthwynebwyr yr Apostol yn Corinth yn cymeryd mantais oddiwrth y cyfnewidiad hwn yn ei daith i geisio darostwng ei gymeriad, trwy ei osod allan fel un ysgafn, anwadal, diymddiried. Y mae yntau yn ymwrthod yn hollol â'r cyhuddiad. "Gan hyny, pan oeddwn yn bwriadu hyn a arferais I ysgafnder, neu, y pethau yr wyf yn eu bwriadu, ai yn ol y cnawd yr wyf yn bwriadu, fel y byddai gyda mi, ïe, ïe, nage, nage?" 'Ai ymgynghori â'm boddhad, a'm cyfleusdra, a'm hamcanion hunanol yr ydwyf, fel nad yw yn ddim genyf newid fy mwriadau a thori fy addewidion, ac nad yw yr hyn a ddywedwyf i ddibynu arno?' Y mae yr Apostol yma fel yn gwneyd apêl at yr adnabyddiaeth a feddai y Corinthiaid o hono. Ac y mae cymeriad trwyadl, ynddo ei hun, yn fesur mawr o ddyogelwch i ddyn rhag derbyn niwed oddiwrth dafod yr enllibiwr. Y mae efe yn gadael i'w cydwybod hwy ateb y gofyniad; ac nid oedd ammheuaeth ganddo na buasai yr ateb yn troi yn ffafriol iddo. Fel amddiffyniad iddo ei hun, y mae efe ymhellach yn cyfeirio at nodwedd ei weinidogaeth yn Corinth, ac at ddianwadalwch cymeriad Gwrthddrych mawr ei weinidogaeth: "Eithr ffyddlawn yw Duw, a'n hymadrodd ni wrthych chwi ni bu ïe, a nage." Can wired a bod Duw yn ffyddlawn, yr ydym ninnau wedi bod yn ffydd-

lawn yn ein pregethu. Nid pregethu fel hyn yn awr a phregethu rhywbeth gwahanol bryd arall. Nis gallasem wneyd hyny. Yr oedd cymeriad Gwrthddrych ein gweinidogaeth ar y ffordd. "Canys Mab Duw, Iesu Grist, yr hwn a bregethwyd yn eich plith genym ni, sef, genyf fi, a Silfanus, a Thimotheus, nid ydoedd ïe, a nage, eithr ynddo ef, ïe ydoedd." Un dianwadal ydoedd. Nid un yn codi dysgwyliadau ac yn eu siomi. A phrawf o'i ddianwadalwch ydyw hyn: "Oblegid holl addewidion Duw ynddo ef ydynt ïe, ac ynddo ef Amen, er gogoniant i Dduw trwom ni." Ac yr oedd ei gariad at y fath Berson, a'i ymgysegriad llwyr i'w wasanaeth, ar unwaith yn dangos nad oedd efe y cymeriad ysgafn ag y mynai ei wrthwynebwyr i'r Corinthiaid gredu ei fod.

Yn y geiriau hyn dygir Person yr Arglwydd Iesu ger ein bron fel TRYSORFA FAWR ADDEWIDION DUW, ac, fel y cyfryw, yn wrthddrych disiomedig i ymddiried pechadur. Nid oes genym ni ddim gwir ddaioni, ond a ddêl i ni o addewidion Duw. Y mae ein holl iachawdwriaeth ni yn gwblhâd o addewidion Duw. Nid ydyw cyflawnhad pechadur ond cyflawniad o hen addewid Duw i Abraham, mai yn ei hâd ef y bendithid yr holl genedloedd. Ffrwyth yr addewid ydyw Ysbryd Duw, yn ei ddoniau nefol yn preswylio yn y galon. O herwydd hyny y gelwir ef yn "lân Ysbryd yr addewid," ac y dywedir gan Paul yn ei lythyr at y Galatiaid: "Fel y delai bendith Abraham ar y Cenedloedd trwy Grist Iesu; fel y derbyniem addewid yr Ysbryd trwy ffydd." Cyflawniad o addewid Duw ydyw y bywyd ag y mae yr efengyl yn ei gyhoeddi: "A hon yw yr addewid a addawodd efe i ni, sef bywyd tragywyddol." Gorphwysfa ag sydd mewn addewid ydyw yr "orphwysfa sydd eto yn ol i bobl Dduw." "Etifeddu yr addewidion" y mae y saint yn y nefoedd. Derbyn y maent "addewid yr etifeddiaeth dragywyddol." Y mae yr etifeddiaeth hon yn y teitl iddi, yn yr oll ag sydd yn anghenrheidiol fel cymhwysder i'w mwynhau, ac yn ei chyfoeth didrai o ddedwyddwch a gogoniant, yn dyfod o addewidion Duw. Y mae cyfiawnhau, aileni, sancteiddio, arwain, dyddanu—holl waith Duw ar ac yn y rhai a gedwir, ynghyd a thragywyddol ddedwyddwch y sefyllfa ddyfodol, oll yn nghynnwys addewidion Duw. Priodol y geilw Petr hwy yn "addewidion mawr iawn a gwerthfawr." Ymddengys eu mawredd a'u gwerth oddiwrth yr hyn a ddywedir ganddo ymhellach: "Fel trwy y rhai hyn y byddech gyfranogion o'r duwiol anian wedi dianc oddiwrth y llygredigaeth sydd yn y byd trwy drachwant." Yr anrhydedd uchaf all Duw ei roddi ar ddyn ydyw ei ddwyn i gyfranogi o'i anian Ef. Y mae hyn yn cynnwys ei eni o Dduw, ac felly ei wneyd yn blentyn i Dduw. Uwch ben yr ystyriaeth yma y mae Ioan yn sefyll mewn syndod, gan ddywedyd: "Gwelwch pa fath gariad a roes y Tad arnom, fel y'n gelwid yn feibion i Dduw." Nid ydyw pob bri dyfodol onid canlyniad i hyn, a dadblygiad o hyn: "Os plant, etifeddion hefyd, sef etifeddion i Dduw, a chyd-etifeddion â Christ." Addewidion *mawr a gwerthfawr* ydynt. "Addewidion *Duw*"—y fath eiriau awgrymiadol! Addewidion teilwng o Dduw—o'i allu—o'i gyfoeth—o haelfrydedd ei natur. Addewidion nas gallasai neb llai na Duw eu gwneyd. Addewidion o'r gwerth mwyaf i ni; oblegid nid oes dim daioni a ddisgyn i'n rhan ond a ddaw o'r addewidion hyn. Cymerer y rhai hyn ymaith, yna nid oes onid bythol drueni yn ein haros.

Y mae addewidion Duw yn addewidion YN NGHRIST. Ynddo Ef y daethant yn bosibl. Nis gallasai Duw eu rhoddi ond ynddo Ef. Ymddengys

hyn wrth ystyried sefyllfa dynolryw trwy bechod—pawb o dan farn Duw, ac yn ddeiliaid i'r hen fygythiad trwmlwythog o drueni—"gan farw y byddi farw." Pa fodd y gallasai Duw addaw dim daioni i fyd dan gollfarn? Ni buasai fodd, ond yn Nghrist. Yr oedd tosturi yr Anfeidrol yn cynhyrfu er tragywyddoldeb yn ei fynwes, yn y rhagolwg ar ddynion wedi syrthio, a'i feddwl mawr yn llawn bwriadau grasol ar eu rhan. Ond pa fodd y gallai ei dosturi redeg atynt i'w hymgeleddu, a'i fwriadau grasol gael eu cyflawni ar eu rhan yn eu heuogrwydd a'u gwrthryfel, a hyny yn gyson â chyfiawnder ei natur, ac anrhydedd ei ddeddf sanctaidd? Dyma anhawsder ag yr oedd yn rhaid cael doethineb ddwyfol i'w ddadrys—anhawsder ag y gwelodd y Duwdod yn briodol gadw *cynghor* uwch ei ben. Y mae addewidion Duw yn addewidion ag sydd wedi disgyn i'r byd o'r cynghor hwn. Yn y cynghor tragywyddol hwn ymgyfammododd y Tad a'r Mab â'u gilydd gyda golwg ar iachawdwriaeth dynion. Ymddiriedodd y Tad i'w Fab ei fwriadau grasol i'w cario allan. Yn unol â hyn y dywedir fod Crist yn "Gyfryngwr cyfammod," a'r addewidion yn addewidion cyfammod. Yn Nghrist y ffurfiwyd cynllun mawr ein hiachawdwriaeth. Ynddo y cafodd y Tad sail i'w arfaeth rasol. "Yr arfaeth dragywyddol" ydyw, "yr hon a wnaeth efe yn Nghrist Iesu ein Harglwydd ni." Dywed Paul yn 2 Tim. i. 9, am ras Duw, iddo gael "ei roddi i ni, yn Nghrist Iesu, cyn dechreu y byd." Yn yr ymgynghoriad tragywyddol fu rhwng y Personau Dwyfol â'u gilydd, rhoddodd y Tad olud ei ras yn Nghrist o dan ei ofal, iddo fod yn oruchwyliwr arno, ac i wneyd llwybr cyfreithlawn, yn nghyflawnder yr amser, i'w gyfranu i ddynion. Yn ei lythyr at Titus, i. 2, dywed fod bywyd tragywyddol wedi ei "addaw gan y digelwyddog Dduw cyn dechreu y byd." Nid yn uni yr oedd y bywyd tragywyddol hwn yn bod mewn bwriad, ond hefyd mewn ffurf o addewid, cyn bod y byd. Ymrwymodd y Tad i'w roddi i ddynion. Addawodd ei i'w Fab ar eu rhan, fel eu cynnrychiolydd, ar ei waith yn ymgymeryd âg ateb drostynt i ofynion deddf a chyfiawnder. Mewn canlyniad i'r ymgyfammodiad hwn, ac oddiar berffaith ymddiried yn ei Fab, y cyflawnai efe yr ammodau trymion a gymerasai efe arno ei hun, y mae Duw mewn amser yn gollwng allan i fyd syrthiedig ddirgelion ei gynghor tragywyddol, mewn addewidion. Yn union wedi y cwymp, y mae yn addaw had y wraig i ysigo pen y sarph. Dyna'r wawr gyntaf o oleuni a gododd o ddirgel gynghor Duw ar achos y byd. Wedi hyny y mae y goleuni hwn yn cryfhau o oes i oes. "Yr ysgrythyr yn rhagweled mai trwy ffydd y mae Duw yn cyfiawnhâu y Cenedloedd, a ragefengylodd i Abraham, gan ddywedyd, Ynot ti y bendithir yr holl genedloedd." Cyhoeddodd Duw ei enw i Moses, gan ddywedyd, "Jehofah, Jehofah, y Duw trugarog a graslawn, hwyrfrydig i ddig, ac aml o drugaredd a gwirionedd, yr hwn sydd yn cadw trugaredd i filoedd, gan faddeu anwiredd, a chamwedd, a phechod." Yn nyddiau y prophwydi y mae bwriadau grasol Duw yn cael eu hagor yn helaethach fyth o flaen y byd mewn addewidion, a chyflawni ei addewidion yr oedd Duw wrth bardynu, sancteiddio, a gogoneddu saint yr Hen Destament. Ond yr oedd yr addewidion a roddwyd iddynt hwy yn cyfeirio ymlaen at iachawdwriaeth y byd yn nyddiau yr efengyl—at "y gras a ddeuai i ni." Addewidion oeddynt yn agor ar ragolygon dysglaer yn y dyfodol, fel ag i demtio y prophwydi "i ymofyn a manwl chwilio pa bryd, neu pa ryw amser, yr oedd Ysbryd Crist yr hwn oedd ynddynt yn ei hysbysu, pan oedd efe yn rhag-dystiol-

aethu dyoddefaint Crist a'r gogoniant ar ol hyny." Wrth i Dduw fel hyn gyflawni ei Air i'w weision a rhoddi addewidion ar gyfer oesau i ddyfod, yr oedd efe yn gweithredu ac yn ymddiried y byddai i'r Mab gyflawni yr ymrwymiadau yr aethai danynt. Yr oedd Duw wedi rhwymo ei hun mewn addewidion, ac yn y rhai hyny wedi "mawrhau ei air uwchlaw ei enw oll." Ac eto yr oedd yr addewidion hyn y fath ag nad oedd fodd ganddo i'w cyflawni, heb i'r Mab gyflawni yr ammodau a gymerasai arno ei hun. A chyfrifoldeb mawr, anfeidrol fawr, ydoedd hwn! Yn nghyflawnder yr amser daeth i'r byd i gwblhau yr ymddiried hwn. Yr oedd efe yn ymdeimlo â'i neges fawr yn barhaus, trwy ystod ei fywyd ar y ddaear. "Canys myfi a ddisgynais o'r nef," meddai, "nid i wneuthur fy ewyllys fy hun, ond ewyllys yr hwn a'm hanfonodd." Costiodd gwneuthur yr ewyllys yma i Grist y darostyngiad, yr ing, y dyoddefaint mwyaf, a'r farwolaeth chwerwaf. Wedi iddo "ddibrisio ei hun gan gymeryd arno agwedd gwas, darostyngodd ei hun, gan fod yn ufudd hyd angeu, ïe angeu y groes." Gwas i'w Dad ydoedd. Cario allan yr ydoedd ei amcanion grasol—gwneyd addewidion Duw yn ïe, ac yn Amen. Mewn trefn i ddwyn hyn oddiamgylch, nid oedd dim llai a wnai y tro nag i Berson y Cyfryngwr offrymu ei hun yn aberth difai i Dduw. Ymroddodd yntau yn holl wirfoddolrwydd ei Berson i hyny ma. "O herwydd paham y mae efe wrth ddyfod i'r byd yn dywedyd, Aberth ac offrwm nis mynaist, eithr corff a gymhwysaist i mi; offrymau poeth, a thros bechod, ni buost foddlawn iddynt, yna y dywedais, Wele fi yn dyfod (y mae yn ysgrifenedig yn nechreu y llyfr am danaf) i wneuthur dy ewyllys di, O Dduw." A chaledwaith i'r Duw-ddyn ydoedd hyn! Tystied ei ofn, ei bryder—ei lefain cryf a'i ddagrau—ei ing dirfawr—ei chwys gwaedlyd! Ond ni chiliodd yn ei ôl. Cuddiwyd edifeirwch o'i olwg. Nid ïe, a nage, oedd efe, "ond ynddo ef, ïe ydoedd." Ni ogwyddodd ddim oddiwrth ei ymrwymiadau. Ni siomodd ddysgwyliadau ei Dad. "Efe a'i hoffrymodd ei hun trwy yr Ysbryd tragywyddol yn aberth difai i Dduw." "Ac am hyny y mae efe yn Gyfryngwr y cyfammod newydd, megys trwy fod marwolaeth yn ymwared oddiwrth y troseddau oedd dan y cyfammod cyntaf y cai y rhai a alwyd dderbyn addewid yr etifeddiaeth dragywyddol." Yn gymaint a'i fod wedi ei offrymu ei hun yn aberth difai i Dduw, y mae efe yn addas Gyfryngwr y cyfammod newydd, amcan yr hwn ydoedd dwyn dynion i feddiant o'r etifeddiaeth dragywyddol. Pwynt eithaf yr holl addewidion ydyw yr etifeddiaeth hon. Yn wir, y mae yn cynnwys holl fendithion yr efengyl a fwynheir yn y byd hwn, a'r oll sydd yn aros y credinwyr yn yr hwn a ddaw—"golud gogoniant ei etifeddiaeth Ef yn y saint," ac "etifeddiaeth y saint yn y goleuni. Etifeddiaeth dragywyddol ydyw, a thragywyddol heb ddirywio—anllygredig, ddihalogedig, a diddiflanedig. Etifeddiaeth nad ä o'r teulu yn oes oesoedd. Amcan Crist wrth ymgymeryd â bod yn Gyfryngwr y cyfammod newydd oedd dwyn dynion i feddiannu yr etifeddiaeth dragywyddol hon. Atebodd ei farwolaeth yr amcan mewn golwg. Y mae hon yn ymwared oddiwrth y troseddau oedd dan y cyfammod cyntaf. Pardynwyd credinwyr yr Hen Destament, a chymerwyd hwynt i ogoniant, mewn rhagolwg ar y taliad a wneid gan Grist. Caed y taliad hwnw, yr hwn sydd yn brynedigaeth nid yn unig oddiwrth droseddau o dan yr efengyl, ond hefyd oddiwrth droseddau o dan y cyfammod cyntaf. Ië, y mae rhinwedd y farwolaeth hon yn rhedeg yn ol i'r cynfyd—at Abel ac at Adda.

Y mae yn Iawn dros bechodau yr holl fyd, o ddechreu hyd ddiwedd amser, fel ag y mae cyfiawnder Duw yn cael ei ddangos "yn maddeuant y pechodau a wnaethid o'r blaen trwy ddyoddefgarwch Duw," ac yn peri hefyd ei fod ef "yn gyfiawn ac yn cyfiawnhau y neb sydd o ffydd Iesu." Y mae Cyfryngwr y cyfammod wedi sicrhau, trwy ei farwolaeth, i'r rhai a ufuddhant i'r efengyl, gael "derbyn addewid yr etifeddiaeth dragywyddol." Y mae y testamentwr wedi marw, gan hyny y mae y testament mewn grym. Y mae y testamentwr yn awr yn fyw, i edrych am fod ei destament yn cael ei gario allan. Y mae yn gymunweinyddwr ar ei destament ei hun: y mae holl addewidion Duw ynddo ef yn ïe, ac yn Amen.

Megys mai yn Nghrist y rhoddwyd yr addewidion, ynddo ef hefyd y maent yn *derbyn eu cyflawniad* yn weithredol. Rhoddwyd hwynt ynddo. Yr oeddynt ynddo yn ras i ni cyn dechreu y byd; fel mai addewid fawr Duw i'r byd oedd yr addewid am ei Fab. Yr oedd hon yn cynnwys y lleill oll ynddi ei hun. Wrth ddyfod i'r byd, yr oedd yn cludo holl drysorau yr addewidion yn ei Berson. Yn debyg i long y marsiandwr yn dyfod o wlad bell gyda llwyth gwerthfawr o'i mewn. Wedi cychwyn ei mordaith, y mae yn cyfarfod âg ystormydd blinion, ac yn gorfod tori ei llwybr trwy dònau mawrion. Rhyw ddiwrnod, pa fodd bynag, wele hi yn cyrhaedd y porthladd yn ddyogel. Ac nid yn unig y mae y llong yn ddyogel, ond ei llwyth hefyd—heb fod dim o hono wedi ei golli, nac ychwaith wedi ei niweidio yn ystod y fordaith. Rhoddodd Duw ei ras i ni "yn Nghrist Iesu cyn dechreu y byd." Cychwynodd y llestr allan megys, o ddirgel gynghor, pell, tragywyddol Duw, gyda llwyth anmhrisiadwy werthfawr. Addewid fawr yr Hen Destament oedd dyfodiad y Messïah i'r byd. At hon y cyfeiriai y duwiolion eu llygaid. Trwy yspïenddrych ffydd y gwelent frig yr hwylbren yn ymddyrchafu ei hun uwchlaw y terfyngylch—"heb dderbyn yr addewidion, ond o bell eu gweled, gan gredu, a chyfarch" oddidraw. Rhyw ddiwrnod, wele'r llestr yn cyrhaedd y porthladd. "Pan ddaeth cyflawnder yr amser, anfonodd Duw ei Fab i'r byd, wedi ei wneuthur o wraig, wedi ei wneuthur dan y ddeddf." Cafodd fordaith arw, yn enwedig tua'r glànau. Er hyny cyrhaeddodd y porthladd yn ddyogel,—ac nid yn unig hyny, ond y mae y llwyth hefyd yn ddyogel, heb golli dim o hono yn yr ystorm fawr. "Oblegid holl addewidion Duw, ynddo ef ydynt ïe, ac ynddo ef Amen." Y mae yma ddigon o gyflawnder i wynebu ar fyd o ddynion yn eu trueni. "Crist a'n llwyrbrynodd ni oddiwrth felldith y ddeddf, gan ei wneuthur yn felldith drosom, fel y delai bendith Abraham ar y *Cenedloedd* trwy Iesu Grist." Nid oes gyfyngiad i fod ar y trysorau i na llwyth nac iaith, Iuddew na Groegwr, caeth na rhydd, gwryw na benyw. Y mae y cyflawnder yn gyflawnder ar gyfer pawb yn ddiwahaniaeth. Gan fod holl addewidion Duw yn sicr yn Nghrist, gallwn wahodd ein gilydd yn galonog ato ef yn ein holl anghenion dyfnion. Y mae efe yn un ag y gellir ymddiried yn ddibetrus arno am gyflawniad llwyr o holl addewidion Duw i bechaduriaid. A ydyw Duw wedi addaw cyfiawnhau, sancteiddio, arwain, dyddanu a chymhwyso dynion i dragywyddol ogoniant? Awn at Grist, a nyni a gawn fod y cwbl yn ïe, ac yn Amen, ynddo ef.

Y mae yr addewidion sydd yn Nghrist yn addewidion *cynghor*. Y mae ewyllys rasol Duw yn ei gynghor tragywyddol, yr hon a amlygwyd mewn addewidion i ddynion, yn destament mewn gwaed. Nid addewidion wedi eu rhoddi mewn byrbwylldra fel addewidion dynion yn fynych,

y rhai wedi eu rhoddi yn ddifeddwl a dorir yn llawn mor ddifeddwl; na, y maent yn ffrwyth cynghor dianwadal, ac y mae Duw wedi "cyfryngu trwy lŵ, fel trwy ddau beth dianwadal"—ei addewid a'i lŵ, "yn y rhai yr oedd yn anmhosibl i Dduw fod yn gelwyddog, y gallem ni gael cysur cryf, y rhai a ffoisom i gymeryd gafael yn y gobaith a osodwyd o'n blaen." Wele, gysur cryf, a chysur cryf i un yn ffoi am ei einioes—i un yn teimlo fod dialydd y gwaed wrth ei sodlau. Cysur digon cryf i'w alluogi i gadw y blaen ar y dialydd, ac i gymeryd gafael yn y gobaith a osodwyd o'i flaen—gobaith sydd fel angor yr enaid yn ddyogel ac yn sicr; ac yn myned i mewn hyd at yr hyn sydd o'r tu fewn i'r llèn, a gobaith ag y mae yr Archoffeiriad mawr wedi myned y tu mewn i'r llen yn y cymeriad o ragflaenor i sicrhâu na thrydd allan yn siomedig. Cofier, pa fodd bynag, mai addewidion yn Nghrist ydynt, ac mewn trefn i gael meddiant o honynt, fod yn anghenrheidiol dyfod ato a gwneyd derbyniad o hono trwy ffydd. Y rhai sydd wedi gwneyd hyn, mawr yw eu cyfoeth. Hwyrach fod y dyn yn dlawd o ran pethau y byd hwn; ond na ddiystyrer ef; y mae yn berchen etifeddiaeth fawr—y mae holl addewidion Duw yn Nghrist yn eiddo iddo. Cyn bo hir caiff dderbyn addewid yr etifeddiaeth dragywyddol. Nid ydyw heb addewidion gogyfer âg amgylchiadau y bywyd hwn. Geill fod yn foddlawn ar yr hyn sydd ganddo, canys Efe a ddywedodd, "Ni'th roddaf i fyny, ac ni'th lwyr adawaf chwaith." "Galw arnaf fi yn nydd trallod a mi a'th waredaf, a thi a'm gogoneddi." "Pan elych trwy y dyfroedd, myfi a fyddaf gyda thi, a thrwy yr afonydd fel na lifont trosot." Ond yn y dyfodol y mae ei gyfoeth mawr. Y mae yr addewidion yn feddiant iddo yn awr. Y maent ganddo fel *promissory notes*. Rhai o honynt i'w talu *on demand*, ac eraill y rhaid myned â hwy i dragywyddoldeb i gael eu talu, ac ni bydd rhai o honynt yn ddyledus hyd ddydd yr adgyfodiad. A'r hyn fydd Duw yn ei wneyd byth fydd cyflawni ei addewidion, a'r hyn fydd y cadwedigion yn ei wneyd fydd etifeddu yr addewidion. Nid ânt byth trwy eu hetifeddiaeth. Ni ddaw morthwyl yr arwerthydd byth arni.

Bydd y cyflawniad o'r addewidion ER GOGONIANT I DDUW. Nid oes modd dyweyd mwy na hyn. Y mae dynion weithiau yn cyflawni eu haddewidion o ran eu ffurf, ond yn fyr o foddloni y dysgwyliadau a godwyd ganddynt. Nid felly Duw. Rhodder yr osgo a fyner i'r dymuniadau, ac i'r dychymyg—bydd y cyflawniad o'r addewidion hyn y tu hwnt i ddim a allwn ni ei ddymuno na'i feddwl. Y rhai sydd yn Nghrist, beth am danynt? Y maent yn yr un man a'r addewidion. Beth bynag yw eu rhan yn y byd hwn, y mae y gwaethaf wedi myned heibio. Y maent wedi eu symud o diriogaeth y bygythion. Y mae yr addewidion yn goleuo i fyny eu tragywyddoldeb. Y dyn sydd heb wneyd derbyniad o Grist, beth am dano ef? Y mae y tu allan i gylch addewidion Duw. Hwyrach fod rhagluniaeth Duw yn pelydru yn siriol ar ei babell; ond, y mae ei ragolygon yn dywyll—yn ddu—yn ofnadwy ddu. Y mae bygythion Duw yn llenwi ei ffurfafen âg elfenau ystorm dragywyddol. Y mae swn ambell i daran sydd yn disgyn ar ei glust, a dysgleirdeb ambell i fellten sydd yn fflachio ar ei gydwybod yn nghanol-ddydd ei lwyddiant, yn taflu diflasdod ar bob peth iddo weithiau yn y byd hwn: beth fydd bod yn nghanol nos, heb un pelydr i'w sirioli, ac mewn ystorm na ddaw hindda ar ei hol!

Y mae Crist yn awr yn ein gwahodd ato ei hun; ac ynddo ef cawn, nid yn unig ddyogelwch rhag pob drwg, ond addewidion Duw yn etifeddiaeth fras a thragywyddol i ni.

Y PERSON YR YDYCH YN BYW GYDAG EF.

Gan y Parch. Dr. Cuyler, *New York.*

Y dyn a feddai y personoliaeth cryfaf ar y ddaear, yn nghanol y ganrif gyntaf o Gristionogaeth, oedd yr Apostol Paul. Gallwn ddarllen "epistol byw" ei gymeriad gwronaidd a sanctaidd rhwng llinellau ei epistolau ysbrydoledig. Y tu cefn i'r addysg safai yr athraw ei hunan; ac er mor wylaidd oedd, yr oedd ganddo hawl i ddyweyd, "Hwy a ogoneddasant Dduw ynof fi," ac yr oedd Crist Iesu yn byw ynddo. Pan ysgrifena Paul at ei fab ysbrydol Timotheus, y mae yn sylweddoli y gwerth goruchaf a berthyn i *gymeriad*, ac am hyny ysgrifena, "*Gwylia arnat dy hun.*" Y pwnc mwyaf oedd y *dyn* Timotheus; oni byddai iddo ef arddangos Cristionogaeth, ni byddai ei addysgiadau ond "efydd yn seinio a symbal yn tinclan."

"Adnebydd dy hun" oedd y wireb euraidd a ysgrifenai hyd yn nod athroniaeth baganaidd ar borth-fynedfa ei themi wychaf. "Holwch eich hunain; profwch eich hunain," yw yr hyn y mae doethineb Gristionogol yn ei ail-adrodd. Gallai dyn dybied y byddai y person yr ydym yn byw gydag ef bob moment, yr hwn sydd yn cerdded yn ein hesgidiau ac yn trigiannu yn ein corff ni ein hunain, yn drwyadl adnabyddus i ni. Ond mor resynus o anwybodus y cawn ein bod yn fynych, a chynifer o ystafelloedd yn nhŷ ein calon ein hunain a adewir yn fynych heb chwilio i mewn iddynt! Dedwydd yw y dyn sydd yn gweithredu y Columbus i'w enaid ei hun! Gorwedda ein perygl mwyaf yn nghyfeiriad ansoddau heb eu hammheu na'u dadblygu. Nis gŵyr neb beth sydd ynddo nes y profir ef. Tora y gwirioniedd hwn ddwy ffordd, a chymer i mewn yr ansoddau da yn gystal a'r gwendidau a'r beïau cuddiedig. Nis gallasai Abraham, er esiampl, wybod gymaint o ffydd oedd ganddo yn Nuw, nes yr ysgydwodd y gyllell noeth uwch ben mynwes ei anwyl fab. Nid oedd Daniel wedi mesur ei wroldeb ei hun nes oedd bygythiad ffau y llewod yn tremio yn ei wyneb. Un o ddybenion mawr ymddygiadau a dysgyblaeth Duw tuag at ei bobl yw, nid yn unig rhoddi ei ras Ef ynddynt hwy, ond dwyn allan ei ras o honynt.

Ar y llaw arall, yr oedd Dafydd wedi gweled tynu gorchudd oddiar bydew erchyll yn ei gymeriad ei hun, pan yr ysgrifenodd, gyda phin wedi ei drochi mewn dagrau, y Salm edifeiriol, yr unfed ar ddeg a deugain. Gallasai Judas basio fel engraifft gyffredin o onestrwydd nes i'r pwrs gael ei ymddiried iddo, ac nes i'r archoffeiriaid ddal y *shekels* o flaen ei lygaid gwancus. Ymffrostiai Petr yn gadarn yn ei ffyddlondeb, nes y gwnaeth yr Athraw iddo wybod y fath fan gwan oedd yn ei haiarn; ac yn union yn y fan hono y torodd yr echel. Y mae y lle drwg sydd heb ei gael allan yn gadael i'r echel dori pan y mae yr agerbeiriant yn chwyrnellu dros y tir yn ol deugain milldir yr awr—gyda dinystr ofnadwy ar gerbydau, nwyddau, a bywydau dynol. Ac nid yw Cristionogion byth mewn mwy o berygl na phan y maent yn ysgubo ymlaen mewn cyflymdra mawr o lwyddiant yn nghanol cenfigen a syndod yr holl edrychwyr. Ar y cyfryw adegau rhaid i ni edrych allan am yr echel.

Gall ansoddau dirgel cymeriad orwedd yn fynych am flynyddoedd yn nghelloedd cuddiedig y galon heb eu deffro i weithrediad. Y maent fel rhai hadau a arosant yn y ddaear am amser maith, nes y daw rhyw sylwedd i gyffyrddiad â hwynt, ac y mae hwnw yn eu cyffroi i ddyfod allan. Felly y mae gyda chymeriad. Gall hadau gweithredoedd ardderchog ac iselwael—rhinweddau mawr a drygau mawr, orwedd yn guddiedig yn y galon; gall rhai o honynt aros yno yn ddirgel hyd nes y bydd goleuni dadguddiad Dydd y Farn yn ymdori arnynt. "Chwilia fi, O Dduw, a gwybydd fy nghalon; prawf fi, a gwybydd fy meddyliau: a gwêl a oes ffordd annuwiol genyf, a thywys fi yn y ffordd dragywyddol." Nis gallwn weddïo y weddi hon yn rhy daer nac yn rhy fynych.

Cyffröir ni yn fynych wrth glywed am fethiant arianol dynion oeddynt wedi bod yn sefyll yn uchel yn y byd masnachol. Nid oeddynt yn ddynion anonest a thwyllodrus. Ond yr oeddynt yn resynol o anwybodus am wir sefyllfa eu hamgylchiadau eu hunain; yr oeddynt naill ai yn rhy obeithiol

gyda golwg ar werth yr eiddo oedd yn eu meddiant, neu yn rhy ofnus i chwilio i mewn i'w colledion i'r gwaelod. Yn ddiau ni a ddylem "wylio arnom ein hunain," a mynu gwybod yn drwyadl pa fodd y mae pethau yn sefyll rhyngom â Duw. Nid yn unig y mae tawelwch meddwl, ond y mae ein cymeriad a'n hiachawdwriaeth, yn troi ar hyn. Cyhyd ag y mae perygl ein bod yn ein twyllo ein hunain, ni a ddylem wneyd yr ymchwiliad mwyaf trwyadl i'r person yr ydym yn byw gydag ef, yr hwn sydd yn anadlu yn ein cyrff, a'r hwn sydd yn ein cario naill ai i fyny i'r nefoedd neu i lawr i uffern. Ni ddylai hwnw fod yn ddyeithr i ni. Chwilia dy hun yn onest, fy nghyfaill, cloddia a dos yn ddwfn o dan y broffes allanol a theimladau cyfnewidiol, a dos i mewn i waelod yr achos. Prawf dy hun â'r cyfryw gwestiynau a hyn: "A ydwyf yn casâu pechod—hyd yn nod y pechodau yr arferwn eu caru—ac a ydwyf yn ymladd yn eu herbyn ac yn gweddïo am gael fy ngwaredu oddiwrthynt? A ydwyf yn anymddiried ynof fy hun, ac yn ymddiried yn Iesu Grist yn unig am gymhorth bob dydd ac am iachawdwriaeth yn y diwedd? A ydwyf yn rhoddi i fyny fy ewyllys fy hun i Grist, ac yn gadael iddo Ef fy llywodraethu a'm harwain? A ydwyf yn teimlo boddhâd sylweddol mewn gwneyd yr hyn sydd iawn, a llawenydd mawr wrth ymdrechu i lesâu fy nghyd-ddynion? A ydwyf yn amcanu yn onest i fyw bob dydd fel yr ydwyf yn gweddïo?" Os gelli gael yn dy brofiad a'th ymarweddiad beunyddiol ateb boddhaol i'r cyfryw gwestiynau o brawf, yna gelli gredu yn hyderus dy fod yn wir ddylynwr i Iesu Grist. Diolch i Dduw, a chymer gysur!

Tra y mae hunan-ymholiad gofalus a gweddigar yn ddyledswydd hanfodol, cyflawnir hi weithiau mewn ffordd sydd yn ei gwneyd yn niweidiol. Y mae rhai dynion da yn ei chyflawni naill ai yn dra annoeth neu mewn modd eithafol. Y maent yn dyfod i ymdeimlo gormod â hwy eu hunain, yn rhy hunan-ymwybodol; y maent yn meddwl gormod am dənynt eu hunain. Y maent yn barhaus yn teimlo eu *pulse* eu hunain, ac yn ymboeni ynghylch eu hiechyd ysbrydol nes y mae eu cydwybodau yn myned i ystâd afiachus, a'u bywyd yn myned bron yn druenus. Desgrifia Bunyan y Cristionogion annedwydd hyny yn ei "Mr. Ofnus," yr hwn a orweddai yn yr oerni ar hyd y nos am fod arno ofn curo wrth y porth, a'r hwn a deithiai tua'r nefoedd gan blygu ei ben fel brwynen. Y mae diffyg treuliad corfforol neu ewynau gweiniaid yn fynych yn chwanegu at ddyoddefiadau y dysgyblion afiach a digalon hyn.

Y ffordd i fod yn iach a dedwydd yw trwy edrych i mewn ac edrych allan—cymeryd yr *Inlook* a'r *Outlook*. Dylem edrych *i mewn* i ni ein hunain i ganfod ein gwendidau ein hunain, ein hanghenion, a'r pechod sydd yn barod i'n hamgylchu. Dylem edrych *allan* o honom ein hunain i weled ac i fyfyrio ar ein Harglwydd a'n Hachubwr. "Gwylia arnat dy hun;" ïe, yn ddiammheu, a gwylia hefyd ar Iesu Grist fel dy gyfiawnder, dy esiampl, a'th gymhorth holldigonol, yr hwn a all dy ddwyn allan yn fwy na choncwerwr. Trwy edrych megys mewn drych ar ei ddelw ddwyfol Ef, ti "a newidir i'r unrhyw ddelw o ogoniant i ogoniant, megys gan Ysbryd yr Arglwydd." Yna ti a elli ddyweyd yn hyderus wrth yr hwn sydd yn byw yn dy gorff marwol: "Fy enaid, bendithia yr Arglwydd, a chwbl sydd ynof ei enw sanctaidd Ef! Efe yw fy nghraig a'm hiachawdwriaeth" hyd byth!

MYFYRDODAU AR BENNILLION.

(GAN AMRYW.)

"CLODFORWCH CHWI EF DROSOF FI."

Gan y Parch. J. T. ALUN JONES, *Bala.*

"O! SEINTIAU ac angylion fry!
Clodforwch chwi ef drosof fi."

GYDA'R geiriau hyn y diweddai William Williams un o'i fawl-emynau.

Edryched y darllenydd unwaith eto dros yr emyn—ac o bosibl mae yn eithaf cyfarwydd âg ef—a gwel y modd y twymnai calon yr Emynydd nes y canai ei awen bur hyfryd gân o glod i Grist:—

"Moliannaf byth yr anwyl Oen;
Pa fodd y gallaf dewi a son?

Rhoes laeth a mêl o'r Ganaan fry,
A melus yw i'm henaid cu.

"Fe'm rhoes i sefyll ar fy nhraed,
Lle 'r o'wn yn gorwedd yn fy ngwaed;
Fe 'm cododd fel o farw i fyw,
Rhoes win ac olew yn fy mriw.

"Cês enw newydd oddi fry,
Ar gareg wen; pam 'r ofnaf fi?
Yr hwn nis edwyn neb yn iawn
Ond a'i derbyniodd ef yn llawn.

"Pa fodd am hyn nas canaf glod
I'r hwn a'm carodd cyn fy mod?
O! seintiau ac angelion fry!
Clodforwch chwi ef drosof fi."

Da y gwyddai Williams—pwy wyddai yn well nag ef?—nad posibl byth moli Duw trwy ddirprwy—*by proxy*. Can hawdded anadlu dros arall ag i ddynion neu angylion foli eu Creawdwr dros eu gilydd. Ar ei anadl ei hun yn unig y gall dyn fyw, a chyda mawl yn codi o'i galon ei hun, fel ar bwys ei ffydd ei hun yn unig, y gall y Cristion edrych i fyny, mewn cymundeb bywyd ysbrydol, at ei Dduw. Geill mawl ennyn mawl. Medrai y Salmydd ddyweyd, "Aethwn gyda'r gynnulleidfa, cerddwn gyda hwynt i dŷ Dduw, mewn sain cân a moliant, fel tyrfa yn cadw gŵyl." A thra hawdd, dybygem, i'r Salmydd, gan ddringo â'i wyneb tua Sïon, oedd ymuno yn ỳ mawl. Ond pe'r aethai ei dafod yn fud, a phe'r oerasai ei galon ar y ffordd, oni buasai yn rhaid i'r Pêr Ganiedydd droi yn ol? Trwy'r dyrfa fawr i gyd nid oedd neb i offrymu mawl i Dduw *yn lle* Asaph neu *yn lle* Dafydd. A phe b'ai modd i gynnyg, nis gallasai Duw ei dderbyn byth. Yn yr ystyr yma, yn y pethau hyn, nid oes le i'r "dirprwyol" ynglŷn â chrefydd Iesu Grist. Ei hanfod hi ydyw cymundeb ysbrydol personol y credadyn â Duw yn Nghrist. "Trwyddo Ef gan hyny offrymwn aberth moliant yn wastadol i Dduw, yr hyn yw ffrwyth ein gwefusau yn cyffesu i'w enw Ef."

A rhaid i bob un yn yr Eglwys gyffesu i'w enw Ef, ac offrymu aberth moliant *drosto ei hun*. Eto, meddai Williams:—

"O! seintiau ac angylion fry!
Clodforwch chwi ef drosof fi."

Oddiar yr ystyriaeth uchod, hawdd gweled nas bwriadai yr Emynydd gymaint ag awgrymu i'r "seintiau a'r angylion fry"—a thybied eu bod, o agos neu bell, yn clustfeinio gyda'u gilydd pan gyferchid hwynt—"clodforwch chwi ef drosof fi"—y dymunai iddynt hwy glodfori ei Waredwr, pe gallasent wneuthur felly, yn ei le ef. Yr oedd Williams, Pantycelyn, yn rhy uniongred i awgrymu ystyr o'r fath yna, fodd bynag. Nis goddefai ei galon dwym y fath feddwl am un amrantiad. Iaith ddofn ei galon ydoedd:—

"Pa fodd am hyn nas canaf glod
I'r Hwn a'm carodd cyn fy mod?"

Pa briodoldeb ynte sydd yn ei eiriau cyfarchiadol i'r "seintiau a'r angylion fry?" Dichon y barna rhai na chynnwysent unrhyw ystyr; mai dychymyg yn chwareu, neu ehediad barddonol yn unig welir ynddynt. Ond tybed a oes ehediad gwir farddonol diystyr? Onid yw'r gwir farddonol, tra'n denu'r llygad at dlysni neu brydferthwch meddwl, yn mynu canmol ei hunan hefyd i'r galon—i'r hyn sydd ddyfnaf yn y galon ddynol,—fel gwirionedd?

"Y mae pob barddoniaeth diledryw," meddai y diweddar Dr. Edwards, "yn wir; ac i'r graddau y mae unrhyw gyfansoddiad dan yr enw barddoniaeth yn pellhâu oddiwrth y gwir, i'r graddau hyny y mae yn pellhâu oddiwrth fod yn farddoniaeth." Ac mewn modd neillduol rhaid fod y sylw yn gymhwysiadol at farddoniaeth y cysegr. A gwelodd Ysbryd Duw y gallesid dadguddio egwyddorion a gwirioneddau mawr i'r Eglwys ac i'r byd o dan ddwylaw beirdd ysbrydoledig, ac mewn gwisg—brydferth ac arddunol—eto gwir farddonol. Ond prin y perthyn i mi fel hyn fyn'd o'm ffordd i amddiffyn, pe b'ai eisieu, na beirdd na barddoniaeth.

Dychwelwn at ddwy linell William Williams. Credwn y boddlonai yr awdwr i addef am y rhai'n fod ynddynt, o'r ddau,—ac os rhaid ysgaru—lawn mwy o wirionedd nag sydd ynddynt o farddoniaeth. Cymerwn ychydig bwyll i chwilio a dyfod, os gallwn, o hyd iddo. Tebyg yr addefir y byddai yn oddefol, ac nas byddai chwaith yn anweddaidd i Williams, neu unrhyw Gristion arall, os gwelai'n dda, i alw ar saint ac angelion yn y Nef i gyflawni yr hyn oedd yn ol ac yn ddiffygiol yn ei foliant ef ar y ddaear i'r addfwyn Oen. Wedi dymuno moli,

a thra, er ceisio ei oreu, y methai ef a moli wrth ei fodd, pa niwed fuasai iddo droi i ddeisyf ar rai ychydig yn uwch i fyny ar Fynydd Sïon, mewn gwell mantais, ac â pherffeithiach doniau ganddynt, i glodfori tipyn ar ei ran? Ac os yn eu gallu, mor ewyllysgar fuasent i gydsynio! "Onid ysbrydion gwasanaethgar ydynt hwy oll?" Ac am y saint, gwnaent hwythau eu goreu yn ol eu gallu. Gofynai Williams,—

"Beth yw 'r gwahân rhwng sant a seraph
Yn ngwasanaeth pur y nef?
Onid angel ydyw enaid
Hyd nes adgyfodir ef?
Pa negesau wna seraphiaid,
Pa gynnorthwy wnant i ddyn,
Na wna d' enaid di neu arall
Gyda phleser, heddyw 'r un?"

Nid oes unrhyw orfod arnom i gredu fod yr angylion glân a'r saint trwy'r Eglwys fawr, yn eu mawl a'u haddoliad i Dduw a'r Oen, wedi llwyr ymgolli yn yr amlygiadau fwynheir ganddynt o Dduw ac o'i ddaioni Ef iddynt hwy eu hunain.

"Nac edrychwch bob un ar yr eiddoch eich hunain, eithr pob un ar yr eiddo eraill hefyd," ydoedd dysgeidiaeth yr Ysbryd yma; a diammheu fod yr adnod hon, fel pob adnod arall, o ran ei hegwyddor a'i hysbryd bendigedig mewn grym ac ymarferiad cyson yn y nefoedd byth. Ac ni a obeithiem yn fawr mai un o'r cymhellion penaf i dwymno calon ei phreswylwyr, a galw allan y nodau mwyaf hyfryd yn nghân Moses a chân yr Oen, fyddai'r meddwl fod y daioni y cyfranoga pob preswylydd ynddo ar ei ben ei hun yn y nefoedd—yn wynfyd ac yn ogoniant—i'r dyrfa fawr oddiamgylch nad all neb ei rhifo byth.

Gobeithio y bydd gwir ofal arnom am ein gilydd yno, ac y cawn foli Duw heb anghofio dyn. Ac ni chymyla ar ogoniant Duw i gredu y bydd y dynol mewn bri, yr *human interest* yn parhau yn oes oesoedd. Ceir y gwir *altruism* yn y nefoedd. Ac onid oes rhyw awgrym ei bod hi felly yn y ffaith yr ymddengys mai yn y rhif liosog, yn un frawdoliaeth fawr ger bron yr orsedd, y cenir yr anthemau i Dduw a'r Oen? *I'n Duw ni, ac i'r Oen*, meddai y dyrfa fawr; *I'r Oen, ac i'n Duw ni*, meddai yr holl angylion. Mae pob peth yn un yn yr un teulu yn y nef.

"Un yw 'r canu, un yw 'r cariad,
Dieiddigedd er ei faint;
Iesu yn unig yw ein gwrthddrych,
Gystal seraphim a saint."

"O'r Hwn yr enwir yr holl deulu yn y nefoedd ac ar y ddaear." A pha ryfedd felly os, yn ngrym perthynas agos, y try'r angylion glân a'r saint i offrymu mawl i Dduw yn wresog iawn ar ran—nid, yn wir, yn lle—eu brodyr yn yr eglwys filwriaethus ar y ddaear? Gwneler cymwynas â phlentyn bychan, ac arweinia ei fam ef gerfydd ei law i'ch tŷ, a chyda calon gynhes a'i gwyneb siriol hi ddiolcha i chwi drosto. Dysga iddo ddiolch drosto ei hun, mae'n wir; a gwna hithau ei goreu o'i deall ac o'i chalon i wneyd i fyny yr hyn ymddengys iddi yn ddiffyg yn ei ddiolch syml ef. Yr un modd, ni ryfeddem ddim os try yn llythyrenol wir—yr hyn mae llinellau'r Pêr Ganiedydd ar un olwg yn awgrymu—fod angylion, o'r gwarchodlu fry, a rhai o'r saint o'i hen gydnabod, yn rhoddi mawl i Dduw am olud ei ddaioni Ef i William Williams!

Nid oes anhawsdra mawr i synied hyn am yr angylion. Ar sail dadguddiad gwyddys fod eu dyddordeb hwy yn ddwfn yn hanes yr eglwys ar y ddaear. Beth am y saint—"ysbrydoedd y cyfiawn, y rhai a berffeithiwyd?" A ydynt hwy oddiyno yn gwybod rhywbeth am ein hanes a'n helynt ni? A yw eu byd ysbrydol hwy yn ein hymyl? A ydyw y llen mor deneu fel y gallent, o'r ochr arall, edrych drwyddo ac â gwelediad annirnadwy olrhain troion yr eglwys isod?

Dywedai chwaer o'r Methodistiaid wrth ei brawd unwaith, os byddent yn wybyddus yn y nef o'r hyn oedd yn cymeryd lle ar y ddaear: "Mi'ch gwyliaf fi chwi o'r nefoedd." ("*I'll watch you from heaven.*") Ond a ellir gwybod? Er mor ddyddorol fuasai gwybod, nid oes ateb o unlle. Nis medrai Williams, mwy na ninnau, ond dyfalu. Ac mor dra hoff yr oedd o wneuthur hyny:—

"A yw 'r dyrfa fawr sydd yna
'N awr yn gwybod, dywed im',
Ymha ranau maith o'r ddaear
Mae 'r efengyl yn ei grym?
Ar bwy genedl y mae 'r nefoedd
Yn cyfranu yma a thraw?
Pwy sy 'n derbyn ysbryd cariad?
Pwy sy 'n derbyn ysbryd braw?

"P' un ai myrdd sy 'n tramwy yma
O ysbrydion pur eu dawn,
Yna dwyn yn ol newyddion,
Mewn gorfoledd hyfryd iawn?
Neu a ydyw swn ein geiriau,
Megys gyda 'r awel bur,
Yn ehedeg ar adenydd
Cwmwl i'r sanctaiddiol dir?"

Eto mewn marwnad arall o'i eiddo:—

"A ydych chwi yn gwybod yna
Am ein gofid ni sydd yma?
Neu a fedrwch gydymdeimlo
A'r rhai hyn sy 'n cael eu temtio?
A oes rhai oddiyna, weithiau,
Yn d'od yma ar negesau
Mawrion maith, fel y daeth
Moses ac Eli',
Ar newidiad gwedd yr Iesu,
Mewn gogoniant i ryfeddu?"

A bron na feddyliai Williams weithiau eu bod:—

"Mae fy ffydd, neu mae 'm dychymyg,
Yn hyderus iawn, yn tebyg
Fod rhyw swn yn d'od i'm clustiau
O'r dedwyddol faith ganiadau:
Mae yn hedeg tros y bryniau
Ar adenydd awel denau,
Yn d'od â rhin nefol win
I loni 'm blin enaid;
Ac yn rhoi rhyw hyfryd syched
Am fod yn eu gwledd fendigedig."

Ond wedi'r cwbl, "nid amlygwyd eto." Gellir gofyn unwaith yn rhagor a oedd William Williams mewn gwirionedd yn dysgwyl, hyd yn nod a chaniatâu y gallasent wneuthur hyny, i breswylwyr glân y nefoedd glodfori'r Oen ar ei ran ef, atebir gan liaws o'n darllenwyr *nad oedd.* Er hyny fe erys ystyr mawr i'w eiriau. A thebygol mai'r ystyr y cyfeirir ato'n awr fydd fwyaf derbyniol gan lawer. Ymddengys yn fwy rhesymol, a chyda llai o *sentiment* a dychymyg ynddo. A dyma fo. Edrycher ar y geiriau fel tywalltiad allan calon lawn o fawl. Gwelir y Cristion dysglaer ynddynt yn moli ac yn methu moli yr un pryd. Mae Gwrthddrych ein mawl mor deilwng; mae calon y creadur mor oer, mae ei ddoniau mor fychain. Buasai yn dda gan yr emynydd fenthyca doniau'r angel a chalon sant—Ioan neu rhyw ddysgybl anwyl arall—wedi ei berffeithio yn y nef. A'i ddull, hwyrach, o ddadgan ei ymdeimlad dwys o'i fethiant, a'r un pryd o'i obaith a'i hyder y bydd yn medru clodfori yn wresog yn y nef, yw trwy dori allan i gyfarch ysbrydion anweledig megys yn eu gŵydd—"clodforwch chwi ef drosof fi." Wrth ystyried teilyngdod anfeidrol Gwrthddrych mawl y credinwyr, gogoniant ac hawddgarwch Duw yn Nghrist, nid oedd moliant Williams ond gwael ac annheilwng iawn. Ac eto pwy glodforodd fwy nag ef? Pwy, i'n golwg ni? Ond mor bell ar ol y gwel y dyn da ei hun! Mor ddiymhongar a gwir ostyngedig ydyw gras! Mor ddirinwedd ydyw rhinwedd i'w thyb ei hun! Mor oeraidd a difawl y teimla'r galon hawddgar sy'n moli fwyaf ac yn moli oreu ar Iesu Grist!

Eglurhadaeth Ysgrythyrol.

GWERSI UNDEB YSGOLION SABBOTHOL CYMRU.

☞ *Cyfeirier at y GWERSLYFRAU am y WERS a'r CWESTIYNAU arni. Cofier fod y Wers ar gyfer pob Sabboth o Ebrill 1af*, 1888, *i'w rhanu dros ddau Sabboth.*

DOSBARTH HYNAF.

SABBOTH, IONAWR 12FED—*(Y rhan olaf o'r Wers am* CHWEFROR 17EG *yn y* GWERSLYFRAU YSGRYTHYROL: LLYFR II., *tu dal.* 31).

"*Mi a ddaethum i fwrw tân ar y ddaear.*" Luc xii. 52, 53.

ADN. 52, 53: *Canys bydd o hyn allan bump yn yr un tŷ wedi ymranu, tri yn erbyn dau, a dau yn erbyn tri.* Y mae y rhif pump yma, fel yn adn. 6: "pump o adar y tô," yn neilldiol i Luc. Pan y mae tri yn erbyn dau, a dau yn erbyn tri, y mae yn fwy anhawdd eu huno drachefn. *Y tad a ymrona yn erbyn y mab*, &c. Y mae nerth Cristionogaeth yn gryfach na'r cylymau mwyaf cysegredig, pan yn dyfod i wrthdarawiad â'u gilydd. "Tywysog tangnefedd" yn unig a all eu cymmodi, trwy orchfygu yr elyniaeth at sancteiddrwydd â grym ei gariad.

SABBOTH, IONAWR 19EG—*(Y rhan gyntaf o'r Wers am* CHWEFROR 24AIN *yn y* GWERSLYFRAU YSGRYTHYROL: LLYFR II., *tu dal.* 31).

"*Onid edifarhewch, chwi a ddyfethir oll yn yr un modd.*" Luc xiii. 1—5.

ADN. 1: *Ac yr oedd yn bresennol y cyfamser hwnw, rai yn mynegi iddo am y Galileaid, y rhai y cymysgasai Pilat eu gwaed ynghyd a'u haberthau.* Ni

wyddys ddim yn hanesyddol am y ffaith hon. Arferai y Rhufeiniaid greulondeb dirfawr at yr Iuddewon; buasai rhoddi ychydig o Galileaid dinod i farwolaeth yn myned o'r golwg fel dyferyn yn y môr. Yr oedd y weithred yn echrydus o greulawn—cymysgu gwaed yr aberthwr gyda gwaed ei aberth. Ystyrid adeg gysegredig yr aberthu yn amddiffyn rhag pob niwed i'r aberthwr. Gellid meddwl fod rhyw euogrwydd dychrynllyd yn perthyn iddynt, cyn y buasai Duw yn goddef i'r fath beth ddygwydd. Eto, awgryma yr ymadroddion syniad sydd â'i wraidd yn ddwfn ymhlith pob cenedl, fod y drwgweithredwr a roddir i farwolaeth yn fath o *sacer*, dyn wedi ei ddiofrydu, ac yn cael ei offrymu am y pechod cyffredinol, yr hwn a ddaeth i'r golwg yr ddo ef mewn amlygrwydd arbenig.

Adn. 2, 3: *Ydych chwi yn tybied fod y Galileaid hyn yn bechaduriaid mwy na'r holl Galileaid, am iddynt ddioddef y cyfryw bethau? Nac oeddynt, meddaf i chwi; eithr, onid edifarhewch, chwi a ddyfethir oll yn yr un modd.* Nid yw yr Iesu yn gwadu nad oeddynt yn "bechaduriaid," ond nad oeddynt yn "bechaduriaid mwy" nag eraill. Gallai eu bod yn euog o droseddau mawr; ond nid yw hyny yn newid y mater. Y mae hadau yr un gweithredoedd yn gorwedd yn llonydd yn nghalonau pawb. O hyn yr oedd y Gwaredwr am eu hargyhoeddi. Yr unig ffordd i ochel y gosb yw trwy edifeirwch, a hyny nid am bechodau penodol yn unig, ond am y dueddfryd a'r gwaith o bechu, am ymuno â phechod yn ei unoliaeth a'i gyffredinolrwydd. Nid yn unig am *bechodau*, ond am *bechod*.

Adn. 4, 5: *Neu y deunaw hyny ar y rhai y syrthiodd y tŵr yn Siloam, ac a'u lladdodd hwynt*, &c. Dyma engraifft arall o ddinystr disymwth ar ryw Iuddewon yn cael ei choffâu gan Grist ei hunan—deunaw yn cael eu lladd trwy gwymp adeilad. Nid oes genym yma ychwaith ddim hysbysrwydd hanesyddol am y ffaith hon. Yr un wers a ddysgir yma eto. Nid oeddynt i gondemnio y dynion hyn fel pechaduriaid anfad, ond i ddysgu yr anghenrheidrwydd am edifeirwch personol—gadael pechod i ochel cosb pechod. Nid yw ein Harglwydd am i ni beidio edrych ar ddrygau tymmorol mewn cysylltiad â'r byd moesol. Ei ddysgeidiaeth ef, a'r eiddo yr holl Ysgrythyr, yw fod pechod a dyoddefaint yn gysylltiedig. Ond ni ddylem ni byth gymeryd arnom gymhwyso y gwirionedd cyffredinol hwn at bersonau, a phenderfynu fod rhyw ddrygfyd neillduol yn gosb am ryw bechodau neillduol. Nid oes genym hawl na gallu i farnu eraill fel hyn. Ac y mae hyn yn troi min yr oruchwyliaeth fel cymhelliad i *ni* edifarhau.

Sabboth, Ionawr 26ain—*(Y rhan olaf o'r Wers am* Chwefror 24ain *yn y* Gwersyfrau Ysgrythyrol: Llyfr II., *tu dal.* 31).

Dammeg y ffigysbren ddiffrwyth.

Adn. 6—9: *Ac efe a ddywedodd y ddammeg hon: Yr oedd gan un ffigysbren wedi ei blanu yn ei winllan: ac efe a ddaeth i geisio ffrwyth arno, ac nis cafodd,*" &c. Y mae y Gwaredwr trugarog, ar ol cerydd llym, yn diweddu yr ymddyddan trwy ddammeg sydd yn dwyn ochr gras i'r golwg. Ymddengys fel Dadleuwr dros ddynion ger bron cyfiawnder y Tad nefol, ac yn eiriol am iddynt edifarhau. Rhed y syniad hwn trwy yr Ysgrythyrau. Y chwech ugain mlynedd o flaen y diluw, Gen. xi. 3; eiriolaeth Abraham dros Sodom, Gen. xviii. 24; dinystr Jerusalem yn cael ei oedi am ddeugain mlynedd ar ol esgyniad Crist; a'i ail-ddyfodiad i'r farn olaf yn cael ei oedi trwy hir-amynedd Duw, 2 Pedr iii. 9. Dwg hyn i'r golwg ryddid Duw a rhyddid dyn, a dengys nad anghenrheidrwydd oer ac anmhlygedig sydd yn penderfynu cwrs y byd.

Yn yr ystyr gyntaf, y genedl Iuddewig oedd y ffigysbren hon, fel yn Hosea ix. 10. Cawsant fanteision neillduol a manteision mawr, ond ni ddygasant ffrwyth i Dduw. Ond ymddangosodd y Gwaredwr yn y byd, a bu farw trwy eu "dwylaw anwir" hwy; ond rhoddwyd amser iddynt i edifarhâu, ac i dderbyn y cynnygion am faddeuant ac iachawdwriaeth trwy yr Hwn a groeshoeliwyd ganddynt. Ond ei wrthod a wnaethant, yr hyn a "gyflawnodd" eu hanwiredd, fel y daeth "digofaint Duw arnynt hyd yr eithaf." Y mae cenedl Israel yn gysgod neu yn gynllun o ddynolryw yn gyffredinol. Cymhwysa rhai y "tair blynedd" at weinidogaeth gyhoeddus ein Hiachawdwr, a'r "flwyddyn hon hefyd," at y cyfnod rhwng esgyniad Crist a dinystr Jerusalem. Cawsant y tymmor hwn megys "dros ben," estyniad amynedd dwyfol. Cawsant arbediad, a moddion bywhâd ysbrydol, trwy iawn ddefnyddio y rhai y buasent yn osgoi y gosb. Y mae hon yn ddammeg hefyd, neu yn alegori, am bob dyn yn bersonol. Y mae y "tair blynedd" a'r "flwyddyn hon hefyd," o ran egwyddor, ac i fesur mwy neu lai, yn hanes pob dyn. Y mae y ddammeg yn egluro yr addysg oddiwrth yr amgylchiadau blaenorol, trwy ddangos ochr gras. Dengys y barnau yr

anghen am edifeirwch; dengys y ddammeg raslonrwydd Duw yn rhoddi amser i edifarhâu: "daioni a thoster."

SABBOTH, CHWEFROR 3YDD—*(Y rhan gyntaf o'r Wers am* MAWRTH 3YDD *yn y* GWERSLYFRAU YSGRYTHYROL: LLYFR IL., *tu dal.* 31).

Ai ychydig yw y rhai cadwedig? Luc xiii. 23—25.

ADN. 23, 24: *A dywedodd un wrtho, Arglwydd, ai ychydig yw y rhai cadwedig? Ac efe a ddywedodd wrthynt, Ymdrechwch am fyned i mewn trwy y porth cyfyng: canys llawer, meddaf i chwi, a geisiant fyned i mewn, ac nis gallant.* Awgrymwyd y cwestiwn gan ddifrifoldeb ymddyddanion yr Iesu, yr hwn a gynnyddai at ddiwedd ei weinidogaeth. Gwneid argraff ddofn ar y gwrandawyr, gan rai o'r pethau a ddywedasai, o'r anhawsder i fod yn gadwedig. Awgrymai hyny mai *ychydig* fyddai y rhai cadwedig. Ond y mae yn amlwg fod y gofynwr hwn yn edrych ar y mater fel dyfaliad cywrain. Tarddai oddiar chwilfrydedd. Rhagdybiai y fath gwestiwn ogwydd meddwl tuag at bethau oddiallan iddo ef ei hunan; ac yr oedd hyn drachefn yn arwydd o hunan-hyder. Felly y mae ein Harglwydd, fel y byddai yn fynych yn gwneyd, yn rhoddi tro i'r cwestiwn i'r iawn gyfeiriad—yn ateb nid yr hyn a ofynid, ond yr hyn a ddylasai gael ei ofyn: "Ymdrechwch am fyned i mewn trwy y porth cyfyng." Fel pe dywedasai, 'Edrychwch nid at eraill, ond atoch eich hunain. Y pwnc pwysig i chwi yw bod eich hunain yn gadwedig.'

Ond y mae y cwestiwn yn un y *gellir* ei ofyn mewn ysbryd priodol, ac yn un y gellir ei ateb. "Ychydig" yw y rhai cadwedig wedi bod hyd yma, mewn cymhariaeth i holl ddynolryw. Ond nid "ychydig" a fyddant yn y diwedd, ond "llawer:" "Mi a ranaf iddo ran gyda llawer," neu "Efe a gaiff y *llawer* yn rhan"—y mwyafrif mawr; "O lafur ei enaid y gwel ac y diwellir;" "tyrfa fawr yr hon ni all neb ei rhifo." Y mae holl rediad y Bibl, a phob tebygolrwydd, o blaid credu y bydd buddugoliaeth gras ar bechod—buddugoliaeth Mab Duw ar y diafol, yn cynnwys mai Efe a gaiff y doraeth fawr o ddynolryw yn wobr am lafur ei enaid.

ADN. 25: *Gwedi cyfodi gŵr y tŷ, a chau y drws*, &c. Darlun dammegol o ŵr y tŷ yn dysgwyl aelodau y teulu i mewn yn yr hwyr, ac ar awr benodedig yn cau y drws. Y maent wedi colli yr adeg. "Ceisiant fyned i mewn, ond nis gallant."

Hanesion a Darnau Detholedig.

HANES DECHREUAD A CHYNNYDD Y METHODISTIAID YN MHLWYF BEDDGELERT.

GRESYN na fuasai y gwaith o groniclo hanes cychwyniad a chynnydd y Methodistiaid yn mhlwyf Beddgelert wedi cael ei wneuthur er ys degau o flynyddau, a hyny gan law fwy alluog na'r eiddof fi. Buasai hanes manwl a chywir yn ddyddorol ac adeiladol dros ben, gan fod yma bethau mawr a rhyfedd wedi cymeryd lle mewn cysylltiad â'r achos, ac yn dangos fod llaw yr Arglwydd gydag ef. Bum yn holi rhai o'r hen bobl hynaf gyda golwg ar hyn, lawer o flynyddau yn ol; ond pur ychydig o hanes cryno a geid ganddynt. Yr hanes cywiraf am gychwyniad yr achos, mi gredaf, a gafwyd gan yr hen gristion Griffith Prichard, mewn darlith (darlith y galwai ef hi), tuag ugain mlynedd yn ol yn hen gapel Peniel. Yr oedd efe yn awdurdod pur uchel, a gellir ymddiried yn ei gywirdeb, gan ei fod yn cofio yr achos yn ei fabandod; ond nid oedd yn cofio ei enedigaeth. Nis gallaf wneyd yn well na chofnodi yma yr hyn a gofnodais y pryd hwnw wrth wrandaw Griffith Prichard.

Yr oedd yn byw yn Aberglaslyn hen ŵr o glochydd pur gyfoethog, a chanddo fab o'r enw Harri Thomas, yr hwn a anfonwyd ganddo i Leyn i'r ysgol, tuag at iddo fyned yn barson. Pan oedd y bachgen yn yr ysgol, daeth rhywbeth neillduol ar ei feddwl ynghylch crefydd, a phan y daeth adref nid ăi yn barson ar un cyfrif. Yr oedd hyn yn drosedd mawr yn erbyn ei rieni, a bu gartref am yspaid; ond o'r diwedd daeth i'w feddwl am gadw ysgol ddyddiol mewn lle o'r enw Odyn Caeddafydd, gan fod yn Caeddafydd ŵr hynod o garedig yn byw ar y pryd, ac fe fu Harri Thomas yno am ysbaid ac ychydig o blant gydag ef. O'r diwedd dechreuodd eu holi mewn catecism, a rhyw bethau perthynol i grefydd, a chariai y plant bob peth a glywent adref i'w rhieni. Fel hyn aeth yr ysgol yn foddion gras, yn gyfarfod gweddi, a *society*, a daeth pobl mewn oed cyn hir i ddechreu dyfod yno. Cymerodd yr hyn a gofnodwyd uchod le tua'r blynyddau 1778, neu 1780. Yn fuan darfu yr ysgol yn yr hen Odyn; ac ar ol hyny buont yn

ymgasglu at eu gilydd i addoli i le o'r enw Cwtcoch, hen adeilad tô gwellt oedd o'r tu isaf i Caeddafydd, wedi ei gyfodi i ddiddyfnu ebolion; ac yno y buont am ychydig yn cadw rhyw fath o gyfarfodydd, ac yn cynghori eu gilydd. Ni chaent lawer o hamdden yno, canys aml waith y taflwyd yr hen ddôr wïail oedd ar y lle i'r ceunant islaw, ond rhoddid hi yn ol drachefn; ond o'r diwedd taflwyd hi i'r afon pan oedd llif, ac ni welwyd mwy mo honi. Cyn i hyny ddygwydd, cymerodd tro digrif iawn le mewn cysylltiad â'r hen ddôr wïail. Clywsom yr hen bobl yn son lawer gwaith am dano. Ar y pryd hwnw yr oedd hen ŵr boneddig o'r enw Mr. Anwyl, yn byw yn Dolfrïog, a chanddo ddau fab, y rhai oeddynt elyniaethus i'r dyrnaid crefyddwyr; ac un tro daeth un o'r meibion i ymwrando at y Cwtcoch, a rhoddes ei bwysau ar y ddôr, yr hon a ymollyngodd dano nes y syrthiodd i fewn at yr ychydig gyfeillion, pa rai oedd ar y pryd yn canu yr hen bennill,—

"Mae hyn yn beth mawr,
Fe dorodd y wawr;
Mae 'r adar yn canu,
A Satan ar lawr."

Dychrynodd yn aruthr; meddyliodd mai efe a olygai y cyfeillion wrth "Satan ar lawr;" aeth oddi yno ar wîb wyllt, gan dyngu a rhegi. Mae hyn i'w nodi yn y fan yma, ni bu llewyrch byth ar deulu Dolfrïog. Aeth un o'r meibion ymaith ar long rhyfel, ac ni chlywyd air am dano byth mwy. Aeth y llall i ganlyn putain, a daeth adref wedi ei andwyo, a bu farw ar wely o wellŷ. Methodd yr hen ŵr yn ei amgylchiadau, a gwnaed ffair ar ei bethau. Gall mai barn arnynt oedd hyn, am iddynt ddiystyru y crefyddwyr diniwaid. Yn fuan bu diwedd ar gyrchu i'r Cwtcoch: bu gorfod iddynt ymadael oddiyno a myned i Gorlan y Moelydd a lleoedd eraill; ond yn fuan fe agorodd drws iddynt i fyned i Brynyfelin, neu yn fwy cywir lle o'r enw Stamps neu *Stams* yn agos i Brynyfelin, yn yr hwn le yr oedd Harri Thomas, y crybwyllwyd am dano, yn byw ac yn gweithio gwaith crydd.

Pan oeddynt yn arfer myned i'r Cwtcoch, daeth rhyw bregethwr ar daith heibio iddynt, gan roddi rheolau iddynt a'u cynghori i wneyd swyddog, sef rhyw un i'w blaenori. Harri Thomas oedd yn flaenor arnynt pan oedd y moddion yn ei dŷ ef, a diau mai efe oedd y blaenor Methodistaidd cyntaf yn holl ardaloedd Beddgelert. Er eu bod yn dyoddef yn dost oddiwrth erledigaeth y pryd hyn, byddai rhai yn myned yn bell o'r ffordd wrth basio y Stamps, rhag clywed swn yr addoli. Eto dygwyddodd yr hyn oedd braidd yn fwy niweidiol na'r erlid; tramgwyddodd Harri Thomas y blaenor, a bu am yspaid yn nhir gwrthgiliad, fel y buont yn cadw cyfarfodydd yn un pen i'r tŷ ac yntau yn gweithio ei waith yn y pen arall. Ond rhag ei adael ef dan gwmwl, dywedir y daeth drachefn i'w le, a gweithiodd yn ardderchog gyda yr achos hyd ddiwedd ei oes. "Seithwaith y syrth y cyfiawn ac efe a gyfyd drachefn." Tua'r adeg hon, neu yn gynt, bu pregeth yn y Corlwyni, ag y cymerodd amgylchiad hynod iawn le mewn cysylltiad â hi. Ni wyddys pwy oedd y pregethwr; dywed rhai mai Robert Jones, Rhoslan, eraill mai Ebenezer Richard, ac eraill mai J. Roberts, Llangwm, ond y dyb fwyaf cyffredinol yw mai John Evans, New Inn, ydoedd; ond pwy bynag oedd efe, sier yw i ddau ddyn ieuanc anystyriol gymeryd llonaid eu pocedau o bridd y wâdd a myned i'r lloft uwch ben y pregethwr, a gollwng y pridd trwy yr holltau ar y Bibl a phen y pregethwr; ond ni chymerai efe un sylw o hono. O'r diwedd darfu y pridd fel nad oedd ganddynt i'w wneyd bellach ond gwrando, a gafaelodd y gwirionedd yn eu cydwybodau; daethant i lawr o'r lloft bron a *stracio* yn llefain am drugaredd. Richard Thomas, brawd Harri Thomas, oedd un o'r ddau. Troes allan yn ddyn da a defnyddiol, a dewiswyd ef yn flaenor. Tad Catherine Roberts, Tŷ Capel Peniel, oedd y llall.

Symudol iawn oedd yr achos yn ei fabandod yr ugain mlynedd cyntaf. Symudodd yn fuan o'r Stamps, a'r lle nesaf yr ydym yn ei gael ydyw yn Ty'n y Coed, lle ar dir y Meillionen, am fod yno ŵr o'r enw Mr. Hughes, cyfreithiwr, yn byw, yr hwn oedd ŵr caredig iawn; a bu ef ynghyd â'i wraig, Mrs. Hughes, yn swcwr mawr i'r achos. Rhoddasant rai dodrefn o'r Meillionen at wasanaeth yr achos yn Ty'n y coed, ac mae rhai o'r dodrefn hyn i'w gweled eto yn nhŷ Capel Beddgelert; neu o'r hyn lleiaf yr oeddent yno pan oedd Griffith Prichard yn darlithio yn Peniel.

Dygwyddodd tro lled hynod pan oedd yr achos yn Ty'n y coed. Pan oedd y cyfeillion yn dychwelyd o bregeth oddiyno un noswaith, dywedai Richard Thomas wrthynt, "Gwell i ni beidio a myned tros y bont bren heno, rhag ofn fod yno berygl; deuwch gyda mi a chroeswn yr afon yn is i lawr." Yr oedd y bont bren hon uwch ben llyn dwfn iawn, a chraig serth yn ymddyrchafu ar bob tu iddo; a thra buont yn y

bregeth, yr oedd rhyw ddiafliaid o ddynion wedi llifio y bont bren trwodd, er mwyn iddi dori o danynt pan ddychwelent; ond gwaredwyd hwy trwy gynghor R. Thomas. Pa fodd y deallodd am y peth ni ŵyr neb. Dengys hyn fod yr amddiffyn Dwyfol dros yr achos.

Bu y caredigion oedd yn y Meillionen farw, a bu raid symud eto o Ty'n y coed. Buwyd yn cynnal yr achos ac yn pregethu yn Mhenbont fawr, yn mhentref Beddgelert. Yno hefyd bu erlid mawr ar yr achos. Ryw Sabboth yr oedd Mr. Richardson, Caernarfon, yno yn pregethu, a safai ar y grisiau oedd o flaen y tŷ, a'r gynnulleidfa o'i amgylch. Ar yr ochr arall i'r afon saif y Tŷ isaf, tafarndŷ y pryd hwnw, ac yr oedd y tafarnwr yn flin iawn o'r pregethu. Rhoddodd ddiod i'r gwas am fyned i làn yr afon, a lluchio y pregethwr a'r gynnulleidfa â cheryg; ond er ei fod yn nghanol cyflawnder o honynt ar làn yr afon, methodd a tharo neb o gwbl. Gwylltiodd am hyn, ac aeth i chwilio am bigfforch, gan fygwth ei rhoddi yn nghorff y pregethwr, a chychwynodd yn gawr i gyflawni ei fwriad; ond nid allai fyned ymhellach na chanol y bont. Ymollyngai ei aelodau, a dychwelai i'r tŷ am ragor o ddiod, i roddi ynddo fwy o nerth. Cychwynodd drachefn, ond un gronyn yn fwy llwyddiannus; äi yn fwy diffrwyth y naill dro ar ol y llall, fel y bu raid iddo ildio er ei wnaethaf.

Yn fuan ar ol hyn adeiladwyd y capel cyntaf yn y plwyf, yn mhentref Beddgelert, yn y flwyddyn 1794, ac fel hyn yr agorodd Rhagluniaeth y drws i gael tir i adeiladu y capel hwnw. Yr oedd etholiad seneddol yn cymeryd lle yn Môn, ac yr oedd gan William Williams, Hafodyrhisgl,* bleidlais yno, a daeth y boneddwr oedd yn ymgeisio am le yn y Senedd ato i ofyn am ei *vote*, gan addaw wrth ofyn os byddai dim ar ei law ef i'w wneyd iddo, y byddai yn dda ganddo ei wneyd. Saeth-weddiai W. Williams tua'r nef, fel Nehemiäh gynt o flaen y brenin, a daeth i'w feddwl am ofyn am le i adeiladu capel i'r Methodistiaid yn Beddgelert, yr hyn a gafodd gyda y rhwyddineb mwyaf. Ond er cael capel a'r achos yn cynnyddu yn raddol, a'r rhai oedd yn proffesu crefydd yn rhai ffyddlon a duwiol iawn, eto yr oedd annuwioldeb ac anystyriaeth y trigolion yn ddychrynllyd; ond cyfododd yr Arglwydd un gŵr anarferol yn ei oes, sef Robert Roberts, Clogwyn, Nantmor. Torodd hwn asgwrn cefn annuwioldeb yn ei ffurfiau gwaethaf, nad asiodd byth. Yr oedd efe yn meddu y fath ddylanwad anarferol, nes y byddai y rhai mwyaf anystyriol yn crynu gan ei ofn, ac yn ffoi o'i wydd. Ond fe äi ei hanes ef yn rhy faith i'w roddi i mewn yma, er mor ddyddorol fyddai hyny. Bu farw tua'r fl. 1814, yn 45 mlwydd oed.

Bellach, ceisiwn fwrw golwg dros hanes yr achos yn y gwahanol ardaloedd. Colled fawr i ni erbyn hyn ydyw fod yr hanes a roddir yn *Methodistiaeth Cymru*, gan Mr. Hughes, Liverpool, mor hynod o fyr. Yr oedd yr un neu y rhai oedd yn ysgrifenu yr hanes y pryd hwnw mewn llawer gwell mantais na ni erbyn hyn. Cymerwn un addysg i ni ein hunain oddiwrth un diffyg mawr sydd yn yr hanes y cyfeiriwyd ato yn awr, trwy roddi y manylion a'r dyddiad mor gywir ag y gallom o'r gwahanol amgylchiadau a gofnodwn.

Dechreuwn gyda Nantmor, gan mai yno, mae yn debyg iawn, y pregethwyd y bregeth gyntaf gan y Methodistiaid yn mhlwyf Beddgelert, a hyny yn y flwyddyn 1774, yn ol *Methodistiaeth Cymru*. Dyma yr hanes fel ei hadroddir yn y llyfr a enwyd. Os oedd pregethu o gwbl wedi bod yn Beddgelert, mae braidd yn sier nad oedd yno bregethu cyson yn y flwyddyn 1771, sef y flwyddyn y mae genym gyhoeddiad Dafydd Morris trwy wlad Arfon a Lleyn. Yr oedd ef, mae yn debyg, yn ymweled â phob lle yr oedd pregethu cyson neu sefydlog ynddo, yn ei hynt trwy y wlad; ond nid oes son am Beddgelert. Pa fodd bynag, nid hir ar ol hyny y bu yr ardal heb bregethu ynddi. "Mae ysgrif o fy mlaen," medd yr ysgrifenydd, "yn rhoddi desgrifiad o'r odfa gyntaf gan Fethodistiaid yn yr ardal hon." Yr oedd Robert Dafydd wedi symud i Frynengan (yr oedd efe wedi ei fagu yn Cwmbychan, Nantmor), ac wedi dechreu pregethu yno. Daeth ar ei feddwl ymweled â'r hen gymydogion yn ardal Beddgelert, a phregethu iddynt Air y bywyd. Penodwyd ar y Sabboth, a rhoddwyd y gair allan y byddai pregeth yno. Pa un ai gelynion mewn dichell, ai cyfeillion yn eu diniweidrwydd, a benododd y lle i gadw yr odfa, nid yw hysbys: y lle, pa fodd bynag, oedd *Tŷ rhisgl*—adeilad wedi ei wneyd o goed gyda thô gwellt, mae yn bur debyg, i gadw rhisgl derw am dymmor ar làn

* "Yn y Ffridd yr oedd William Williams yn byw yn 1794. Aeth i fyw i Hafod y Rhisgl yn 1804. Bu fy mam ar ymweliad â'r Ffridd, pan nad oedd Owen Williams wedi ei eni. Ganwyd ef yn Hafod y Rhisgl yn 1805." Mae y nodiad uchod wedi ei wneyd gan Rice Williams, mab William G. Williams, Hafod y llan, gan yr hwn y bu yr ysgrif yn fenthyg. Gall mai efe sydd gywir, nad oedd William Williams yn Hafod y Rhisgl yn byw pan gafodd dir i adeiladu y capel.

afon Nantmor, ar dir y Corlwyni, yn is i lawr nag y mae y Tŷ rhisgl presennol. Cyn i'r amser ddyfod yr oedd rhyw rai drwg eu bwriad wedi crogi darnau o goed yn uchel uwch ben yn y Tŷ rhisgl, gyda yr amcan o'u taflu ar y gynnulleidfa yn amser yr odfa. Erbyn i'r amser penodedig ddyfod i ben, lluddiwyd Robert Dafydd gan ryw amgylchiadau, a Robert Jones, Rhoslan, a ddaeth yn ei le. Daeth cynnullefdfa fawr ynghyd, llawer o honynt gyda'r bwriad o aflonyddu a baeddu y pregethwr. Ond rywbryd ar yr odfa, a chyn dechreu yr ymosodiad, gwnaeth daranau arswydus, nes oedd y lle yn siglo. Disgynodd braw aruthrol ar y bobl, ac yn fwy o lawer ar y rhai oedd yn eu bryd wneuthur aflonyddwch; yn enwedig gan nad oedd un arwydd o fellt a tharanau yn y tywydd ar y pryd. Cafodd y pregethwr ddwy fantais oddiwrth yr amgylchiad, sef llonyddwch a seibiant oddiwrth ymosodiad yr erlidwyr, ac achlysur neilduol i osod min ar ei weinidogaeth, ac i ddeffro ystyriaeth ei wrandawyr. Pregethwyd a chadwyd llawer o foddion yn y Corlwyni, ond y prif le cyn adeiladu y capel yd-oedd y Tylyni. Gwnaed yno bulpud coed gyferbyn â'r ffenestr. Yr ydoedd yno dŷ helaeth mewn man cyfleus, a theulu caredig iawn tuag at yr achos, sef Richard Griffith a'i wraig brofiadol a chrefyddol Hannah Evans. Mab y Carneddi ydoedd R. Griffith, a brawd Howel Griffith y bardd. Yma hefyd y cedwid Ysgol Sabbothol flodeuog ryfeddol, y clywsom yr hen bobl yn son am dani lawer gwaith; er iddi gychwyn o dan amgychiadau hynod o anfanteisiol, yn nhŷ Ann Dafydd, Bwlchgwernog—hen dŷ bychan isel gyda llawr pridd; ac yn y nos y dechreuwyd ei chynnal, a'r modd y ceid goleuni ydoedd trwy roddi cawell marchnata, â'i wyneb yn isaf, gan ei guro i'r llawr pridd. Yna gwthient resi o ganwyllau brwyn chwng ei wïail, a gosodent un swyddog ar y tro i ofalu am danynt, tra yr eisteddai y lleill yn gylch o'i amgylch ef, i ddarllen a dysgu y gair Dwyfol. Ond buan yr aeth tŷ yr hen chwaer dduwiol Ann Dafydd yn rhy fychan,

Adeiladu capel PENIEL. Adeiladwyd y capel hwn gyntaf yn y flwyddyn 1829; dechreuwyd ei adeiladu ar yr 8fed o Mehefin y flwyddyn hono, ar dir boneddwr o'r enw Mr. Wilson Jones, yr hwn oedd yn berchenog ystâd Talfrïog ar y pryd, ar *lease* o 21 mlynedd, ac oes y boneddwr, yr hon a derfynodd ymhen tua 38 o flynyddau. Aeth yr ystâd i'r *chancery*, a bu y cyfeillion yn talu £5 o rent am flwyddyn neu ddwy. Gallai y byddai yn ddyddorol gan ryw rai gael cipdrem ar y gôst a aeth i adeiladu y capel hwn. Cafwyd ef gan un o gyfeillion Nantmor, wedi ei godi o hen lyfr y cedwid y cyfrifon. Cyfanswm y gôst oedd £163, a dyma enwau y rhai a roddent eu harian ar log ynghyd a'r llog a delid:—

	Hawl. £	Llog. £ s. d.
John Griffith, Ferlas ..	40	1 12 0
Owen Cadwaladr	28	1 2 6
John Prichard, Corlwyni	25	1 0 0
Owen Owens, Llyndu ..	20	0 16 0
Robert Morris, Perthi ..	20	0 16 0
William Jones, Buarthau	13	0 10 5
Jane Prichard, Clogwyn..	10	0 8 0
Richard Williams, Cwmbychan	7	0 5 7
	£163	6 10 6

Ychwanegwyd llawer at y swm uchod trwy fod eisieu tŷ capel, ystabl, gardd, a chloddiau, fel yr aeth y swm o gwbl at yr holl waith yn £250.

Ofnwn ymdroi gormod, ond rhaid i ni cyn gadael yr ardal hon gofnodi eto fod y capel hwn wedi ei ail adeiladu yn y flwyddyn 1868, gyda chôst fawr iawn. I ddechreu, prynwyd y tir lle y mae y capel yn sefyll arno am £200; a chost adeiladu y capel a'r ddau dŷ dros £1200 —y cwbl felly dros £1400; a sefydlwyd cymdeithas arianol, sef cymdeithas i roddi benthyg arian ar y capel yn ddilog, fel na thalwyd llog o gwbl ond dros £150 am flwyddyn neu ddwy, fel erbyn y flwyddyn 1881 nad oedd yn aros o'r ddyled ond prin £400. Cewch eto enwau y rhai fu yn flaenoriaid yn Peniel, a dim ond eu henwau, er y buasai yn ddymunol iawn genym gofnodi rhai o'u hynodion:—John Prichard, y Corlwyni; Richard William, Cwm bychan; Richard Jones, Tŷ mawr; William Roberts, Clogwyn; Owen Cadwaladr, Gelli yr ŷn; John Hughes, Oerddwfr; a William Williams, Tŷ mawr.

Symudwn bellach i gymydogaeth BETHANIA. Dywedai un o hen drigolion yr ardal mai yn nghorlan y Wenallt y pregethwyd y bregeth gyntaf yma, gan un o'r enw John Thomas, Llanberis, yn y flwyddyn 1810; ond y mae yn ammheus iawn genym os J. Thomas a bregethodd yno gyntaf,—ei fod wedi pregethu lawer o flynyddau cyn hyn, a diammheu genyf fod llawer o bregethu wedi bod yn Hafod llan, a Hafod y rhisgl, cyn y flwyddyn 1810, gan fod W. Williams, Hafod y rhisgl, yn ddyn gweithgar gyda chrefydd, ac yn flaenor, ac iddo fod yn brif offeryn i gael lle i adeiladu Capel y Pentref yn y flwyddyn 1794. Diammheu fod yno bregethwyr lawer

wedi bod yn Nantgwynant cyn y fl. 1810. Ymddengys y byddai pregethu a chynnal moddion cyn adeiladu Capel Bethania yn Hafod y llan a Hafod y rhisgl, er mai Hafod y llan oedd y prif le, am ei fod yn fwy canolog; ond dywed y Parch. J. Owen, Gwyndŷ, yn Nghofiant Mr. Owen Williams, Hafod y rhisgl, y byddid arferol o gadw seiadau yno yn ogystal a Hafod y llan.

Adeiladu Capel Bethania. Cafwyd capel yn Nantgwynant gryn lawer yn gynt nag yn Nantmor, sef yn y flwyddyn 1825. Cafwyd tir ar *lease* o 60 mlynedd wedi ei dyddio Rhag. 5, 1825, gan Syr Thomas Mostyn, Barwnig. Dyma enwau y *trustees* sydd wrth y *lease*:—Thomas Mostyn, Bart.; John Jones, Glangwynant; Rice Williams, Hafod y llan; John Jones, Tremadoc; David Jones, Penybont (Waterloo wed'yn); William Roberts, Clynnog, wedi rhoddi eu henwau wrthi yn mhresennoldeb Robert Prichard, Goat Inn, Beddgelert, a Robert Jones, Berthddu.

Y *contractor* a adeiladodd y capel oedd tad y Parch. Thomas Hughes (Machynlleth gynt). Ni chawsom amcan o'r gôst, ond clywsom fod yno ffyddlondeb mawr gan y trigolion, mewn cario y defnyddiau gan y ffermwyr a chodi ceryg ato gan y gweithwyr, a rhai gweision ffermwyr, fel y gallwn fod yn bur siwr nad oedd y gôst yn fawr ar yr adeg isel hono. Ail-adeiladwyd y capel hwn yn y flwyddyn 1867. Cafwyd capel pur dda o ran cadarn a buddiol, am swm pur fychan, heb fod yn fwy na £433 17s. 6c. Dyma y manylion:—

	£	s.	c.
1. Y cymeriad cyntaf	340	0	0
2. Symud y *front*.....	40	0	0
3. Slantio y cefn	5	0	0
4. Adgyweirio Tŷ Capel....	6	10	0
5. Y ffenestr	1	10	0
6. Y ffordd a'r *railings*	18	0	0
7. Y pulpud	15	0	0
Gwahaniaeth pris y ceryg	2	7	6
Cementio y *front*.....	4	10	0
Cupboard	1	0	0
Cyfanswm £433	17	6	

Talwyd y rhai hyn oll mewn wyth mlynedd; felly casglodd cyfeillion Bethania ar gyfartaledd yn agos i £60 yn y flwyddyn. Y mae £60 yn y flwyddyn yn swm mawr iawn mewn cymydogaeth fel hon.

Dymunem ddyweyd gair eto am yr Ysgol Sabbothol. Cyndyn neilldiol a fu y cyfeillion i gychwyn yr ysgol yn yr ardal hon. Fel yn Nantmor, yr oedd amryw ddynion da yno, yn ofni nad oedd casglu at eu gilydd i ddysgu darllen yn deilwng o'r Sabboth; ond wrth weled R. Roberts, y Clogwyn, yn myned iddi, daethant i benderfynu ei theilyngdod. Felly yn nghymydogaeth Bethania, yr oedd y prif ddynion yn wrthwynebol i'w chynnal, a dywedir—yn wir o ran hyny clywsom y Parch. H. Hughes, Gellidara, yn dyweyd mai brawd o'i gymydogaeth ef a fyddai arferol o ddyfod i Nantgwynant yn bladurwr, a fu yn foddion i gychwyn yr Ysgol Sabbothol gyntaf yn yr ardal, a hyny dybygem mewn beudy ar dir Hafod y llan, flynyddau lawer cyn adeiladu y capel; canys bu yr ysgol yn cael ei chynnal mewn amryw leoedd. Yr ydym yn tybied i ni glywed William Roberts, y Clogwyn, yn dyweyd mai y beudy y cynnaliwyd hi fwyaf ar dir Hafod y llan oedd beudy Ty'ngorsen. Bu hefyd yn cael ei chynnal mewn lle yn perthyn i'r diweddar Mr. Daniel Vawdrey, Hafod tanygraig, yr hwn le a elwir yr Ysgoldy hyd heddyw. Saif ar ochr y ffordd yn agos i'r rhan isaf o lyn Gwynant. Ar ol adeiladu y capel symudodd yno, a bu am tua 12 mlynedd yn un ysgol gref; ond yn mhen y tymmor a nodwyd, ymledodd dwy gainc o honi. Estynodd un gainc tua'r flwyddyn 1838 ei brigau i fyny i ardal Blaennantmor, a gwreiddiodd mewn ffermdŷ o'r enw Celliago, a bu yn blodeuo a ffrwytho yno am tuag ugain mlynedd neu ychydig fwy. Yn y flwyddyn 1862 adeiladwyd Ysgoldy Blaennantmor ar dir y Parch. D. Vawdrey, ar *lease* o 40 mlynedd. Ail-adeiladwyd hwn drachefn er ys wyth neu naw mlynedd yn ol. Mae yr ysgol yn rhifo tua 40. Mae yno bregethu er ys llawer o flynyddau yn amlach na phob yn ail Sabboth, ynghyd a moddion eraill yn fynych—*society* weithiau. Ymestynodd y gainc arall ei breichiau tua blaen Nantgwynant, a chafodd le cynhes i roddi pwys ei dwylaw, yn Hafodyrhisgl, a bu yno yn amser Owen Williams, ac ar ol hyny, yn gwneyd llawer o waith i Iesu Grist. Bu yno fwy na 30 mlynedd, ond daeth amgylchiadau a ddiboblogodd Blaenynant i fesur helaeth, a bu raid i'r gweddill ddychwelyd i Bethania. Mae rhif yr ysgol yno yn awr tua 110.

Cyn symud ymhellach enwn y rhai fu yn flaenoriaid yno, sef Bethania:—Rhys Williams, Hafod y llan; William Williams, Hafod y rhisgl; Griffith Jones, Hafodydd brithion; Owen Williams, Hafod y rhisgl; William Griffith, Hafod y llan; Pierce Roberts, Llyndu isaf; Robert Williams, Belenwen, ynghyd a saith o rai eraill a fu yno am dymmor, ond a symudasant i leoedd eraill, ag sydd yn awr yn fyw ond dau o honynt, sef John

Jones, Bwlchgwernog, a John Hughes, Oerddwfr. Codwyd y ddau hyn yn Bethania.

Symudwn yn ol eto i BEDDGELERT. Yr ydym yn barod wedi dilyn yr achos o'i gychwyniad cyntaf hyd adeiladiad y capel cyntaf yn 1794. Nis gwyddom yn y byd faint aeth o gôst i adeiladu y capel hwn, ac nid ydym yn meddwl y gŵyr neb arall o drigolion y byd hwn; ond clywsom mai adeilad bychan diaddurn ydoedd gyda (yr ydym yn meddwl) llawr pridd a llofft ar ran o hono neu drosto. Nid ydym ychwaith yn gwybod pa bryd yr ail-adeiladwyd ef, ond tybiwn fod hyny wedi cymeryd lle cyn y flwyddyn 1817—blwyddyn y dechreuodd y "Diwygiad mawr," neu ni buasai yn abl i gynnwys y tyrfäoedd a ymgynnullent iddo y pryd hwnw. Ond pa fodd bynag am hyny, bu adgyweiriad mawr arno yn y flwyddyn 1826, yr hyn a achosodd ddyled drom, yr hon ni hollol ddilëwyd am 27 mlynedd, sef hyd ddiwedd y flwyddyn 1853, pryd y gwnaeth y cyfeillion ymdrech anarferol i dalu y £40 diweddaf. Cawn un o'r cyfeillion ar du dalenau TRYSORFA Ebrill, 1854, yn darlunio yr ymdrech a'r ffyddlondeb tuag at lwyr ddileu y ddyled, a'u teimladau hyfryd wedi cael hyny i ben. "Bellach," meddai, "y mae trigolion Beddgelert, mewn teimlad hynod o gysurus, yn cael addoli yn nhŷ eu Harglwydd heb ddimai o ddyled arno." Ond ymddengys na ddarfu iddynt foddloni i aros yn hir yn y teimlad dedwydd yna, oblegid cawn hwy, ymhen tua phum' mlynedd, sef tua diwedd y flwyddyn 1858, mewn teimladau hynod gysurus yn yr eithafion gwrthgyferbyniol, wedi rhedeg i ddyled drom o dros £1100, trwy adeiladu capel newydd hardd, fel y dywedodd y diweddar Barch. Thomas John wrth un o'r brodyr pan yno yn pregethu, "Mae genych gapel newydd hardd iawn yma; hwyrach y gallai un hala bai arno, ond yr wyf fi yn sicrhau nad oes yr un i'w gael." Heblaw adeiladu capel da, adeiladwyd hefyd dri o dai ac ystabl; a bu y ddyled hon yn aros heb ei llwyr ddileu hyd haf y flwyddyn 1881. Yn niwedd mis Hydref, 1881, cadwyd jiwbili o ollyngdod oddiwrth y ddyled ddiweddaf hon, a phregethwyd ar yr achlysur gan y Parchedigion W. Elias Williams, Pentir; Hugh Jones, Liverpool, a J. Thomas, Carno. Yr ydym yn gweled oddiwrth hyn fod yma ffyddlondeb ac ymdrech di-ildio, gan y talwyd o'r ddyled ar gyfartaledd £50 bob blwyddyn am y 22 mlynedd diweddaf; ac nid swm bychan yw hwn mewn ardal lle "nid llawer o rai goludog a alwyd;" ond y mae yn ffrwyth cariad at yr Arglwydd Iesu a'i achos. Bydded i'r Arglwydd brysuro yr amser y byddo y capel presennol wedi myned yn llawer rhy gyfyng.

Gadewch i ni eto, cyn symud ymhellach, roddi cymaint ag a allom o enwau yr hen flaenoriaid. Yn gyntaf oll, R. Roberts, Clogwyn. Bu Rhys Williams, Hafod y llan, a William Williams, Hafod y rhisgl, y rhan gyntaf o'u gyrfa swyddogol; Richard Roberts, Cae'rgors; John Jones, Glangwynant; Griffith Prichard, Colwyn Cottage; a Robert Jones, *painter*, Siop y gongl.

Gyda golwg ar yr Ysgol Sabbothol, nid oes genym ddim neilltuol i'w ddyweyd, heblaw ei bod wedi tyfu yn bren mawr ag sydd yn dwyn mawr ffrwyth yn nheyrnas yr Arglwydd Iesu. Nid ydym yn gwybod y bu un gangen o honi yn cael ei chynnal yn un man heblaw yn y capel.

RHYD-DDU fydd y lle nesaf a'r diweddaf. Ychydig yw ein gwybodaeth o hanes yr achos yn y lle hwn; o ganlyniad byr fydd ein sylwadau. Pan y daeth Anne Evans, Bron y fedw, i'r *society* yn llofft hen gapel Beddgelert, yn 1811, ymddengys nad oedd moddion crefyddol yn un lle yn ngymydogaeth y Rhyd-ddu; gan y byddai hi yn myned i'r Waenfawr i'r *society* am ryw gymaint o amser, hyd nes y dechreuwyd cadw moddion yn ei thŷ hi yn Bron y fedw. Yno y dechreuwyd yr achos yn y gymydogaeth hon. Yr oedd y wraig dda hon wedi tori twll yn y llofft i ben y pregethwr, er mwyn, meddai yr hybarch Thomas Williams, i'w ben fod yn nês i'r nefoedd. Bu yr achos yno tua deg neu ddeuddeng mlynedd; felly rhaid nad adeiladwyd y capel hyd tua'r flwyddyn 1825. Beth oedd ei faint, a pha bryd yr adeiladwyd ef, nid ydym wedi cael hysbysrwydd. Mae yno erbyn hyn gapel gweddol dda, heb ddim dyled arno er ys amryw flynyddau, a rhif yr eglwys yn y flwyddyn 1880 yn 86.

Bellach terfynwn hyn o grynodeb anmherffaith gydag ychydig sylwadau cyffredinol. Dywedir yn Nghofiant John Jones, Glangwynant, a dywed y Parch. R. Ellis yr un peth yn ei "Adgofion" am ddiwygiad Beddgelert, mai tua 40 oedd rhif yr eglwys yn y lle yn y flwyddyn 1817, ac fod eu rhif wedi bod felly am tua'r 20 mlynedd blaenorol; ond chwanegwyd ati y pryd hwnw tua 200. Felly rhaid ei bod ar yr adeg hono yn un o'r eglwysi cryfaf yn y sîr, ac eithrio y trefydd. Yr oeddwn wedi bwriadu cofnodi llawer o bethau a ddywedir gan y diweddar (ddylaswn i ddyweyd) Barch. R. Ellis yn ei "Adgofion" rhagorol am y diwyg-

iad; ond ymattaliaf gyda dyweyd, pwy bynag a ddarlleno yr "Adgofion" hyn yn Nhrysorfa Hydref a Tachwedd, 1878, a gaiff dâl da am wneyd. Mae yr achos Methodistaidd wedi cynnyddu ac ymledu yn barhaus er ei gychwyniad cyntaf, tua 100 mlynedd yn ol, ond y mae y cynnydd wedi bod yn fwy cyflym ar rai adegau na'u gilydd. Ymddengys mai un diffyg mawr, a'r hyn fu yn attalfa ar gynnydd yr achos, hyd tua'r blynyddau 1835 neu 1836, oedd diffyg magu a meithrin y plant yn yr eglwysi. Ychydig iawn a delid o sylw i'r plant heblaw eu ceryddu yn ddiarbed, yr hyn fu yn achos yn ddiau i lawer wrthgilio. Y fath wahaniaeth sydd wedi cymeryd lle mewn llai na chan' mlynedd. Yn lle pedair o ferched yn addoli mewn hen gwt coch tô gwellt, mae yn y plwyf bedwar o gapelydd hardd, ac un ysgoldŷ da, i'r trigolion addoli ynddynt, a'r rhai hyny wedi costio, o'r dechreuad, ddim llai yn ddiau nag o wyth i ddeng mil o bunnau. Rhif yr aelodau, heb y plant, yn y flwyddyn 1880, oedd 498, a'r cynnulleidfaoedd yn rhifo rhai cannoedd yn ychwaneg. Dylem ddyweyd yn ddiau wrth derfynu ein bod wedi gadael llawer o bethau y dylasem eu cofnodi, ac wedi cofnodi rhai pethau anmherthynasol, ac yn ddigon tebyg heb fod yn hollol gywir; a chyda mwy o lafur a gofal, gallasem yn ddiammheu wneyd mwy o chwareu teg â'r testun.

Un sy'n caru yr Achos.

Y DRYCHFEDDWL AM DDUW.

Os dychymyg dynol a ddyfeisiodd y Duw hwn, pa le y mae y gwaith nesaf, i'w gystadlu âg ef, ag y mae y dychymyg dynol hwnw wedi ei gynnyrchu? Os gwaith dychymyg dynol yw y drychfeddwl hwn, yna y mae y dychymyg dynol wedi bod yn adfeilio byth ar ol hyny. Dechreuodd gyda breuddwyd gogoneddus; y mae wedi dybenu mewn hunllef a gwallgofrwydd. Dywedwch i mi nad oes gan yr arch-adeiladydd a adeiladodd Eglwys Sant Petr yn Rhufain, ddim arall i'w ddangos ond rhes o gytiau cŵn i brofi mai efe a adeiladodd nendwr cwmpasog a muriau mawreddog yr eglwys fawr hono; a allwn I ei gredu? Buaswn yn ei ammheu. Felly, pan y dywedwch wrthyf mai dychymyg dynol yw y Duw hwn, yr ydwyf yn gofyn am y rhif ail, a thrydydd a phedwerydd, gael i mi gyferbynu yr arlunydd âg ef ei hunan, a gofyn i'r breuddwydiwr am ddylyniad o'i freuddwydion, gael i mi wybod pa mor bell y gall efe gyfiawnhau ei hunan trwy liosogrwydd ac amrywiaeth ei waith.—*Dr. Parker.*

Barddoniaeth.

SERCH-GOFFA.

(Sef llinellau coffadwriaethol am y diweddar Mr. John Jones, Bryn Goronwy, ger Machynlleth, yr hwn a fu farw Ebrill 2il, 1889, yn 72 mlwydd oed. Wedi gwasanaethu swydd Blaenor yn Llanwrin, am 40 mlynedd).

Awen addien, cais eneiniad
Cyn it' ddechreu canu cân,
Rhag i'th odlau droi 'n ddiraddiad
Ar y fath gymeriad glân;
Cwyd dy olwg ar rinweddau
A feithrinodd yn ei fyw:
Yn un llaw rhoi ymddygiadau,
Yn y llall rhoi plentyn Duw.

Yna gwel y cyfatebiad,
Onid ydyw 'r ffrwyth yn dweyd
Am naturiaeth lle ei darddiad,
Neu y gwaith am 'r hwn sy 'n gwneyd?
Iê gwneuthur, nid llefaru—
Dyna sydd yn profi dyn,
A hynyna oedd 'n nodweddu
Gwrthddrych y llinellau hyn.

Fe geid ynddo wir gyfuniad
O'r dyn gonest, cywir, call;
Diymhongar ei ymddygiad,
Dewr i dd'weyd wrth bawb ei wall;
Y cynghorwr, nid ymyrwr
Y gallesid gwneyd o'i ol—
Heb achosi unrhyw ddwndwr,
Na dygwyddiad cas a ffol.

Gyda dirwest bu yn ffyddlon
O'i dechreuad yn ein gwlad;
Ac annogai bawb o galon,
I'w chofleidio er llesâd:
Pob symudiad o wasanaeth—
Gwelai 'n fuan iawn ei werth,
Yna byddai ei gefnogaeth
Yn chwanegu at ei nerth.

Pwy yn well a brynodd amser
Byr ei fywyd ar ei hyd?
Pwy 'n fwy diwyd mewn ymarfer
Dyledswyddau y ddau fyd?
"Gwaith" oedd arwydd-air ei fywyd,
Byw i amcan oedd ei nôd;
Gwnai ei oreu er cyrhaeddyd—
Ffafr ei Dduw, nid dyn a'i glod.

O mor ddiwyd y llafuriodd
Am wybodaeth trwy ei oes!
Felly yntau a gyrhaeddodd
Raddau da mewn dysg a moes;
Ond ei benaf faes efrydiaeth—
Oedd trysorfa Gair yr Iôr,
Meddai brofion y Dystiolaeth
At ei alwad yn ystôr.

Hyn a'i gwnaeth yn iach dduwinydd,
Craff a chadarn yn y ffydd;
Dyrys bethau pynciau crefydd
Sarnai drostynt oleu dydd,
Treiddiai 'n wastad trwy 'r llythyren
At yr egwyddorion byw;

Nofiai 'wyllys yn ei helfen
Yn nghyfreithiau sanctaidd Duw.

O'i ieuenctyd ymgysegrodd
Yn ngwasanaeth Brenin ne',
Yn y rhyfel ni ddiffygiodd,
Cadwai 'n wrol iawn ei le;
Bu fel Moses gynt yn ffyddlon
Yn y tŷ ar hyd ei oes,
Yno ymgartrefai 'n gyson
Dan gysgodion Gwaed y Groes.

Pan o dan y weinidogaeth,
Hawdd darllenid yn ei wedd—
Fod ei enaid yn ehelaeth
Yfed gwinoedd Gwynfa Hedd;
Ein hysbysu wnai y deigryn,
Dreiglai dros ei rudd i lawr—
Fod rhyw gariad bron diderfyn
Ynddo at y Ceidwad Mawr.

Yn y cyfarfod gweddi eto,
Cawn ef ger yr orsedd fawr,
Mewn taerineb yn ymbilio—
Am fendithion nef i lawr;
Effaith y gymdeithas gyson
Yn y dirgel gyda 'i Dad,
Lanwai 'n teimlad i'r ymylon
Ag ysbrydol wir fwynhad.

Hefyd yn y cwrdd eglwysig,
Hir y coñr am ei ddawn,
Yn cynghori y rhai ysig
I ymorphwys ar yr Iawn!
Tra 'n dynoethi truenusrwydd
Cyflwr tost pechadur gwael,
Fe ddatganai wir addasrwydd
Trefn yr Iawn i faddeu 'n hael.

Mewn difrifwch byddai 'n annog
I *fyw* crefydd ar bob pryd,
I ochelyd rhag lluosog
Demtasiynau teg y byd;
Ac ymdrechu, gan mai treiswyr
Ydyw deiliaid teyrnas gras,
Am gael buddugoliaeth drylwyr
Ar ddwfn lygredd calon gas.

Pan y byddai raid dysgyblu,
Gwnai yn ysbryd plentyn Duw;
Egwyddorion teyrnas Iesu
Fyddai 'n wastad wrth y llyw;
Er cyhoeddi Anathema
Maranatha uwch y bai,
Byddai 'i gariad hyd yr eitha'
At bechadur yn parhau.

Ffyddlon, diwyd, a llafurus
Gyda 'r Ysgol Sul y bu;
Cafodd ynddo athraw medrus,
Ac arweinydd cymhwys cu;
Fel arholwr, ac addysgwr—
Meddai ddoniau gwych a rhwydd;
Fel deheuig wasanaethwr
Y cyflawnai bob rhyw swydd.

Syniad uwch am Grist a chrefydd
Roes trwy 'i fywyd pur i'r byd,
Yn ei gwmni teimlem beunydd
Mai y rhai 'n ennill'sai 'i fryd;
Yn y fro ceid ei ddylanwad—
Yn attalfa ar ddrwg foes,
Annuwiolion, gyda theimlad,
Gofiant aml gynghor roes.

Ond rhyw wagder sy 'n teyrnasu
Heddyw lle y bu efe;
Adwy welir yn y teulu,
Bwlch yn rhengau Brenin ne';
Eglwys gyfan geir yn gruddfan,
Ac yn ochain am ei thad;
Gyda dagrau dwys hiraethlân
Yr eneinia ei goffâd.

Yn ein hiraeth peidiwn wylo,
Derbyn gwobr dda ei waith—
Y mae Ioan, ar ol blino
Ar y byd a'i ddyrys daith;
Mwyach bydd am dragwyddoldeb
Uwchlaw cystudd, cur, a phoen,
Yn mwynhau didrai gymundeb
Yn y nefoedd gyda 'r Oen.

W.

Hyfdref, 1889.

MELUS YW'R AWR.

Melus yw 'r awr! pan mae 'r nefoedd yn sibrwd—
Sibrwd "*tangnefedd*" wrth enaid *ar lawr*,
Duw yn yr Iawn yn maddeu fy mhechod,
A golchi fy enaid, O! melus yw 'r awr.

Melus yw 'r awr! pan ar d'w'llwch fy enaid
Yn nghanol y caddug—tori mae 'r wawr!
Minnau yn gweled y Gwŷn anweledig
Yn Mherson fy Ngheidwad, O! melus yw 'r awr.

Melus yw 'r awr! pan mae Gobaith fel gwenyn
Yn hedeg fry, fry uwch gofid y llawr,
I sugno mêl bywyd o flodau paradwys
I enaid newynog, O! melus yw 'r awr.
Melus, melus yw 'r awr.

John G. Hughes
Clynnog. *(Ioan Moelwyn).*

ESGYNIAD CRIST.

"Yr hwn a ddisgynodd yw yr hwn hefyd a esgynodd goruwch yr holl nefoedd."

Pan oedd yr Iesu 'n suddo i lawr
Fel Haul tu hwnt i'r gorwel,
Fe grynai 'r greadigaeth fawr
A synai dyn ac angel;
Ei hen ddysgyblion roisant oll
Ochenaid uwch y dyfnder,
Lle 'r aeth eu Hathraw mawr ar goll,
Yn îs na phob iselder.

Crochfloeddiodd Uffern oll ynghyd
Pan aeth y Duw-ddyn Iesu,
Yr hwn fu 'n hòni "prynu 'r byd"
Yn îs nag uffern obry;
Ni wyddent hwy mai disgyn wnaeth
Er dwyn i fyd ymwared,
Y trydydd dydd o'r dyfnder daeth,
"Gan gludo 'n gaeth gaethiwed."

Mewn agwedd gwas ac isel wedd
Y darfu 'r Iesu ddisgyn,
I mewn trwy dywyll byrth y bedd,
Ond daeth yn ol yn frenin;
Mae 'n myned adref Salem dref
O ewch o'i flaen â salmau;
Ond ow! mae 'r waedd "Croeshoelir ef"
Heb ddarfod yn eu clustiau.

Ac anghrediniaeth oedd uwch ben
Breninol ddinas Dafydd,
Fel gorddu niwl yn cuddio 'r nen
A mynydd yr Olewydd;
Pan y cynnaliai Iesu mawr
Gyfarfod ymadawol,
Gyd a'i ddysgyblion ar y llawr
Cyn myn'd i'w lys breninol.

Tra 'r ydoedd yn cyfranu 'n hael
Fendithion i'w ddysgyblion,
I drothwy 'r ddaear daeth i'w nol
Osgorddlu o angylion;
Yn nghanol rhwysg a seiniau mawl
Esgynodd ffurfafenau,
Nes cyrhaedd uchaf wledydd gwawl
Goruwch pob awdurdodau.

Pan yn y byd yr *isaf* oedd
O bawb, a'r diystyraf,

Ond yn y nef a llawen floedd
Cyhoeddir ef yr *uwchaf;*
Mae pob llywodraeth yn ei law
I'w deyrnas ni bydd diwedd,
A goleu dydd y farn a ddaw
A'i dengys ar ei orsedd.

Pwllheli. S. WILLIAMS *(Glandulyn).*

PENNILLION ER COFFADWRIAETH AM Y DIWEDDAR RICHARD JONES, LLANDUDNO.

Ar gyfer cystadleuaeth y Pasg.

WYLO mae Llandudno heddyw
Am ei RICHARD JONES, ein brawd;
Un hawddgaraf a ffyddlonaf,
Safai 'n ddyn er gwaethaf gwawd:
Parchus ydoedd gan oreuon,
A gwehilion tref a gwlad;
Perchid ef gan hen ac ieuanc,
Gelwid ef gan bawb yn "Dad."

Brodor ydoedd o *Frynsiencyn,*
Daeth i'n tref yn ieuanc iawn;
A'i holl fodau ar ymagor,
Buan daeth ei ffrwythau 'n llawn;
Bachgen gweddus, hardd ei rodiad,
Gwylaidd, hynaws, hawdd ei drin;
Geiriau grasol iawn ddyferai
Oddiar ei wefus fel y gwin.

Cloddio byddai ef y ddaear,
Am wythïenau mwnau maith;
Cywrain odiaeth ei ddirnadaeth,
Gwyddai 'n dda reolau gwaith:
Ac fe weithiai yntau 'n rymus,
Fel y doeth ofalus ddyn;
Gwylio byddai ef bob amser,
Am gyflawnder i bob un.

Cerdded byddai 'n heinyf ddigon
I'w ei gongl yn ei *sedd;*
A phob amser byddai 'n brydlawn,
I gael bendith pena 'r wledd;
Cofio byddai y pregethau,
Ac adroddai hwynt mewn trefn,
Nes cyflenwi ei *ddeadell,*
Eto digon oedd wrth gefn.

Pan yn ieuanc fe briododd
Fenyw hynaws, hardd ei moes;
Ac fe anwyd teulu iddynt,
Collodd rai er dirfawr loes:
Colli hefyd wnaeth ei briod,
Yn ei drallod teimlai 'n brudd;
Ond, er hyny, safai 'n wrol,
Yn ei le fel perchen ffydd.

Athraw ydoedd, gwyliadwrus,
Un gyfranai foddus faeth,
A chynghorion i'w gyfoedion,
Ac i'r gwan cyfranai laeth;
Ond fe dorai fras dameidiau
I rai cryfion, heinyf, llawn;
Fe ddaglenai 'r Ysgrythyrau
I egluro trefn yr Iawn.

Hanner can'-mlwydd bu yn flaenor,
Dyn o dan arweiniad Duw;
Cadarn odiaeth ei lywodraeth,
Cadwai 'n wir reolaeth fyw;
Siarad byddai 'r gwir dduwinydd,
Am oludoedd trefn yr Iawn,
Nes eu dwyn yn glir i'r goleu,
Fel pelydrau 'r haul yn llawn.

Cerdded wnai i'n Cyrddau Misol,
Oerder hin fel canol ha',
Yna elai tuag adref,
Wedi dethol pob peth da;
Cario wnai y grawn heb gibau,
A grawnsypiau, er eu maint,
Roi 'n ddysgleidiau perffaith ddestlus
Ffrwythau melus Iawn i'r saint.

Blaenor ydoedd i'n blaenoriaid,
Yn ei swydd fe safai yn ddyn;
Talach o'i ysgwyddau i fyny
Safai hefyd arno 'i hun;
Pawb edrychai tuag ato
Am gynghorion dyfnion, doeth,
Ynddo hefyd byth ni 'n siomid,
'R oedd ef trwyddo fel aur coeth

Safai 'n ddewr o blaid llenyddiaeth,
A cherddoriaeth yn ei ddydd;
Fe farddonai ef yn rymus
Yn y gaeth a'r awen rydd:
Pleidio hefyd wnai wleidyddiaeth
Gynnil, rydd rolaeth gref,
O frawdgarwch pur heb wyrni,
Sydd dan nawdd a nodded Nef

Llwyrymwrthod wnai â phobpeth
Oedd â thuedd ynddo ei hun
At ddarostwng y ddynoliaeth,
Gwrthod Duw, llesteirio dyn;
Miniog fyddai wrth bob gwyrni,
Didwyll, gonest at bob un;
Eto tyner wrth y gweiniaid
Idd eu tynu ato ei hun.

Cadarn ydoedd fel y dderwen,
Un o blaniad doeth ein Duw;
Er mor sgythrog fyddai 'r stormydd,
Rhedai 'i wraidd i dir y byw;
Cryf a heini oedd hyd henaint,
Tirf ac iraidd oedd i'r daith,
Wedi cyrhaedd amlder dyddiau
Gorphen ddarfu ei holl waith

Angel Duw a ddaeth i gyrchu
Fry i'r Nef ein hanwyl frawd,
I orarau llawn o gyfoeth,
Lle nas gwelir neb yn dlawd;
Heddyw 'n wir yn gwisgo 'i goron,
Gyda *dewisolion Nef;*
Yno 'n caru ac yn canu,
Ac yn bloeddio "Iddo Ef."

GWYLFRYN

Newyddion Cyfundebol.

Y CYFARFODYDD MISOL.

YN Nghyfarfod Misol Dwyrain Morganwg, a gynnaliwyd yn Groesfaen, Tachwedd 20 a'r 21ain, gosododd y Parch. John Morgan Jones ger bron y Cyfarfod y symudiad sydd newydd ei gychwyn i gyflwyno tysteb i'r Parch. David James, Canton, gynt o Llaneurwg. Cymerwyd yr achos i fyny yn galonog a brwdfrydig. (Gwelir mewn rhan arall o'r Rhifyn hwn fod Mr. James, yn fuan ar ol hyn, wedi huno yn yr angeu, a bod y Dysteb yn awr yn cael ei dwyn ymlaen er budd ei weddw a'i blant amddifaid.) Cadarnhäwyd dewisiad y Parch. Christmas Lewis yn fugail ar Eglwys Seisonig Tonypandŷ. Darllenwyd llythyr cyflwyniad y Parch. J. E. Harries, West Bangor, Pa., yr hwn sydd yn bwriadu

ymsefydlu yn Merthyr Tydfil, a rhoddwyd iddo dderbyniad cynhes. Yn nghyfarfod y prydnawn, o dan lywyddiaeth y Parch. J. M. Jones, Caerdydd, sefydlwyd y Parch. W. Williams, gynt o Pendeulwyn, yn fugail ar eglwys y lle.

Yn Nghyfarfod Misol Manchester, a gynnaliwyd Tachwedd 26ain, penderfynwyd fod y genadwri ganlynol yn cael ei hanfon i'r Gymdeithasfa:—"Ein bod yn dymuno dwyn i ystyriaeth y Gymdeithasfa y priodoldeb iddi ddarpar rheolau sefydlog ar gyfer gwaith ei gwahanol gyfarfodydd, yn gystal ag ar gyfer achlysuron neilldnol a allant godi rhwng y naill gyfarfod a'r llall; gan gredu, nid yn unig y byddai i hyny sicrhau mwy o effeithiolrwydd ynglŷn â'i gweithrediadau hi ei hun, ond y byddai y Cyfarfodydd Misol a'r Henaduriaethau hefyd ar eu hennill o gael o'u blaen ffrwyth profiad a doethineb y Gymdeithasfa fel cymhelliad ac esiampl i barotoi y cyfryw reolau ag a dueddai i wneyd eu cyfarfodydd hwythau yn fwy effeithiol."

Yn Nghyfarfod Misol Gorllewin Morganwg, a gynnaliwyd yn Margam, Tachwedd 27ain, darllenwyd llythyr yn cyflwyno y Parch. Isaac R. Morgan, gynt o Talley, i undeb â'r Cyfarfod Misol hwn; ac hefyd lythyr o Gyfarfod Misol Dehau Aberteifi yn cyflwyno y Parch. D. R. Williams, gynt o Llanbedr. Rhoddwyd i'r ddau frawd y derbyniad mwyaf serchog a charedig. Rhoddwyd llythyr cyflwyniad i'r Parch. John M. Saunders, M.A., gynt o Pencoed, i Gyfarfod Misol Sir Gaerfyrddin, ar ei waith yn ymgymeryd â gofal Eglwys Seisonig "Capel Coffadwriaethol Williams, Pantycelyn," yn Llanymddyfri, a dadganwyd y dymuniadau goreu ar ei ran. Annogwyd pob eglwys i feddu ar y *Constitutional Deed*, ac ymgydnabyddu â'i chynnwys.

Yn Nghyfarfod Misol Lleyn ac Eifionydd, a gynnaliwyd yn Salem, Pwllheli, Rhagfyr 2 a'r 3ydd, darllenwyd llythyr oddiwrth y Parch. W. Jones, Enlli, yn hysbysu fod Miss Marsh, Tŷ Brith, Carno, wedi anfon 98 o lyfrau gwerthfawr, yn amrywio o swllt i bum' swllt yr un o bris, at wasanaeth yr Ysgwyr, ynghyd a *book-case* hardd i'w cadw. Penderfynwyd anfon diolchgarwch gwresog i Miss Marsh am ei haelfrydedd. Cyflwynwyd Mr. Peter Roberts, Llanelwy, i'r Cyfarfod, yr hwn oedd yn bresennol, yn ol gwahoddiad y Cyfarfod Misol diweddaf, ar ran Jiwbili y Genadaeth Dramor. Caed anerchiad goleu a doeth gan Mr. Roberts ar lwyddiant y Genadaeth, ac ar yr amcanion y bwriedir eu cyrhaedd yn y flwyddyn Jiwbili; pasiwyd dadganiad o ddiolchgarwch gwresog i Mr. Roberts am ei ymweliad a'i anerchiad, a phenodwyd pwyllgor i gymeryd y mater i ystyriaeth. Pasiwyd dadganiad o lawenydd wrth weled y Parch. J. R. Williams yn bresennol, ar ei ddychweliad o'r America, gyda diolchgarwch am amddiffyniad y Goruchaf drosto yn ystod ei deithiau. Darllenwyd llythyr cyflwyniad y Parch. W. R. Jones, Dysgwylfa, Arfon, ar ei ymsefydliad yn fugail ar eglwysi Deunant ac Uwchmynydd. Rhoddwyd iddo dderbyniad serchog. Annogwyd i alw sylw at y ddwy Drysorfa ar y Sabboth, Rhagfyr 15fed, ac i wneyd ymchwiliad manwl yn ystod yr wythnos ganlynol am dderbynwyr newyddion, ac i anfon at y goruchwyliwr Sirol, erbyn Rhagfyr 24ain, am y nifer anghenrheidiol at y flwyddyn nesaf. Dosbarthwyd tafleni Cymdeithas Yswiriol y Cyfundeb, ac annogwyd i yswirio yr holl gapeli yn y Gymdeithas hon.

Yn Nghyfarfod Misol Sir Gaerfyrddin, a gynnaliwyd yn Llanddeusant, Rhagfyr 3 a'r 4ydd, galwyd sylw at *Llawlyfr yr Efengylau*, ac annogwyd i'w gyflwyno i sylw yr Ysgolion Sabbothol er rhoddi derbyniad cyffredinol iddo. Darllenwyd llythyr cyflwyniad y Parch. J. M. Saunders, M.A., o Gyfarfod Misol Gorllewin Morganwg, a rhoddwyd iddo dderbyniad croesawgar, gan ddymuno iddo iechyd, hir oes, a llwyddiant i lafurio yn ei faes newydd. Rhoddwyd annogaethau i dderbyniad mwy cyffredinol o'r ddwy Drysorfa, y *Lladmerydd*, y *Llusern*, a'r *Traethodydd*.

Yn Nghyfarfod Misol Dyffryn Clwyd, a gynnaliwyd yn Llanelidan, Tachwedd 28 a'r 29ain, treuliwyd cyfarfod y prydnawn mewn ymddyddan ar y mater penodedig—"Purdeb yr Eglwys yn farweiddiad i lygredigaethau yr oes." Agorwyd yr ymdriniaeth gan Mr. Robert Parry, Dinbych, ac amlygwyd diolchgarwch gwresog i Mr. Parry am ei bapyr rhagorol, gan ddymuno arno ei argraffu yn bamphled ar draul y Cyfarfod Misol, ac hefyd ei anfon i'r Drysorfa. Dadganwyd llawenydd a diolchgarwch wrth weled y Parch. Francis Jones, Abergele, ar ol ei ymweliad â'r America, ac am y newyddion cysurus a gafwyd am y gwaith da a wnaed ganddo a thrwyddo yn ystod ei ymdaith yno.

Yn Nghyfarfod Misol Trefaldwyn Uchaf, a gynnaliwyd yn Machynlleth, Rhagfyr 5 a'r 6ed, gosodwyd achos Jiwbili y Genadaeth Dramor yn effeithiol ger bron y Cyfarfod gan y Parchn. O. Jones, B.A., Liverpool, a G. Ellis, M.A., Bootle. Penderfynwyd ymgymeryd â'r ymdrech yr annogid iddo. Galwyd sylw at y ddwy

Drysorfa a'r *Lladmerydd* gan y Parch. S. Owen, Tanygrisiau; rhoddwyd canmoliaeth iddynt, ac annogaeth wresog i'w derbyn a'u darllen. Rhoddodd y Parch. S. Owen achos Pendleton, Manchester, ger bron. Rhoddwyd derbyniad croesawus i'r achos hwn, ac annogwyd i wneyd y casgliad tuag ato. Darllenwyd llythyr dyddorol oddiwrth y Parch. J. Hughes, M.A., o Leipsig, yn anfon ei gofion at ei frodyr yn y Cyfarfod Misol, ac yn mynegu ei hiraeth am eu cymdeithas. Penderfynwyd anfon at Mr. Hughes i fynegu hiraeth a theimladau caredig y frawdoliaeth, a'u colled ar ei ol, eu gweddïau ar ei ran, a'u dymuniad am iddo gael nerth ac iechyd i ddychwelyd i'w wlad ac at ei waith.

Yn Nghyfarfod Misol Gogledd Aberteifi, a gynnaliwyd yn Llanilar, Rhagfyr 4 a'r 5ed, rhoddwyd annogaeth gynhes i gynnal yr "wythnos weddïau" yn nechreu y flwyddyn, a phenodwyd pwyllgor i dynu allan restr o faterion ar gyfer pob cyfarfod.

BORTH, ABERYSTWYTH.

Darfu i nifer o gyfeillion perthynol i Eglwys Seisonig Aberystwyth brynu capel yn y lle uchod, yn ddiweddar, i gynnal gwasanaeth Seisonig ynddo yn ystod misoedd yr haf. Y mae yr anturiaeth hon hyd yma yn addaw bod yn dra llwyddiannus. Penderfynwyd cadw yr achos ymlaen ar hyd y flwyddyn. Cynnaliwyd Cyfarfod nos Wener, Tachwedd 29ain, i ffurfio eglwys yno. Cynnrychiolid y Cyfarfod Misol gan y Parch. T. J. Morgan, Penygarn, a Mr. D. Jenkin Davies, U.H., Aberystwyth. Cynnrychiolid Eglwys Seisonig Aberystwyth gan y Parchn. Llewelyn Edwards, M.A., a J. G. Davies, a Mri. E. H. James, D. Lloyd ac Edward Ellis.

CYFARFODYDD PREGETHU.

Ail-agoriad Capel Abergwaen.—Y mae capel Abergwaen, Sir Benfro, wedi ei adnewyddu; ac y mae i bob pwrpas yn gapel newydd, ac mewn gwirionedd, yn gapel hardd a hynod gyfleus i lefaru a gwrando ynddo. Cymerodd yr agoriad le ar y 12 a'r 13eg o Dachwedd. Galwyd i wasanaethu ar yr achlysur y Parchn. W. E. Prytherch, Goppa; W. Jones, Treforris; W. Evans, M.A., a William Jenkins, M.A. Cymerwyd rhan hefyd gan y Parchn. Daniel Symmons, J. D. Symmons, Eleazer Meyler, a W. Mendus. Yr holl draul gydag adnewyddiad y capel, a chodi ystafell yn ymyl y capel, fydd £1200, ac y mae hanner y swm eisoes wedi ei gyfranu.

Gwnaed y Casgliad Blynyddol at ddileu y gweddill o'r ddyled ar y Capel Mawr, Dinbych, Sabboth, Tachwedd 24ain. Casglwyd yn ystod y dydd y swm o £88, a dysgwylid ei gwblhau yn £100, wedi cael y gweddill i law. Pregethwyd gan y Parch. G. Parry, D.D., Carno.

Cynnaliwyd Cyfarfod Pregethu yn Ebenezer, Llwynhrwydrau, Sabboth a Llun, Tachwedd 24 a'r 25ain. Gwasanaethwyd gan y Parchn. W. Prydderch, Goppa; T. James, M.A., Llanelli; a D. R. Williams, Cruglas, Abertawe.

Cynnaliwyd Cyfarfod Pregethu Eglwys Peniel, Penrhiwceiber, Sabboth a Llun, Tachwedd 17 a'r 18fed. Pregethwyd gan y Parchn. D. Lloyd Jones, M.A., Llandinam; D. H. Williams, Casnewydd; a Moses Thomas, Resolfen.

SYMUDIADAU GWEINIDOGION.

Y Parch. Christmas Lewis, i Eglwys Seisonig Tonypandy.

Y Parch. W. Williams, Pendeulwyn, i Eglwys Groesfaen.

Y Parch. J. M. Saunders, M.A., i Eglwys Seisonig "Capel Coffadwriaethol Williams, Pantycelyn," Llanymddyfri.

Y Parch. W. R. Jones, Dysgwylfa, Arfon, i Eglwysi Deunant ac Uwchmynydd, Lleyn.

Y Parch. J. Henlyn Owen, i Eglwys Dinmael, Dwyrain Meirionydd.

Y Parch. John Davies, Bala, i Eglwysi Coedpoeth a Glan'rafon.

Y Parch. J. J. Evans, Waenfawr, i Lanfachraeth ac Abergeirw.

YR ARHOLIAD CYMANFAOL AM 1890.

Ar gais Pwyllgor Undeb yr Ysgol Sabbothol, yr ydym yn rhoddi pob hysbysrwydd anghenrheidiol gyda golwg ar yr Arholiad Cymanfaol am 1890. Y ddau Arholwr ydynt y Parch. O. Jones, B.A., Liverpool, a Dr. Saunders, Abertawy. Testun Mr. Jones yw, *Ysbrydoliaeth y Bibl*. Y *text-book* Cymraeg ydyw, *Ysbrydoliaeth y Bibl* gan y Parch. D. C. Davies, M.A., cyhoeddedig gan Mri. Evans & Son, Holywell; ei bris, os ydym yn cofio yn dda, yw swllt. Y *text-book* Seisonig yw, *Redford on the Authority of Scripture*. Mae hwn yn werth 5s., ond rhoddir ef am 2s. 6c. i'r ymgeiswyr yn yr Arholiad, ond i weinidog y lle roddi ei enw i sicrhau mai at yr amcan

hwnw y ceisir ef. Y mae i'w gael gan Gymdeithas y Traethodau Crefyddol, 56, Paternoster Row, Llundain.

Testyn Dr. Saunders yw, *Y Pedair Efengyl, Nodweddion Gwahaniaethol yr Efengylau*, a *Threfn Amseryddol prif ffeithiau Bywyd y Gwaredwr. Y text-books* Cymraeg yw, *Arweiniad i'r Efengylau*, gan Dr. Parry, a *Dr. Conder. Y Text-books* Seisonig yw, *Westcott's Introduction to the Gospels* (Strahan & Co.), a Dr. Conder. Mae Dr. Conder, ar Fywyd Crist, i'w gael yn Gymraeg am 4c., ac yn Saesoneg am 3c., gan Gymdeithas y Traethodau. Gan fod Westcott yn llyfr go fawr, anfoned yr ymgeiswyr at Dr. Saunders i ofyn ganddo nodi y pennodau yn y llyfr y bydd yn arholi arnynt. Ni holir cwestiynau na byddo atebion i'w cael yn y llyfrau penodedig. Y rhai sydd wedi derbyn tystysgrifau yn y dosbarth hynaf yn yr Arholiadau Sirol sydd â hawl i ymgystadlu.

Dymuna y Pwyllgor ar fod hysbysrwydd cyflawn o'r holl fanylion perthynol i'r Arholiad yn cael ei roddi yn y ddwy Drysorfa, y *Lladmerydd*, y *Llusern*, a'r *Monthly Tidings;* ac hefyd i Ysgrifenyddion y Cyfarfodydd Misol, fel y gallont roddi y cyfryw fanylion yn nhafleni yr Arholiadau Sirol. Annoga y Pwyllgor y Cyfarfodydd Misol hefyd i roddi gwobrwyon i'r nifer a farnont hwy yn briodol o'r ymgeiswyr llwyddiannus yn yr Arholiad Cymanfaol.

Rhoddir gwybodaeth brydlawn am yr amser, yn y flwyddyn nesaf, y cynnelir yr Arholiad.

Yr ydym yn hyderu y bydd tyrfa fawr yn dyfod allan i'r gystadleuaeth am y *medals* y flwyddyn hon, a phob un â'i lygad ar y *medal* aur.

YR WYTHNOS WEDDIAU YN IONAWR 1890.

Dymuna y "Cynghrair Efengylaidd" gyflwyno i sylw pobl yr Arglwydd ymhob man y materion canlynol fel rhai priodol a theilwng i fod yn faterion i'w gweddïau yn ystod yr wythnos gyntaf o'r flwyddyn nesaf.

Llun, Ion. 6.—Addefiad o bechodau a ffaeleddau yr amser a aeth heibio, a gweddi am fwy o ymgysegriad i fywyd sanctaidd. Gweddi dros Eglwys Crist am fwy o oleuni, o fywyd, ac o ddylanwad yr Ysbryd Glân; am fwy o ffyddlondeb i wirionedd yr efengyl; gweddi dros fugeiliaid ac eraill a lafuriant yn ngwinllan Crist.

Mawrth, Ion. 7.—Gweddi am gynnydd sobrwydd, purdeb, parch i'r Sabboth, ac am gyflawnder cenedlaethol. Gweddi dros rai mewn awdurdod. Gweddi am attalfa ar aflywodraeth, gwrthryfel a chreulondeb; ac am barhad heddwch; ar fod i "Air yr Arglwydd redeg a chael gogonedd." Ar fod i Resymoliaeth, Defodaeth, a Phabyddiaeth gael eu gwrthweithio; ac ar fod gwaith Efengylaidd yn llwyddo yn fawr mewn gwledydd Pabyddol.

Mercher, Ion. 8.—Deisyfiad am raddau arbenig o ras a doethineb i rieni Cristionogol. Am gynnydd mawr yn nifer athrawon Cristionogol ymroddedig mewn Ysgolion, Colegau a Phrifysgolion. Am ffrwyth ysbrydol helaethach oddiwrth Gymdeithasau Cristionogol meibion a merched ieuainc. Am ddeddfwriaeth iachusol er lleihau y temtasiynau ag y mae yr ieuenctyd yn agored iddynt.

Iau, Ion. 9.—Yn (1) *Y Genedl Iuddewig.* Gweddi ar fod i Dduw symud ymaith y gorchudd sydd ar eu calon; ar fod iddo fendithio pob cenadaeth at yr Iuddewon, ac yn neillduol ar fod iddo fendithio lledaeniad y Testament Newydd yn yr iaith Hebraeg yn eu mysg hwy. Gweddi am fwy o oleuni o barth i amcanion Duw gyda golwg ar Israel. Yn (2) *Y Mahometaniaid.* Gweddi am ddymchweliad Mahometaniaeth. Gweddi dros Affrica a'i miliynau preswylwyr Mahometanaidd, ar fod i bob ymdrech i ddwyn iddynt yr efengyl gael eu llwyddo. Ar fod i'r gaethfasnach gael ei llwyr ddiwreiddio.

Gwener, Ion. 10.—*Diolchgarwch* am arwyddion amlwg o gynnydd diweddar yn y dyddordeb a deimlir a'r ymdrechion ychwanegol a wneir mewn gwaith cenadol. Am gynifer o ddrysau a agorwyd yn ddiweddar i'r efengyl. Ar fod i wŷr ffyddlawn ac yn llawn o nerth yr Ysbryd Glân gael eu harwain i gyhoeddi yr efengyl ymhob man. Ar fod i lawer ychwaneg o efengylwyr a bugeiliaid brodorol gael eu codi i helaethu y gwaith. Ar fod i rwystrau, megys y fasnach feddwol a'r fasnach mewn *opium*, gael eu symud. Ar fod i amlwreiciaeth, baban-laddiad, a phriodi plant, gael eu darostwng.

Sadwrn, Ion. 11.—*Diolchgarwch* neillduol am yr hyn a wnaeth Duw yn ystod y flwyddyn aeth heibio, am obaith sicr o fendithion yn y dyfodol; ac uwchlaw pob peth, am gariad annhraethadwy Duw, am iddo roddi ei Fab, ac am bresennoldeb a dylanwad ei Sanctaidd Ysbryd. Diolchgarwch am ganiatâd Duw i ymuno â'n gilydd yr wythnos flaenaf o'r flwyddyn i weddïo arno a gwneuthur ein deisyfiadau yn hysbys ger ei fron Ef.

Anfonwyd trwy ddymuniad Cyfarfod Misol Trefaldwyn Isaf, gan

W. Matthias Griffith.

Llanrhaiadr,
Tach. 26, 1889.

YR YSGOLION PROTESTANAIDD.

ADRODDIAD YR YMWELWYR.

[Yn Nghymdeithasfa y Dyffryn, pan oedd achos yr Ysgolion hyn dan sylw, fe farnwyd mai dymunol fyddai i ryw ddau frawd ymweled â'r tair ysgol dros y Gymdeithasfa, a dwyn eu hadroddiad am eu sefyllfa i Gymdeithasfa Rhagfyr. Penodwyd y Parchn. Daniel Rowlands, M.A., Bangor, a Thomas J. Wheldon, B.A., Ffestiniog, i wneyd hyny. Ymwelsant hwythau â'r Ysgolion yn mis Tachwedd, a chyflwynasant yr Adroddiad canlynol i'r Gymdeithasfa yn Llanfaircaereinion; a phenderfynodd y Gymdeithasfa, heblaw ei dderbyn a diolch yn gynhes i'r Ymwelwyr am eu gwasanaeth gwerthfawr, fod eu Hadroddiad yn cael ei gyhoeddi yn y Drysorfa.]

Ar gais y Gymdeithasfa aethom ein dau i ymweled â'r Ysgolion Protestanaidd yn Siroedd Fflint a Dinbych. Bu Mr. Evan Bryan, un o aelodau y Pwyllgor, mor garedig â'n cyfarfod gyda cherbyd yn *station* Treffynnon, a daeth gyda ni i'r tair Ysgol. Rhoddodd Ysgrifenydd y Pwyllgor, y Parch. Hugh Roberts, i ni hefyd gynnorthwy gwerthfawr. Cyfarfyddwyd ni yn yr Ysgolion gan y personau canlynol, y rhai ydynt aelodau o'n pwyllgorau:—Yn Ngharmel, gan Mr. Edward Hughes; yn Ngronant, gan y Parch. Hugh Roberts, a Meistri Thomas Jones a John Hughes; yn Rhuallt, gan Meistri Peter Roberts ac Owen Thomas.

Mae yn amlwg fod y tair ysgol yn llafurio dan anhawsderau neilluol. Yn mhlwyf Whitford, lle y mae Ysgol Carmel, y mae pedair o ysgolion gan Eglwys Loegr mewn cydymgais â hi, ac un arall ar gŵr ei chymydogaeth, ynghyd a dwy o ysgolion gan yr Eglwys Babaidd. Mae gan ysgol Gronant ddwy mewn cydymgais â hi, un gan Eglwys Loegr yn Llanasa, a'r llall gan yr Eglwys Babaidd yn Talacre. Ac y mae tair o ysgolion mewn cydymgais âg ysgol Rhuallt,—dwy gan Eglwys Loegr yn y Cwm a Thremeirchion, ac un gan yr Eglwys Babaidd yn Nhremeirchion. Y mae yr holl ysgolion hyn yn amcanu at broselytio plant y cymydogaethau; ac y mae ganddynt,—yn ffafr y mawrion ac yn y manteision a allant gynnyg mewn addysg râd, dilladau, ymborth, gwobrwyon, &c.,—allu tra mawr at eu gwasanaeth wrth geisio gwneyd hyny. Yn wir y mae yn rhyfedd na fuasai eu llwyddiant yn hyn wedi bod yn llawer mwy. Pe buasem ni wedi gwario mewn unrhyw wlad ddegwm yr ymdrech a'r draul a wariodd Eglwys Rhufain ar yr ardaloedd hyn yn ystod y deugain mlynedd diweddaf, a chyda mor ychydig o lwyddiant, mae yn sicr y buasem yn achwyn yn dost. Ond nid ydym ni o herwydd hyny i fod yn ddiofal; oblegid y mae gan y ddwy Eglwys sydd wedi gosod eu bryd yn gymaint ar feddiannu yr ardaloedd hyn y fath adnoddau y tu cefn iddynt fel y gallent fforddio dysgwyl am flynyddoedd lawer eto; ac yn sicr nid ydyw yr addysg sydd gan y naill na'r llall i'w rhoddi i'r plant y fath ag a allai beri i ni deimlo yn dawel i'w hymddiried i'w gofal.

Yr oedd yn dda genym weled fod y fath werth yn cael ei osod yn y tair cymydogaeth ar yr Ysgolion Protestanaidd. Mae yn wir fod rhai Ymneilldŵyr,—a *rhai* y gallesid dysgwyl oddiwrthynt bethau llawer gwell—yn ymddangos yn ddall i'r peryglon sydd o'u hamgylch, ac yn anfon eu plant yn ddibris i'r ysgolion ag y mae y bobl fawr mor awyddus am eu gweled yn llwyddo. Ond am y lliaws o bobl dda yr ardaloedd, y maent yn dra gwahanol. Am *eu plant* yn arbenig yr ymofynir; ni ddangosir nemawr duedd i aflonyddu arnynt hwy, gan fod yn lled eglur bellach na fyddai hyny yn debyg o ateb unrhyw ddyben; ond nid ydyw yn ormod defnyddio pob dyfais i geisio ennill eu plant. Y mae ein cyfeillion, fodd bynag, yn awyddus am ddiogelu i'w plant y bendithion mawrion a werthfawrogant yn gymaint eu hunain. Ac o herwydd hyny, y maent yn teimlo ymlyniad cryf wrth y tair ysgol. Oni buasai am yr ysgolion hyn, fe fuasai holl blant y tair cymydogaeth er ys llawer o flynyddoedd wedi eu tynu i fewn i'r ysgolion eraill, ac fe fuasai cymeriad yr ardaloedd, cyn hyn, wedi myned dan gyfnewidiad ag y mae yn sicr na fuasai yn gyfnewidiad er gwell. Mae y tair ysgol dan athrawon trwyddedig cymeradwy, ac er mai y Methodistiaid sydd yn llafurio fwyaf gyda hwynt, eto y maent yn cael eu dwyn ymlaen ar gynllun yr Ysgolion Brytanaidd. Fe ddarllenir y Bibl ac fe roddir ynddynt addysg grefyddol, ond nid oes dim defnydd enwadol yn cael ei wneyd o honynt mewn un modd. Y mae un o honynt dan Athrawes fedrus, yr hon sydd yn aelod gyda'r Annibynwyr. Sefydlwyd ysgol Carmel yn 1862; mae cyfartaledd y presennoldeb ynddi yn 62, ac yr oedd yn bresennol y diwrnod yr oeddem ni yno 73. Sefydlwyd ysgol Gronant yn 1871; mae cyfartaledd y

presennoldeb yn 61, ac yr oedd yn bresennol y diwrnod hwnw 70. Sefydlwyd ysgol Rhuallt yn 1863; mae cyfartaledd y presennoldeb yn 61, ac yr oedd yn bresennol ar y pryd 71. Wrth ystyried teneuder y boblogaeth ac amgylchiadau yr ardaloedd, ac nad oes yn yr un o honynt Fwrdd Ysgol, nac unrhyw drefniant er sicrhau presennoldeb y plant oddieithr ewyllys da a chydwybod y bobl eu hunain, ni allem lai nag edrych ar hyn fel yn dra boddhaol.

Y mae cynnaliaeth yr ysgolion hyn, fel y gallesid dysgwyl, yn fater o gryn anhawsder. Fe sefydlwyd y tair ar annogaeth ddoeth Cymdeithasfa y Methodistiaid yn Ngogledd Cymru, pan oedd tadau sanctaidd, sydd erbyn hyn wedi cyrhaedd yr orphwysfa, mewn dirfawr bryder wrth weled yr ymgais benderfynol a wnelid i lithio plant y genedl at "efengyl arall, yr hon nid yw arall." Ac yn wyneb gwendid yr ardaloedd, addawyd cynnorthwy sylweddol iddynt, mewn cyfraniadau blynyddol o'r Cyfarfodydd Misol, &c., ac mewn tanysgrifiadau personol, tuag at gario yr ysgolion ymlaen. Cafwyd y cynnorthwy hwn am rai blynyddoedd gyda siriol deb. Ond wedi pasio Deddf Addysg 1870, a sefydlu Byrddau Ysgol, fe dueddid llawer i ymofyn, paham na ffurfid Byrddau Ysgol yn yr ardaloedd hyn, a gosod yr ysgolion yma danynt? Gofynai eraill, paham na fuasai y Siroedd lle y mae yr ysgolion yma yn gofalu am danynt? Ac mewn canlyniad darfu i rai a fyddent yn arfer tanysgrifio ommedd parhau i wneyd hyny, a chydag anhawsder cynnyddol y ceid y cyfraniadau o'r Cyfarfodydd Misol. Dan yr amgylchiadau, mae yn debyg mai annawdd a fuasai i'r Gymdeithasfa wneyd dim doethach nag anfon rhai nad oedd unrhyw gysylltiad rhyngddynt â'r ardaloedd hyn, i wneyd ymchwiliad i holl helynt yr ysgolion ac i ddwyn eu hadroddiad.

Yr ydym ninnau wedi gwneyd ymchwiliad mor drwyadl ag y gallem, ac yr ydym yn teimlo yn gryf fod yr ysgolion yma yn gwneyd gwaith rhyfeddol o dda, ac y dylent, dan yr amgylchiadau y mae yr ardaloedd hyn ynddynt, gael parhad o'r gefnogaeth ar bwys pa un y sefydlwyd hwynt ar y dechreu.

Yr ydym yn teimlo felly am y rhesymau canlynol:—

1. Y mae cael Byrddau Ysgol yn y cymydogaethau hyn,—o leiaf nes y gosoder yr holl deyrnas dan Fyrddau Ysgol,—yn anobeithiol. Pe bygythiai eu llywodraethwyr eu cau, ni effeithiai hyny o gwbl ar y *school accommodation*, neu y lle i blant y cymydogaethau fod dan addysg; oblegid y mae digonedd o le yn yr ysgolion Eglwysig a Phabaidd i holl blant yr ardaloedd, a llawer yn ychwaneg. Ac fe wnaed ymdrech am gael Bwrdd Ysgol yn un o'r plwyfydd trwy etholiad; ond yr oedd gallu y mawrion o Eglwys Loegr ac Eglwys Rhufain mor fawr yn erbyn hyny, a chymaint gwaseidd-dra yn cael ei ddangos gan bobl oeddynt yn awyddus am eu boddhau, a "bwgan y dreth" yn peri cymaint o ddychryn i lawer, fel y bu yr ymgais yn fethiant gwaradwyddus.

2. Y mae Sir Fflint a Sir Ddinbych yn gwneyd eu rhan at yr ysgolion hyn yr un modd â Siroedd eraill y Gogledd. Y mae amgylchiadau y tair cymydogaeth y cyfeiriwn atynt mor eithriadol, fel nad oes unrhyw gymydogaeth arall o fewn ein gwlad ag y gellir ei chymharu â hwynt am fynyd. Y mae yn dra addas, yn wir, fod yr holl Gorff trwy Wynedd yn rhoddi cynnorthwy brawdol i'r ardaloedd sydd yn y fath berygl, ac felly yn gwrthdystio trwy wneyd ychydig gyfraniad hefyd, yn erbyn cyfeiliornadau sydd yn gwneyd y fath ymsodiad arnom fel cenedl. Heblaw hyny y mae ein brodyr yn y Siroedd hyn yn gymaint dan eu baich gyda'u hachosion eu hunain fel mai anghyfiawn fyddai dysgwyl iddynt gymeryd yr holl bwysau hwn yn ychwanegol, tra y byddo eu brodyr yn y Siroedd eraill heb gymeryd unrhyw ran ynddo.

3. Yr ydym ni hefyd yn credu fod yr ardaloedd hyn eu hunain yn gwneyd llawn cymaint ag a allem ddysgwyl oddiwrthynt at gynnaliaeth yr ysgolion yma. Mae rhai, ac mae yn debyg lawer, yn y tair ardal, sydd yn rhy ddi-ddaioni i deimlo unrhyw gyfrifoldeb gyda golwg ar yr ysgolion; ac y mae hyny, o anghenrheidrwydd, yn gwneyd baich yr ychydig ffyddloniaid sydd yn gweithio gyda phobpeth yn drymach fyth. Ond wrth ystyried gwendid y cynnulleidfaoedd, ynghyd a'r cyfrifoldeb sydd yn gorphwys arnynt gyda dygiad ymlaen yr achos crefyddol, nid yw yn rhesymol i ni ddysgwyl iddynt wneyd mwy nag a wnant tuag at yr ysgolion. Ni allant feddwl am godi mwy na cheiniog yr wythnos am yr addysg; a rhaid iddynt, o herwydd cydymgais ysgolion y boneddigion—Eglwysig a Phabaidd—roddi addysg i lawer o'r plant am ddim; yn wir, hyd yn lled ddiweddar, yr oedd rhai o'n cydwladwyr mor bell ar ol fel y teimlent braidd y dylid talu iddynt am anfon eu plant i'r ysgolion Protestanaidd! Mae hyn oll yn gwneyd y draul yn drymach fyth. Mae y cyfeillion yn Carmel yn gorfod gwneyd bob bwyddyn o £7 i £10 at yr ysgol. Mae cyfeillion

Gronant hefyd yn gwneyd tua £10. Nid ydyw aelodau eglwys y Rhuallt ond 35, ac eto yr oedd cyfartaledd eu cyfraniad blynyddol at yr ysgol am y deng mlynedd diweddaf, yr hyn a wneid o gyllid yr achos crefyddol, yn £5 9s. Cedwir yr adeiladau yn y tri lle mewn sefyllfa dda, ac y mae yr ystafelloedd yn lanwaith a threfnus.

Cyfrifir y dylid cael tua £300 yn y flwyddyn i gyfarfod treuliadau y tair ysgol. I wneyd i fyny y swm anghenrheidiol, ymddibynir ar y *grants*, taliadau y plant, y cynnorthwy o'r Siroedd, a'r hyn a wneir yn yr ardaloedd eu hunain. Ymddengys na ellir cyfrif ar fwy oddiwrth y *grants* a cheiniogau y plant na rhyw £180. Nid yw y symiau a osodwyd ar y Cyfarfodydd Misol ond rhyw £45; ond y mae yr arian yma mor annyben yn dyfod ynghyd fel y mae y Pwyllgor yn bresennol mewn dyled, ac yn gyffredin dan ddirfawr anghyfleustra i allu cario y gwaith ymlaen. Yr ydys yn cael rhyw £33 hefyd mewn tanysgrifiadau personol; dywedai y cyfeillion eu bod yn credu y gallesid cael mwy yn y ffordd yma oni b'ai fod rhai, a fuont yn tanysgrifio, yn credu y gallent gael Byrddau i osod eu hysgolion danynt. Ni wnelai y symiau hyn, pe ceid hwynt yn gyflawn a rheolaidd, ond rhyw £258. Rhaid i ffyddloniaid yr ardaloedd eu hunain wneyd y gweddill, heblaw dyoddef mawr bryder o herwydd yr annybendod o gael y symiau eraill at eu gilydd.

Yr ydym ein dau yn llwyr argyhoeddedig y dylid parhau y cynnorthwy o'r Cyfarfodydd Misol, ac y dylid gwneyd y taliadau hyny yn brydlawn. Hyderwn hefyd y ceir llawer mwy o help tuag at gario yr ysgolion ymlaen mewn cyfraniadau neu danysgrifiadau oddiwrth bersonau.

Y mae tri pheth y dymunem yn neilldiol alw sylw atynt ymhellach:—

1. Yr ydym yn credu y byddai yn dda fod mwy o arolygiaeth bersonol garedig ar yr ysgolion hyn gan aelodau y Pwyllgor cyffredinol, a chan bersonau dylanwadol o'r pwyllgorau lleol, ac eraill. Mae hyn, yn wir, yn ddiffyg mawr yn ein hysgolion Brytanaidd ac ysgolion y Byrddau yn gyffredin. Fe ymwelir â'r ysgolion Eglwysig a Phabaidd gan bersonau o ddylanwad, y rhai a gymerant ddyddordeb neilldiol ynddynt, ac y mae eu cefnogaeth iddynt o werth mawr. Byddai yn dda i gyfeillion addysg rydd feuthyca dalen o'u llyfr trwy Gymru oll; ac fe fyddai hyny yn neilldiol werthfawr gyda yr ysgolion hyn. Fe fyddai yn galondid mawr i'r athrawon a'r plant, ac fe barai i rieni ac eraill yn yr ardaloedd deimlo llawer mwy o ddyddordeb ynddynt. Yr oedd yn dda iawn genym ddeall fod Ysgrifenydd y Pwyllgor, y Parch. Hugh Roberts, wedi gwneyd cryn lawer o wasanaeth da yn y ffordd yma gyda y tair ysgol, ac fod hyny yn cael ei fawr werthfawrogi, ac yn ateb dyben rhagorol. Da fyddai i aelodau eraill y Pwyllgor wneyd yn debyg. Mae yn hyfryd genym ychwanegu fod rhai chwiorydd parchus wedi addaw cymeryd dyddordeb ynddynt ac ymweled â hwynt.

2. Byddai yn dda genym fod mwy o addysg grefyddol yn cael ei rhoddi yn yr ysgolion hyn. Fe ddarllenir y Bibl i'r plant, ac fe genir ambell i emyn, a chyd-adroddir ynddynt weddi yr Arglwydd; ond ni ddarllenir y Bibl yn y dosbarthiadau, ac ni chymerir unrhyw faes ysgrythyrol i lafurio ynddo. Ymddengys i ni y dylid gwneyd hyny yn yr ysgolion hyn, a gynnorthwyir gan gyfundeb crefyddol, ac yn benodol i ddiogelu yr oes sydd yn codi rhag peryglon sydd â'u tuedd i'w hysbeilio o wirionedd yr efengyl. Beth bynag arall a ddysgir i'r plant, fe fydd yr addysg a roddid yn ysgolion Griffith Jones a Thomas Charles yn anhebgorol iddynt ddyddiau y ddaear.

3. Ynglŷn â hyn yr ydym yn barnu mai da fyddai i'r Pwyllgor cyffredinol nodi maes neilldiol o'r Ysgrythyrau i'r plant yn y gwahanol safonau lafurio ynddo am flwyddyn,—fel y gwneir yn ysgolion Bwrdd Llundain, ac ysgolion lliaws o'r Byrddau goreu eraill yn y deyrnas,—ac fod y Gymdeithasfa yn nodi rhyw frawd a fyddo yn rhesymol o fewn eu cyrhaedd i ymweled â'r ysgolion, a phrofi y plant yn yr hyn y byddont wedi llafurio ynddo, a dwyn ei adroddiad am eu gwaith ac am sefyllfa yr ysgolion, i'r Gymdeithasfa ag y byddo achos yr ysgolion hyn dan sylw ynddi. Fe fyddai hyny yn llawer o help i fywyd a nerth yr ysgolion eu hunain, ac fe fyddai yn foddlonrwydd i'r Siroedd fydd yn cyfranu fod eu cynnorthwy yn ateb y dyben, ac yn dwyn ffrwyth da.

Daniel Rowlands.
Thomas J. Wheldon.

MARWOLAETHAU PREGETHWYR.

Y PARCH. ARTHUR EVANS, CYDWELI.

Bu farw y gweinidog hwn nos Lun, Tachwedd yr 11eg, yn 63 mlwydd oed. Ordeiniwyd ef i gyflawn waith y weinidogaeth yn Nghymdeithasfa Castellnewydd Emlyn, yn y fl. 1861. Bu yn

pregethu yr Efengyl am yn agos i ddeugain mlynedd. Brodor ydoedd o Conwil, lle y treuliodd y rhan fwyaf o'i oes. Tua saith mlynedd yn ol symudodd i gymydogaeth Cydweli, lle yr oedd ganddo dir yn etifeddiaeth, a lle yr arosodd, gan wasanaethu crefydd yn ffyddlawn megys cynt, hyd ddiwedd ei oes. Yr oedd Mr. Evans yn ŵr heddychol, diddichell, gostyngedig, a hunanymwadol. Addurn mawr yn ei gymeriad oedd ei fod yn ddiabsen; dywedai y goreu am bawb, yn enwedig ei frodyr yn y weinidogaeth; ac ni byddai byth yn cenfigenu wrth ei frodyr oedd yn cael lle mwy amlwg nag ef. Nid oedd wedi llenwi cylchoedd cyhoeddus iawn, ac nid oedd yn adnabyddus braidd y tu allan i'w Sir ei hun. Gwnai gydwybod i wasanaethu yr eglwysi lleiaf fel y rhai mwyaf, ac yr oedd ei amgylchiadau cysurus yn ei alluogi i wneyd hyny. Teimlai ddyddordeb mawr mewn gwleidyddiaeth, ac achosion lleol cyhoeddus, a chymerai ran fedrus ac effeithiol ynddynt. Ond yn ngweinidogaeth yr Efengyl yr oedd ei brif hyfrydwch. Yr oedd ei bregethau yn sylweddol, efengylaidd, a buddiol; a chafodd rai odfaon hynod o rymus. Bu farw yn ffydd a thangnefedd yr efengyl, gan adael gweddw a saith o blant i alaru ar ei ol. Claddwyd ef yn Conwil, ei ardal enedigol.

Y PARCH. DAVID JAMES, LLANEURWG.

Hunodd y dyn caruaidd, y Cristion cywir, a'r pregethwr poblogaidd hwn, yn yr angeu, nos Sadwrn, Tachwedd 30ain, yn ei breswylfod yn Nghaerdydd, lle yr ydoedd wedi symud i drigiannu er ys ychydig amser yn ol, yn 53 mlwydd oed. Yr oedd wedi ei gyfyngu i'w ystafell wely er ys yn agos i flwyddyn yn ol. Dyoddefodd ei gystudd maith yn hynod dawel ac amyneddgar, ac ni chwennychai gael byw ond er mwyn cael ail ymaflyd yn ei hoff waith o bregethu yr Efengyl. Tystiai cydwybodau pawb fod Mr. James yn ŵr o dduwioldeb diammheuol a dwfn. Yr oedd hefyd yn un o'r dynion mwyaf addfwyn a charuaidd, yn cael ei barchu a'i garu gan bawb. Ymroddodd gyda holl ŷni ei natur i'r gwaith mawr o bregethu yr Efengyl. Yn y gwaith hwn yr oedd "bywyd ei ysbryd." Nid oedd wedi cael manteision addysg foreuol, ond llafuriodd yn galed i wneyd i fyny y diffyg, hyd ag yr oedd hyny yn bosibl. Meddai fesur helaeth o ysbryd a dawn y weinidogaeth. Daeth i fod yn bregethwr hynod lwyddiannus a phoblogaidd. Yr oedd difrifwch ei amcan, gwres ei ysbryd, neillduolrwydd ei lais a'i draddodiad, dwysder toddedig ei apêliadau, a'r hanesynau a'r egluriadau a ddefnyddiai i yru y gwirionedd adref, ac yn goron ar y cwbl yr "eneiniad oddiwrth y Sanctaidd hwnw," yn peri fod ei bregethu yn hynod effeithiol, ac yn gwneyd argraffiadau dyfnion yn fynych ar galonau ei wrandawyr. Diau y bydd iddo eneidiau lawer yn "goron gorfoledd yn nydd Crist." Bu farw mewn "tangnefedd heddychol," gan orchymyn ei ysbryd i ddwylaw ei Waredwr. Gadawodd weddw a thri o blant mewn hiraeth a galar ar ei ol. Yr oedd ei gyfeillion wedi cychwyn Tysteb iddo ychydig cyn ei farwolaeth, a chyfrenid ati gyda pharodrwydd a llawenydd anghyffredin. Hyderwn y dygir hi ymlaen eto i derfyniad llwyddiannus er budd ei weddw a'i blant amddifaid. Deallwn fod tref Caerdydd, ac eglwys Canton yn enwedig, wedi amlygu parch a charedigrwydd mawr tuag ato yn ei gystudd. A chafodd gladdedigaeth hynod o luosog ac anrhydeddus.

Y PARCH. H. H. WILLIAMS, M.A., MELBOURNE.

Tua mis yn ol cyrhaeddodd y newydd galarus am farwolaeth y gweinidog ieuanc llafurus ac ymroddgar hwn. O Bethesda, Arfon, yr oedd Mr. Williams. Bu am flynyddoedd yn efrydydd dyfal a llwyddiannus yn Ngholeg y Brifysgol, Aberystwyth, ac wedi hyny yn Rhydychain. Bu yn arcs am ysbaid yn Egremont, Seacombe. Aeth oddiyno i Melbourne, Australia, er cyfnerthiad i'w iechyd. Bu farw yn dra disymwth Hydref 15fed, oddiwrth ymosodiad o *erysipelas* yn y pen, gan adael gweddw ieuanc ar ei ol, mewn galar dwys.

Nodiadau Misol.

Y CEDYRN YN CWYMPO.

Y mae y misoedd diweddaf wedi bod yn hynod am y nifer mawr o ddynion enwog a fuant feirw. Bu felly gyda'n Cyfundeb ni yn Nghymru. Ac y mae wedi bod felly yn Lloegr ac ar y Cyfandir. Cwympodd amryw o'r cedrwydd yn Eglwys Crist, ac ar faes llenyddiaeth. Un o honynt oedd Dr. Edwin Hatch, Darlithydd ar Hanesiaeth Eglwysig yn Rhydychain, gŵr o feddwl cryf, dysgeidiaeth a chyrhaeddiadau uchel, a chalon eang a rhyddfrydig, y tu hwnt bron,

mewn eangder calon, i neb o'i frodyr yn yr Eglwys Sefydledig. Tua naw neu ddeng mlynedd yn ol, traddododd y *Bampton Lectures* yn Rhydychain ar Ddechreuad a Ffurfiad Eglwysi boreuol Cristionogaeth. Tynodd y llyfr sylw mawr, yr hyn nis gallasai lai na gwneyd. Y mae yn ffrwyth ymchwiliad manwl a phwyllog, a meddwl dwys. Ymdrinia â'r pwnc anhawdd hwn yn drwyadl a meistrolgar. Ond y peth hynotaf ynddo ydyw gweled gŵr o'i ddygiad i fyny a'i safle uchel ef yn gallu ymddihatru mor llwyr oddiwrth ragfarnau plaid, yn ymysgwyd oddiwrth effaith traddodiadau, a holl ddylanwadau cryfion yr awyrgylch yr oedd wedi bod bob amser yn byw ynddi. Cymer ei safle yn annibynol; edrycha ar y pwnc yn bwyllog a diduedd o bob cyfeiriad, ac o dan bob goleuni, ysbrydoledig a dynol, y gellid ei gael i dywynu arno. Medda y gwroldeb moesol i fyned trwy bob rhwystrau ar ol y *gwirionedd*, gan ei ddylyn i ba le bynag yr elo. Dengys yn amlwg nad oes un ffurf-lywodraeth eglwysig fanwl a phendant yn cael ei dysgu yn y Testament Newydd trwy orchymyn nac esiampl; nad oes dan yr Efengyl "bortread yn y mynydd" fel gyda'r oruchwyliaeth Iuddewig, a phob hoel yn y trefniadau allanol i'w gosod yn ol hwnw; fod ein Harglwydd ei hun, hyd yn nod wrth sefydlu ordinhadau ei Eglwys, yn cymeryd megys y pethau agosaf i law, o ran y ffurf allanol, oddiwrth osodiadau Iuddewig, arferion cymdeithasol, a neillduolion amgylchiadau y wlad a'r oes; a bod yr un egwyddor yn amlwg yn ffurfiad yr Eglwysi cyntaf—un elfen o'r trefniadau Iuddewig, elfen arall o sefydliadau dinesig Rhufain, yn cael eu cyfuno âg elfenau newydd neillduol i Gristionogaeth. Dengys nad oes dim yn hanfodol yn y ffurf a'r trefniadau allanol, cyhyd ag y byddant yn unol âg ychydig o egwyddorion eglur a sylfaenol, ond eu bod i'w llunio a'u cyfnewid gan *synwyr* y byd Cristionogol, fel y byddo amgylchiadau yn galw, fel ag i weithio allan yn fwyaf effeithiol amcanion ysbrydol Eglwys Crist. Tuedda i weled ar y cyfan yn y ffurf Henaduriaethol, yr un agosaf i ysbryd ac addysg y Testament Newydd. Tynodd y fath athrawiaeth, fel y gallesid dysgwyl, erledigaeth drom arno oddiwrth rai o'i frodyr yn yr Eglwys Sefydledig. Yr oedd Dr. Hatch yn gyfaill cywir i Ymneilduwyr; teimlai ddyddordeb mawr yn sefydliad Coleg Mansfield, a chymerai ran yn ngweithrediadau ei agoriad.

Ond y gŵr y parodd ei farwolaeth fwyaf o dristwch synedig, a theimlad o golled bwysig i Eglwys Crist, yn y misoedd diweddaf, oedd y Parch. W. G. Elmslie, M.A., D.D. Bu farw o'r *typhoid fever*, cyn prin gyrhaedd canoldydd bywyd, yn ddim ond 41 mlwydd oed. Tuag un mlynedd ar bymtheg yn ol derbyniodd alwad i fod yn weinidog cynnorthwyol i Dr. Dykes, yn Eglwys Regent Square. Wedi treulio dwy flynedd lwyddiannus yno, yn y berthynas hapusaf â'r eglwys ac â'i gyd weinidog, derbyniodd alwad i fod yn weinidog ar eglwys newydd ei ffurfio yn Willesden, ger Llundain. Llafuriodd yno gyda chymeradwyaeth a llwyddiant mawr am beth amser, pan y symudodd trŵy gael ei benodi yn Athraw mewn Hebraeg yn y Coleg Presbyteraidd. Chwe' blynedd yn ol, etholwyd ef i lenwi Cadair Hebraeg ac Esboniadaeth yr Hen Destament yn y Coleg hwnw, ar yr hwn yn awr y mae Dr. Dykes yn Brifathraw. Cyflawnodd ddyledswyddau y swydd bwysig hon gyda llwyddiant mawr a nodedig. Yr oedd ei ddysgeidiaeth o radd uchel, yn eang a thrwyadl. Yr oedd yn feddyliwr hefyd, cryf, gwreiddiol a doeth. Uwchlaw y cwbl, yr oedd yn cyfuno dysgeidiaeth yr athraw âg athrylith y prophwyd. Gwelodd "weledigaethau Duw," a goleuwyd ef â goleunŵ o "ffynnon y bywyd." Nid oedd neb yn tyfu yn fwy cyflym a sicr nag ef mewn enwogrwydd fel pregethwr. Yr ydoedd fel meddiant cyffredin i bob enwad. Pa le a pha bryd bynag y cyhoeddid ef i bregethu yn Llundain, byddai y capel yn llawn, a'r bobl yn llawn o awydd a dysgwyliad. Yr oedd ei dduwioldeb yn ddwfn a thawel, ei ysbryd yn nodedig o eang a rhyddfrydig, a'i dymher yn dra gobeithiol a siriol o barth i ddyfodol y byd a Christionogaeth. Nid oedd arno ofn ammheuaeth yr oes, ac nid oedd neb galluocach i'w gyfarfod. Hyn, dybygem, oedd ei hynodrwydd penaf—yr oedd *yn ddyn i'w oes* mewn modd arbenig. Nid oedd braidd neb mor anhawdd ei hebgor yn y cyfwng pwysig hwn. Fel y dywed yr Apostol am ddyben yr Ysgrythyr, yr oedd y "dyn Duw" hwn wedi ei "berffeithio," ei gyflawn ddodrefnu *(Saes: "thoroughly furnished")* i waith neillduol ei ddiwrnod, i bregethu gyda nerth ar feddyliau a chalonau, i ffurfio meddyliau a chymeriadau pregethwyr y blynyddoedd dyfodol, ac i "ymladd rhyfeloedd yr Arglwydd" sydd i fod fe allai yn boethach nag erioed, gan orchfygu y gelynion â u harfau eu hunain. Cynnaliwyd cyfarfod yn ddiweddar i drefnu mesurau tuag at gyfodi Tysteb i'w goffadwriaeth—swm penodol tuag at addysgu ei unig fachgen, a'r gweddill at sefydlu

ysgoloriaethau i'w galw ar ei enw, i gefnogi yr efrydiaeth o Hebraeg ac ieithoedd Semitaidd eraill, a llenyddiaeth yr Hen Destament, agored i'r tri enwad. Teimlid na fuasai dim yn fwy cydnaws â'i ddymuniad ef ei hunan. Yr ydoedd wedi cysegru ei fywyd i ysgolheigdod Cristionogol. Wedi gwneyd y sylwadau hyn ar Dr. Elmslie, maddeuir i ni am grybwyll nas gallwn lai na theimlo ein bod, er yn hollol anfwriadol, wrth geisio ei ddarlunio ef, wedi tynu bras ddarlun o un o'n gweinidogion ein hunain yn Nghymru, yr hwn sydd yn dra chyffelyb yn ei gymhwysderau a'i waith, ac sydd yn awr yn anterth ei nerth a'i lafur, ei lwyddiant a'i enwogrwydd. Hir y parhao!

"Gwas da a ffyddlawn" arall sydd wedi myned oddiwrth ei waith at ei wobr yw Dr. Macfadyen, Manchester. Yr oedd iddo safle barchus ymhlith Annibynwyr Lloegr, a bu ychydig yn ol yn llanw cadair yr Undeb Cynnulleidfaol. Ië, oddiwrth ei *waith* yr aeth, ac o ganol ei waith, a hwnw yn waith nid cyffredin o ran swm nac ansawdd. "Gweithiwr difefl" oedd y gŵr rhagorol hwn. Yr oedd yn un o'r gweinidogion sefydlog mwyaf llwyddiannus, fel bugail, a welwyd un amser. Yr oedd ei gynnulleidfa fawr, ei eglwys fawr, ei Ysgol Sabbothol fawr, a'r holl ganghenau a'r gwaith cysylltiedig â hwynt, yn cael eu gweithio gyda manylwch peiriant, bron, gan lu o weithwyr, bid sicr, ond y gweithwyr a'r gwaith o dan ei arolygiaeth fanwl ef ei hunan. Yr oedd yn ymwelwr mawr; ac oni buasai hyny, digon tebyg y buasai yn bregethwr mawr. Pregethai yn dda iawn ac ystyried y gwaith parhaus a wnai yn y cyfeiriadau eraill. Gallai ei fod wedi amcanu rhagori cymaint fel pregethwr ac fel ymwelwr. Ond gweithiodd ei hun i lawr i fedd rhy gynnar; a bu farw o bosibl yn yr ymgais i gyflawni yr anmhosibl.

Rhaid i ni foddloni ar ddim bron ond enwi y lleill. Proffeswr Christlieb, yn Germany, oedd ŵr galluog ac amddiffynwr gwrol i'r gwirionedd. Efe oedd awdwr cyfrol ragorol ar Ammheuaeth ddiweddar, yn yr hon yr ymresyma yn fedrus a nerthol i ddynoethi geudeb ffurfiau diweddaf Anffyddiaeth. Anhawdd cael llyfr o'i faint mwy athronyddol a galluog mewn *Apologetics*. Bu farw hefyd Dr. Eugene Bersier, un o bregethwyr mwyaf hyawdl a phoblogaidd Ffrainc. Robert Browning hefyd a fu farw yn Venice, yn tynu yn agos at bedwar ugain mlwydd oed. Efe oedd bardd mwyaf enwog yr oes hon, yn nesaf at Tennyson. A pheth hynod yw, fod ei briod, yr hon a fu farw er's cryn amser o'i flaen, bron mor enwog ag yntau yn yr un llinell. Yr oedd aml "awdures" enwog yn Lloegr yn yr oes hon; ond yn ol barn rhai cymhwys i farnu, nid oedd ond un "farddones," ac Elizabeth Barrett Browning oedd hono.

Martin Farquhar Tupper hefyd a fu farw, yn ei bedwar-ugeinfed flwydd. Ni raid dyweyd mai efe oedd awdwr y llyfr hynod hwnw—"*Proverbial Philosophy*." Ysgrifenodd gryn lawer; a theithiodd lawer, yn America yn enwedig, i ddarllen ei gyfansoddiadau ei hun. Ond ni lwyddodd mewn dim ond yn yr un llyfr a enwyd. Ond yr oedd y llyfr hwn yn llwyddiant anarferol—y llyfr mwyaf poblogaidd, o'r fath, a gyhoeddwyd un amser. Dygodd i'w awdwr enwogrwydd mawr ac ennillion mawr. Ond dyna sydd yn hynod—yr oedd y dosbarth cyffredin yn hanner-addoli y llyfr, tra yr oedd y beirniaid bron yn ddieithriad yn ei wawdio. Ac nid heb achos yr oedd y naill a'r llall. Y mae y llyfr yn gymysgedd rhyfedd. Y mae yn debyg fod y cwbl sydd ynddo yn wir. Ond y mae dyweyd fod gwahaniaeth rhwng du a gwyn, neu fod tri yn fwy na dau, yn hollol wir. Ac eto pe byddai i rywun gyhoeddi y gwirioneddau diammheuol yna i'r byd mewn arddull ddifrifol, fel dadguddiad y Testament Newydd, neu chwareu arnynt mewn hwyliau barddonol a theimladau gwresog, teimlem yn rhyfedd wrth ei ddarllen. Rhaid addef fod tipyn o hyn yn Tupper. Y mae rhywrai wedi bod mor ddireidus a gwneyd *parody* ar ei arddull, sef dynwarediad gwawdus, rhywbeth yn debyg i hyn:—

"Berries are not cherries, and cherries are not berries:

. . . . . .

I've nothing particular to utter, but I speak after the manner of Tupper."

Ond wedi y cwbl, rhaid addef fod rhyw ragoriaethau yn y llyfr cyfaddas i afael yn meddwl a dychymyg y darllenydd cyffredin—yr *average intellect*. Credwn gyda Dora Greenwell ac eraill fod meddyliau dysglaer a barddonol yma a thraw yn y llyfr, ac ambell wreichionen o'r gwir dân.

Dywed yr *Athenæum* fod yr ysgolhaig Groeg penaf yn Ewrop wedi marw yn ddiweddar.

Bywgraffiaeth.

Y PARCH. MORRIS OWEN JONES, MENAI BRIDGE.

Gan y Parch. WILLIAM ROBERTS, *Bethlehem, Môn.*

Y MAE digon ynglŷn â'r Parch. M. O. Jones yn hawlio iddo goffhâd yn y DRYSORFA. Os nad allwn hŏni ei fod yn un o'r gweinidogion penaf, yn meddu ar alluoedd cryfion a threiddgar, neu yn bregethwr o radd uchel, yr oedd yn un o'r pregethwyr ieuainc mwyaf addawol, yn fugail llwyddiannus ar un o brif eglwysi ein Cyfundeb, ac yn prysur ennill safle bwysig yn ei ddosbarth a'r Cyfarfod Misol.

Cafodd y rhagorfraint uchel o hanu o deulu crefyddol a phregethwrol. Y mae ei dad, y Parch. Richard Owen, Penygarnedd, yn bregethwr cymeradwy, ac yn ddyn o feddwl cryf; ac yr oedd ei daid o du ei fam, y diweddar Barch. Morris Jones, Bethesda—yr Hen Brophwyd—yn bregethwr o gryn hynodrwydd. Hefyd, y mae'r Parch. John Owen, Abergynolwyn, yn frawd iddo. Cynnysgaeddwyd ef â mam neilltuol o egwyddorol a chrefyddol, a phan y byddai ei dad yn gorfod bod oddicartref, gofalai hi am wneyd pob bwlch i fyny. Gwelir yn amlwg y gellir yn briodol ddywedyd am ein brawd ei fod wedi "ei fagu yn ngeiriau y ffydd ac athrawiaeth dda, yr hon a ddilynodd." Treiddiodd bywyd a dysgeidiaeth ei rieni i'w galon a'i ysbryd yntau yn foreu, ac nid oedd yn cofio am unrhyw gyfnewidiad mawr a sydyn yn ei fywyd, yr hyn a fu yn achos o ofid a phryder iddo ar droion; eithr nid oedd yn cofio adeg pan nad oedd ganddo y meddwl mwyaf o Iesu Grist, mai y gwaith uchaf oedd ei wasanaethu ef, ac mai eithafnod ei ddymuniad oedd cael myned ato i'r nefoedd. Y tebyg yw ei fod wedi ei achub cyn erioed ddyfod i ystâd o ymwybyddiaeth. Yn hyn yr oedd yn gyffelyb i Timotheus, am yr hwn y dywedir. "Ac i ti er yn fachgen wybod yr ysgrythyr lân, yr hon sydd abl i'th wneuthur yn ddoeth i iachawdwriaeth, trwy y ffydd sydd yn Nghrist Iesu."

Yr oedd swyn mewn crefydd a'i hordinhadau iddo ef pan yn ieuanc iawn. Nid yn unig dilynai bob moddion o ras gyda chysondeb a blas, ond ymdreiddiai hyn yn naturiol i'w chwareuon; a gwnai gynnulleidfa o'r tŵr plant, troai y clawdd neu graig yn bulpud, a phregethai gyda blas iddo ei hun, a mawr foddhad i'w wrandawyr. Yr oedd y pryd yma yn cymeryd y dyddordeb dyfnaf mewn pregethwyr. Nid yn unig yr oedd yn adnabod pob un yn Sir Fôn, ond gallasai ddywedyd rhywbeth am danynt. Yr un modd am lawer yn Sir Gaernarfon, ac amryw o wŷr dyeithr y Deheudir.

Fel yr oedd yn tyfu n.ewn corff, yr oedd hefyd yn cynnyddu mewn gras a rhinwedd, fel y gellir yn briodol ddywedyd am dano, "A'r bachgen a gynnyddodd mewn doethineb a ffafr gyda Duw a dynion." Erbyn iddo gyrhaedd tua deuddeg oed, yr oedd yn gwylied ac yn canlyn symudiadau y Cyfundeb; nid oedd yn foddlawn erbyn hyn ar glywed a darllen pa fodd yr oedd pethau yn myned ymlaen, eithr yr oedd awydd cryf ynddo am gael bod bellach yn llygad dyst o'r symudiadau. Yr ydwyf yn cofio am un dygwyddiad neilltuol tua'r adeg yma. Yr oedd Cymanfa i'w chynnal yn Llangefni, yn yr hon yr oedd ordeiniad nifer o bregethwyr i gyflawn waith y weinidogaeth, ac yr oedd ei dad yn un o honynt. Daeth ataf i ddyweyd yr holl hanes, beth oedd i gymeryd lle, gan amlygu ei awydd i fod yn bresennol, a chynneuodd yr un awydd ynof finnau am fyned i'r ordeiniad; ond O! yr oedd un anhawsder pwysig ar y ffordd, canys ni oddefid i neb fod yn bresennol yn y fath wasanaeth cysegredig y pryd hwnw, oddieithr eu bod yn swyddogion eglwysig, neu gyflawn aelodau, y rhai a gornelid i ran neilltuol o'r addoldy. Er gwybod yr holl drefniadau cytunasom ein dau fyned, "gan obeithio yn erbyn gobaith." Erbyn cyrhaedd y lle yr oedd gan y swyddogion gyfarfod i fewn ar y pryd, a'r porthorion yn arfer y wyliadwriaeth fanylaf pwy i'w ollwng yno. O flaen y drysau yr oedd nifer lïosog o aelodau yn dysgwyl yn bryderus am ganiatâd i fyned i mewn. Ni welsom yr un bachgen ond ni ein dau, ac ni welsom neb adwaenem chwaith i gymeryd ein cefn. Yn y man rhoddodd yr awdurdod goruchel orchymyn i agoryd y drysau, a gwnaed hyny; ac yr oedd y porthorion eto yn amcanu cyflawni eu gwaith i'r llythyren, gan wylied rhag i'r un ddafad ddu lithro i fewn i lychwino y cynnulliad. Trwy ymwthio i ganol y dorf llwyddais i osgoi eu sylw; erbyn i mi gyrhaedd y sêdd, troais i edrych yn bryderus am fy nghyfaill, ac er fy mawr syndod gwelwn ef mewn dalfa wrth y drws, yn gwingo yn erwin, ac fel pe buasai yn dechre wylo. Nid wyf yn cofio erbyn hyn pa ymdrafodaeth gymerodd le yno. Modd bynag gollyngwyd ef i fewn, ac mae'n sicr na fwynhäodd neb yr ordeiniad hwn yn fwy na ni ein dau. Y mae'n rhyfedd fod un ag oedd wedi treulio ei oes i ddarllen a meddwl cymaint, yn llosgi gan awydd i bregethu, ac yn arwain bywyd diargyhoedd, mor gyndyn i ddechre arfer moddion yn gyhoeddus. Diau mai y rheswm am hyn oedd gwyleidd-dra cynhenid ei natur. I gyfarfod â'r anhawsder hwn a deimlai ef ac amryw eraill, codwyd cyfarfod gweddi i'r bobl ieuainc. O herwydd fy mod wedi dechre er ys peth amser, awdurdodwyd fi yn arweinydd iddo. Trodd allan yn llwyddiannus; daeth amryw ynghyd, a dechreuasant weithio. Cymerodd Morris fantais ar y cyfleusdra, a daeth allan yn weithiwr zelog. Llwyr argyhoeddwyd fi y pryd hwnw nad oedd ond pwnc o amser na cheid ei weled yn y weinidogaeth.

Yr oedd yn amlwg ei fod wedi darllen a meddwl yn galed, a'r gwirioneddau hyny wedi meddiannu a nawseiddio ei enaid, fel yr oeddynt yn dyfod oddiwrtho yn wirioneddau byw, ysbrydol a gafaelgar. Ni chlywsom ddim yn fwy tarawiadol erioed. Heb ymdroi daeth yn fuan i weithio mewn cylchoedd mwy cyhoeddus; a bu i'w ddawn gweddi hwylus a llithrig, gwresog a gafaelgar, dynu sylw yn fuan, a dyfod yn destun siarad; a chyn pen hir yr oedd amryw yn dywedyd yn eglur ac agored mai pregethwr a fyddai, a rhoddwyd annogaethau taerion a chyffredinol iddo ddechreu ar y gwaith, a hyny mewn adeg ag yr oedd yr eglwysi yn llawer mwy gwyliadwrus a phryderus pwy i godi nag ydynt yn bresennol.

Dechreuodd bregethu ar brawf o flaen gweinidogion y sir tua dechre y flwyddyn 1877. Daeth yn bregethwr rheolaidd yn gynnar yn y flwyddyn 1878. Wedi dechre pregethu llanwodd ddysgwyliad uchaf ei gyfeillion. Clywsom un yn gwneyd y sylw canlynol am dano:—"Mae Morris Jones yn hollol gartrefol yn y pulpud." Nid oedd hyn ond peth ellid ddysgwyl oddiwrtho ef, oblegid yr oedd wedi meddwl filoedd o weithiau a breuddwydio dro ar ol tro am gael bod yno. Yr oedd ei galon a'i enaid yno er ys llawer blwyddyn, ac yr oedd wedi cael ymarferiad da pan yn blentyn, ac hefyd yn nghyfarfod gweddi y bobl ieuainc.

Cafodd fanteision addysg lled dda. Yr ysgol gyntaf y bu ynddi oedd ysgol 'Refail Newydd. Un o'r Ysgolion Cenedlaethol yn ol yr hen drefn ydoedd hon, dygid hi ymlaen gan un o'r enw Mr. Henry Parry. Er na byddai Arolygydd ei Mawrhydi byth yn talu ymweliad â hi, na neb arall yn symbylu rhyw lawer ar yr athraw ymlaen, eto, clod i'w enw, gwnaeth waith cydwybodol gyda ni, a chymerai drafferth i'n diwygio mewn moesau, moesoldeb a chrefydd. Cadd gychwyniad yn yr ysgol hon. Yn nechre y flwyddyn 1865 agorwyd yr ysgol Frytanaidd. Yr athraw cyntaf yno oedd Mr. Humphrey Owen. Dyn amhrisiadwy oedd hwn, na welsom neb wnaeth gymaint o'i ôl ar ardal; bu yn foddion i greu cyfnod newydd yn Mhentraeth mewn dysgeidiaeth, cerddoriaeth, moesoldeb, a chrefydd. Nid oes ddadl nad iddo ef yn benaf y dylid priodoli fod cymaint o ddynion cyhoeddus gyda chrefydd wedi codi yn yr ardal hon yn ystod yr ugain mlynedd diweddaf. Bu fy nghyfaill o saith i wyth mlynedd o dan ei addysg, ac yr oedd cael bod am gyfnod mor faith o dan addysg ac yn nghymdeithas dyn o gymeriad mor bur ag ef, yn ddiwylliant moesol yn gystal ag addysgol o'r fath oreu. Bu am ychydig yn gloewi ei arfau cyn myned i'r Bala gyda'r Parch. E. Cynffig Davies, B.A., Menai Bridge. Yn Awst, 1878, aeth i Athrofa y Bala. Gweithiodd yn gydwybodol tra y bu yno, a safodd yn anrhydeddus yn yr arholiadau; eithr o herwydd llesgedd corff orol, gorfu iddo roddi pob peth i fyny a dyfod gartref ymhen y ddwy flynedd.

Arosodd yn Mhenygarnedd am tua phedair blynedd; ac er nad oedd gysylltiad neilltuol rhyngddo â'r eglwys, gwnaeth waith gweinidog yn ngwir ystyr y gair. Llafuriodd yn egnïol a chyson gyda'r ieuenctyd, felly cododd dô o bobl ieuainc lafurus a meddylgar, a daeth amryw o honynt i sylw yn yr Arholiadau Sirol. Yr oedd yn felus yn y cynnulliadau eglwysig, a'i ymweliadau â'r hen a'r methedig yn ddymunol a chymeradwy. Bu hefyd yr adeg yma yn ymweled yn wythosol â chyfarfodydd eglwysig Gilead, ac meddai yr hen frawd Mr. Thomas Evans ddiwrnod ei angladd, "Pe y buasem yn medru ei gadw cawsai aros acw am ei oes." Ordeiniwyd ef i gyflawn waith y weinidogaeth yn Llangefni, Mehefin 1882.

Gan ei fod yn parhâu yn lled wanaidd ei iechyd, a Phenygarnedd mor bell oddiwrth gyfleusderau teithio, symudodd yn 1884 i Menai Bridge. Pan ddeallodd cyfeillion Penygarnedd ei fod yn bwriadu eu gadael, teimlasant eu dyledswydd i ddal eu gafael ynddo, ond gwrthododd yntau yn bendant aros o herwydd y "swmbwl yn y cnawd" oedd yn ei flino. Eithr bu iddynt yn briodol iawn ei anrhegu âg amryw gyfrolau o lyfrau gwerthfawr.

Yn Ebrill 1885 priododd gyda Miss Owen, merch henaf Mrs. Owen, Cemmaes, yr hon mewn gwirionedd a fu iddo yn "ymgeledd gymhwys." Nid oedd eglwys y Borth, o herwydd rhesymau neilltuol, yn agos mor fanteisiol a llawer lle i bregethwr ieuanc ddyfod ymlaen yn allu a dylanwad ynddi; ond yr oedd ein hanwyl frawd yn meddu ar y fath gyfuniad dymunol o ragoriaethau, fel ag y buasai yn ennill cymeradwyaeth gyffredinol ymha le bynag y preswyliai. Nid hòni awdurdod a dylanwad y byddai, ond ei ennill yn raddol a sicr, heb geisio ac heb wybod i neb. Meddiannodd galonau pob dosbarth o gymdeithas yn y lle.

Yr oedd cariad at Iesu Grist yn dân sanctaidd yn ei galon, fel na allai fod yn llonydd. Yr oedd llygaid ynddo i ganfod gwaith, ac yn gymhelliad ac yn ysbrydiaeth ynddo i'w gyflawni. Dechreuodd yn ddirodres a gwylaidd, trwy gadw cyfarfod darllen gydag ychydig bobl ieuainc. Yr oedd sirioldeb cywir ei natur yn ei wneyd yn gymeriad dymunol iawn ganddynt, fel yr oeddynt ar unwaith yn teimlo yn hollol gartrefol yn ei gymdeithas. Parchai bob un, talai sylw mawr i'r mwyaf eiddil, a gwerthfawrogai bob egni, fel y byddai y llesgaf yn teimlo ei fod yn rhywun, ac yn derbyn lles oddiwrtho. Parotöai lawer ar eu cyfer, darllenai y llyfrau goreu, meddyliai yn ddwys, ac ni adawai yr un gareg heb ei throi er mwyn cymhwyso ei hun goreu gallai ar eu cyfer. Meddai ar drefn eglur a deheurwydd mawr i draethu ei feddwl yn hollol ddealladwy i'w ddysgyblion, ac yr oedd ganddo y fath ystor o amynedd a dyfalbarhâd fel yr äi ymlaen yn dawel trwy bob rhwystrau. Ni chymerai ei ddigaloni gan ddim. Cwynai un brawd ieuanc wrtho unwaith ei bod yn lled ddigalon

arnynt, gan na ddaeth ond ychydig ynghyd, a'i atebiad iddo ydoedd: "Ni ddigalonaf, pe na buasai ond *un* yma. Ystyriwn fy mod yn gwneyd gwaith boddhaol pe ond cychwyn yr un hwnw i feddwl ac ymdrechu yn yr iawn gyfeiriad." Nid yn unig yr oedd sirioldeb dymunol yn ei natur, ond yr oedd ynddo hefyd ddifrifwch dwfn, fel y teimlai y bobl ieuainc rhyw ddylanwad moesol a chrefyddol nerthol yn ei gymdeithas. Rhwng pob peth swynodd yr ieuenctyd, ennillodd eu hymddiried, dilynent ei gyfarfodydd gyda zel, a chawsant flas ar lafurio, a bendith gydag ef. Wrth ei weled yn gwneyd gwaith mor effeithiol torwyd mwy o waith iddo. Yr oedd pob peth yn llwyddo o dan ei ddwylaw. Bu yn gweithio fel hyn am flwyddyn cyn cael ei alw yn fugail yno. Ond teg yw hysbysu fod yr eglwys y pryd hwn yn gwerthfawrogi ac yn cydnabod ei lafur.

Dawn werthfawr iawn ynddo oedd gallu i gydymdeimlo â'r profedigaethus a'r tlawd. Yr oedd hon yn elfen mor gref ynddo fel nas gallasai fyned ymlaen gyda'i efrydiau nes ymweled â hwy can gynted ag y clywai am danynt. Gallasai daflu ei hun i'w hamgylchiadau. Effeithiai ei ymweled arnynt i feddwl yn well o Dduw, ac ymddiried yn llwyrach yn ei drefn. Os cai allan eu bod mewn anghen,—a'r gŵyn ni wyddai a chwiliai allan,—darparai ar unwaith i estyn ymwared iddynt. Wrth sylwi arno ef yn gwneyd cymaint, teimlais fwy o nerth yr hen ddiareb nag erioed: "Lle y mae ewyllys y mae ffordd."

Ennillai gymeradwyaeth pob dosbarth, am mai nid dyn plaid ydoedd, ac yn gwneyd y cwbl o rai, gan esgeuluso y lleill. Yr oedd ganddo allu neilduol i beidio gwneyd gelynion iddo ei hun; a gallu gwerthfawr yw, oblegid fe all un gelyn daflu ei lysnafedd gwenwynig i feddyliau llawer. Y mae'r gweinidog o dan orfod i ymwneyd â phob math o gymeriadau, ac ambell un, heb wir achos, yn ymddwyn yn lled anefengylaidd tuag ato. Fe allai fod gormod o duedd mewn ambell i weinidog i dalu y pwyth yn ol; ond am Mr. Jones nid oedd dim o hyn ynddo ef, eithr dyoddefai yn dawel heb gymeryd arno o gwbl. Ymddangosai mor siriol gyda hwy â neb, ac hyfrydwch calon ganddo fyddai gwneyd rhyw gymwynas iddynt. Gwnai bobpeth allai, yn ol esiampl ei Athraw, er mwyn llesâd eraill. Mab tangnefedd ydoedd, ac äi heibio i amgylchiadau yn dawel, y buasai llawer un ar unwaith yn cyhoeddi rhuthr a rhyfel ynddynt. Pan y byddai galw yr oedd yn digon gonest a chydwybodol i "rybuddio yr afreolus;" ond gwnai hyny yn y fath fodd a chyda'r fath ysbryd, nes argyhoeddi pawb rhesymol mai eu lles hwy fyddai wrth wraidd y cyfan.

Er ei fod yn gymeriad dymunol gan bawb, eto yr oedd ganddo ei gyfeillion, ei Bedr, ei Iago, ac Ioan. Arferai ofal mawr yn newisiad ei gyfeillion neilduol; meddai graffder i ddeall cymeriadau; a phan yr argyhoeddid ef fod elfen au cyfaill mewn un, ymollyngai mor rydd a phlentyn gyda'r cyfryw. ac ymddiriedai lawer iddo. Byddai yn sior o ddyfod â chrefydd a'r achos mawr i'r bwrdd gyda'i gyfeillion, a pha fodd i'w ddwyn ymlaen yn y modd goreu. Yr ymholiadau cyffredin ganddo fyddai y pethau a ganlyn:—"Pa beth sydd genych yn awr gyda'r plant a'r bobl ieuainc? Pa fodd yr ydych yn myned ymlaen? Pa fath gyfarfodydd eglwysig ydych yn gael? &c." Onid dangoseg oedd hyn o ddirgelion ei galon? Yr oedd ei gymdeithas yn foddion gras. Yn wir, yr oedd pawb o'i gwmpas yn teimlo ei fod yn dduwiol. Yr oedd yn credu mewn *gweddi*. Ni fentrai byth i unrhyw gyfarfod crefyddol, nac i'w ymweliadau bugeiliol, heb yn gyntaf ymneillduo i ddal cymdeithas â'i Dad nefol. Ac amlwg oedd fod hyn yn troi yn nerth ac yn eneiniad ar ei waith cyhoeddus. Ysgrifenai Mr. Hugh Williams, Menai Villa Terrace, Borth, am dano:—"Nid oedd ammheuaeth yn meddwl neb yn y Borth am ei dduwioldeb." Beth sydd yn newydd yn hyn? oni wyddai y wlad oll mai gŵr duwiol ydoedd? Geill fod mwy ynddo, er hyny, nag sydd yn ymddangos ar yr olwg gyntaf. Mae'n bosibl i bregethwr fyned yn uchel yn nghyfrif ei wrandäwyr ar y Sabbath, bod mewn hwyl ac ysbryd da yn traddodi, a myned gartref heb i chwi ganfod ei wir gymeriad. Eithr gadewch i'r un gŵr ddyfod gartref, a bydd cyfleusderau i chwi i'w weled yn byw ei bregeth, a chwi ddeallwch fod gwahaniaeth rhwng y bregeth a'r bywyd. Fe allai mai "gwybedyn" fydd y coll; ïe, ond un marw er hyny, yr hwn a sawra ddrwg arogl ar bob enaint arall o'i eiddo. Nid un felly oedd ein brawd ymadawedig. Yn ei gartref y gwisgai ef ei wisg oreu. Gyda'r cyfryw gymeriad yr oedd yn allu cryf ymhob cyfeiriad."

Yn nechre y flwyddyn 1887 teimlodd eglwys y Borth fod yn llawn bryd iddi bellach roddi galwad ffurfiol iddo yn fugail arni. Ar y mater hwn dywed llyfr *Hanes y Methodistiaid Calfinaidd yn Borthaethwy*:—"Yn y gwanwyn, 1887, symudwyd drachefn i gael gweinidog i fugeilio yr eglwys. Ar Ebrill yr 20fed, cymerwyd llais yr eglwys gyda golwg ar gael bugail, a phasiwyd i gael un. Nos Fercher, Gorpnenaf 13eg, daeth swyddogion dros y Cyfarfod Misol i dderbyn llais yr eglwys gyda golwg ar y person yr oeddynt yn ei alw i'w fugeilio, a chafwyd mwyafrif mawr yn rhoddi galwad i'r Parch M. O. Jones, yr hwn oedd yn preswylio yn ein mysg. A Nos Wener, Medi 9fed, 1887, cynnaliwyd cyfarfod sefydliad Mr. Jones, yr hwn a lywyddwyd gan Richard Davies, Ysw., Treborth, Arglwydd Raglaw Môn. Gorweddodd y dewisiad yn esmwyth ar feddyliau yr eglwys, ac yr oeddynt yn addaw dyfodol hapus iddynt eu hunain. Eithr cyn pen y flwyddyn torodd ei nerth i lawr. Bu yn nychu am rai misoedd. Dangosodd y swyd logion, yr aelodau, ynghyd a'r gynnulleidfa yn gyffredinol, ofal a charedigrwydd neilduol tuag ato yn ystod ei waeledd. Pan aethum yno i ymweled âg ef dywedai yn dawel ac ymostyngar:—"Yr wyf yn

teimlo fy hun yn prysur fyned; ond o drugaredd yr wyf yn gwybod i ba le. Yr wyf yn gorfod claddu llawer o obeithion. Un o'r pethau mwyaf anorchfygol i mi yw caredigrwydd y bobl yma, o'r mawr i'r bychan. Buasai yn dda genyf gael gwella i'w gwasanaethu yn fwy ffyddlawn nag erioed."

Yr oedd ei afiechyd yn un twyllodrus iawn. Ychydig ddyddiau cyn ei ymadawiad teimlai ychydig yn well, a meddyliai ei fod am gael iachâd gwyrthiol, ond pan y teimlai ei hun yn gwanychu drachefn, syrthiodd i gryn ddigalondid. Ond yn ei amser da ei hun, anfonodd Duw genadwri o'r byd ysbrydol i gyhoeddi dyddanwch i'w enaid—"Ha fab, cymer gysur, maddeuwyd i ti dy bechodau." Ar hyn torodd allan mewn llawenydd a gorfoledd, ac mewn mwynhad o'r llawenydd hwn yr ehedodd ei ysbryd i lawenydd perffaith a thragywyddol ei Arglwydd, gan dawel adael ei ffyddlawn briod a Grace bach i ofal "Tad yr amddifad a Barnwr y gweddwon."

Bu farw boreu Sadwrn, Hydref 27, 1888, yn ddeuddeg ar hugain oed. Hebrynwyd ei weddillion y dydd Mercher dilynol i Fynwent Llandysilio.

MR. GRIFFITH JONES, CEFNMASOGLEN, LLANGAFFO, MON.

Gan y Parch. HUGH ROBERTS, *Rhydymain.*

Y CYMERIAD y dymunwn wneyd ychydig o sylwadau coffadwriaethol am dano ydyw y diweddar Mr. Griffith Jones, Cefnmasoglen, Llangaffo, Môn,—amaethwr cyfrifol, oymydog caredig, a Christion cywir, yr hwn a ymadawodd â'r fuchedd hon Mawrth 15, 1889, yn 79 mlwydd oed, am y wlad dda, gwlad yr hedd a'r perffeithrwydd. Yr oedd yn gymeriad hollol ar ei ben ei hun, â llawer o bethau dymunol a gwerthfawr ynddo; ar ryw ystyr yr oedd yn meddu ar nodweddion y môr ynddo ei hun. Yr oedd wedi ei eni a'i fagu yn Clynnog, ar lan y môr, ac wedi derbyn o'i ddelw. Gallai mai y peth cyntaf a'ch tarawai wrth edrych arno oedd y garw, y cuchiog, a'r ofnadwy; ond pe caffai amynedd ei pherffaith waith gyda chwi, deuai yr hyn a gynnyrchai ymddiried ynddo i'r golwg, a chyn hir ymddangosai yr hyn a barai i chwi ei hoffi, sef y teg a'r caredig. Yr oedd yn ddyn ffyddlon i'w gyfeillion, ac ni welid diwedd ar ei garedigrwydd. Yr oedd yn ffyddlon gyda chrefydd, ac yn garedig wrth weinidogion yr efengyl. Yr oedd ei dŷ yn agored bob amser iddynt. Cafodd ar un adeg o'i oes argyhoeddiad dwfn—argyhoeddiad a fygythiai ei dafiu yn anobeithiol bell oddiwrth Dduw a chrefydd. Yn ei argyhoeddiad credai yn ddiysgog yn ei euogrwydd ger bron Duw, gan hyny fod yn rhaid i Dduw ei gosbi. Taflai y bai a'r cwbl wrth ddrws Duw, oblegid iddo oddef ei ddwyn i'r cyfiwr drwg yr oedd ynddo. "Fe wyddai efe," ac "Fe allasai yn hawdd rwystro," oedd y ddau feddwl drwg oedd yn peri iddo roddi y drwg wrth ddrws Duw. Yr oedd Duw yn gofyn peth ganddo, ac yn gwybod wrth wneyd nad oedd ganddo y cymhwysder lleiaf i'w gyflawni, ac yn ei gosbi am byth â chosbedigaeth ofnadwy am beidio. Oblegid y meddyliau celyd hyn am Dduw bu yn teimlo mor bell ag i'w felldithio yn ei galon. Credai nad oedd yn Dduw da.

Yr adeg yna ar ei fywyd methai yn ei fyw a chadw allan o swn y moddion. Un bore yr oedd y Gymdeithasfa i fod yn Pwllheli. Gofynai i'w feistr, yr hwn oedd yn ŵr boneddig ac yn Eglwyswr zelog, a gai ef fyned am dro y diwrnod hwnw (ni ddywedai i ba le); pe buasai yn dyweyd i ba le gallasai na buasai y gŵr boneddig yn foddlawn. "Cei," oedd yr ateb, "a chymer un o'r ceffylau danat, os wyt ti yn myned ymhell." Cymerodd y ceffyl goreu am fyn'd oedd ganddo, ac ymaith âg ef i Bwllheli, lle yr oedd tyrfa lïosog ar y maes, a'r Parch. Morgan Howells yn codi i fyny i bregethu. Mater pregeth Morgan Howells oedd fod Duw yn un da. Yr oedd y pregethwr yn pregethu yn oleu, ac yn bwyllog, ac yn ymresymiadol. Nid oedd fel un yn cael hwyl fawr, a'r gynnulleidfa yn ysgwyd fel coedwig o flaen cawod o wynt; yr oedd pobpeth yn ddigon dystaw ond dwys. Yn tori yn sydyn ar y dystawrwydd yna, wele ŵr ieuanc cryf yr olwg arno yn rhoddi y waedd fwyaf dyeithriol. Nid gwaeddi "Diolch!" yr oedd, fel y byddai rhai yn y diwygiadau, wedi iddynt deimlo eu hunain yn rhyddion trwy drefn gras: ond gwaeddi fel dyn yn gweled golygfa ddigyffelyb; ac erbyn edrych, golygfa ddyeithr ac annysgwyliadwy oedd hi i ddyn o'r sefyllfa meddwl yr oedd ef ynddi. Yr hyn a welodd ef, megys fflachiad haulwen rhwng cymylau duon, oedd *fod Duw yn un da.* Rhyw gipolwg a gafodd ef. Fe'i gwelodd ef mor dda, fel yr oedd dan demtasiwn i feddwl nad oedd neb arall erioed wedi cael y fath olwg arno. Gofynai cyfeillion a pherthynasau Mrs. Jones iddo, yr hon y bwriadai ei phriodi y pryd hwnw, ar eu ffordd o'r maes, sut yr oedd ef: "Tewch a siarad â fi, bobol, *y mae Duw yn un da!*" meddai. "Ydi, Griffith Jones bach, y fo sydd yn rhoddi pob peth i ni, fel yr oedd y pregethwr yn dyweyd." "Ië, ond welsoch chwi mono fo," meddai, ac ymaith âg ef i rywle ar ei ben ei hun, i syllu ac i feddwl uwch ben yr olygfa fendigedig. Caed ef mewn dagrau yn methu rhoddi cyfrif iawn am dano ei hun, a rhywun oedd yn gwybod yn dda oddiwrth ei ddolur yn dyweyd wrth y rhai oedd mewn dyryswch yn ei gylch, "O! gadewch iddo, fe ddaw ef ato ei hun ar ol hyn." Ni fu byth yr un deimlad ar ol hyn, er y byddai yn cael ei fiino trwy ei oes gan ammheuon ac ofnau. Effeithiodd ar ei holl natur.

Bu yn hir cyn dyfod o hyd i'r sylfaen gadarn y gallai yn ddiogel bwyso arni. Yr oedd wedi bod wrthi hi yn ddyfal yn profi pob rhan o'r sylfaen. Nid yn gymaint er ychwanegu ei wybodaeth, ond er cael gwybod a oedd y sylfaen yn *sound.* O dipyn i beth, trwy gael yoh-

ydig o oleu fe ddaeth o hyd i reswm oedd yn ei foddhau bron ar bobpeth. Siaradai am yr Iawn a'r ffordd i gadw fel y duwinydd mwyaf ysgolheigaidd a chraff, er nad oedd erioed wedi darllen awduron i'r pwrpas Ni chafodd ei hun ar brydiau yn rhydd oddiwrth ofnau y gosb, ac ammheuon. Wrth wrando pregeth byddai yn cael glàn ar y cwbl am amser maith, os cyffyrddid yn ysgafn â hen argraff Pwllheli; a phob amser pan y cai y cyffyrddiad nis gallasai ymattal rhag rhoddi y waedd. Rhoddai bwys mawr fyth ar *weled*. Nid oedd yn credu fawr mewn pregethwr os na chai ef weled rhywbeth trwyddo, ac nid oedd waeth ganddo pwy fuasai yn pregethu os cai ef weled trwyddo. Buasai eisieu ôl *gweled* ar y bregeth hefyd. Yr oedd ganddo feddwl tyner am ei gymydogion oedd heb fod yn proffesu, ond yr oedd ei gariad yn fawr at y rhai y credai eu bod yn dduwiol. Yr oedd yn ddeheuig gyda'r byd, ac yn zelog gyda chrefydd; ac ofer yw dyweyd fod colled ar ol rhai fel hyn.

Llofion.

RHIFEDI YR IUDDEWON YN NGWLAD CANAAN.

Ymddengys fod yr Iuddewon yn dychwelyd i'w gwlad, er nad ar unwaith. Y mae y boblogaeth Iuddewig yn Jerusalem yn awr yn lliöscach na Christionogion a Mahometaniaid ynghyd. Dywed Esgob Blyth, tra nad oedd ond 15,000 o Iuddewon yn holl wlad Canaan ddeuddeng mlynedd yn ol, fod yn awr 25,000 yn Jerusalem yn unig, a dim llai na 60,000 yn holl Palestina.

GEIRIAU Y DOETHION.

Pe *gwyddai* yr ieuanc! Pe *gallai* yr hen!
Diogi yw bedd dyn byw.
Yr unig bris a all brynu cariad yw cariad.
Sieryd euogrwydd pe elai tafodau o arferiad.
Rho i bob dyn dy glust, ond i ychydig dy lais.
Y mae Duw yn estyn pethau i ni, a hyny â'n dwylaw ein hunain.

Cronicl Cenadol.

TYSTIOLAETH UN O HEN GENADON YR EGLWYS RYDD AM Y GWAITH CENADOL YN KHASIA.

Mewn rhifyn blaenorol rhoddasom ran o anerchiad a draddodwyd gan y Parch. K. S. Macdonald, M.A., yn Calcutta, ac a argraffwyd yn un o bapyrau y ddinas hono, yn rhoddi ychydig hanes am ei ymweliad â Bryniau Khasia. Cyhoeddodd Mr. Macdonald ddwy erthygl ar Khasia mewn newyddiadur arall, sef yr *Indian Standard*. Diau mai da fydd gan ein darllenwyr gael rhai dyfyniadau o'r ysgrifau hyny, er mwyn gweled pa fath argraff a gafodd ei ymweliad â'n maes Cenadol ar ŵr o'r fath safle a'r fath brofiad yn y gwaith.

"Wrth gymeryd i ystyriaeth yr amser a'r draul, nid rhyfedd mai ychydig o breswylwyr Calcutta sydd yn gwneyd eu ffordd i'r gorsafoedd iachus a phrydferth ar Fryniau Khasia, ac nad oes ond ychydig hyd yn nod o genadon yr Henaduriaethwyr yn Bengal erioed wedi ymweled â'u brodyr tra llwyddiannus sydd yn llafurio ymysg y Khasiaid. Er fy mod yn teimlo dyddordeb yn y cenadaethau hyn er's chwarter canrif, y mis diweddaf y gellais am y tro cyntaf gael pethau yn gyfleus i ymweled â hwynt. Ac yn awr, ar ol bod, byddai yn dda genyf hysbysu yr argraffiadau a wnaed arnaf yn ystod yr ymweliad, yr hwn a barhaodd am dair wythnos.

Y FANTAIS O GRYNHOI LLAFUR CENADOL.

Yr argraff gyntaf a ddygwyd yn ddwys iawn i fy meddwl ydoedd y fantais o gryn hŏad. Canlyniad oedd yr argraff yma nid yn gymaint o'r hyn a welswn fy hunan yn Mryniau Khasia, ond oddiwrth gyferbynu gwaith y Genadaeth yn Khasia â'r Genadaeth gymydogaethol yn Assam, yn Nyffryn Brahmaputra, a'r bryniau cyfagos.* Mae y ddwy Genadaeth wedi bod tua'r un faint,—rhyw chwech o Ewropeaid ar gyfartaledd yn gweithio yn y naill a'r llall dros dymmor o hanner can' mlynedd. Dechreuwyd Cenadaeth Assam yn 1836, un Khasia yn 1840. Mae y flaenaf yn gweithio mewn maes sydd yn 260 o filldiroedd o hyd, fel yr ehed y frân, 30,000 o filldiroedd ysgwar mewn arwynebedd, ac yndo 2,330,000 o drigolion, yn cynnwys pob amrywiaeth o lwythau, cenedloedd a chredŏau. Cymer y Genadaeth arall diriogaeth nad yw ond pedwar ugain milldir o hyd, 6000 o filldiroedd ysgwar mewn arwynebedd, yn cael ei phreswylio gan un llwyth yn rhifo 170,000, o'r un hiliogaeth, iaith, arferion, ofergoelion a chredo. Yr oedd gan y Genadaeth leiaf, sef yr un yn Khasia, yn 1886, 3502 o aelodau, y rhai ydynt erbyn 1889 yn 5196, gyda 3213 yn ei hysgolion dyddiol, a 4290 yn ei hysgolion Sabbothol.† Mae y rhai hyn oll, gydag ychydig eithriadau, yn Khasiaid. Mewn cysylltiad â'r Genadaeth arall yr oedd ar yr un adeg 1775 yn yr eglwys (yn cynnwys 1363 Garos, 143 Kolhs, 92 Assamese, 63 Rabhas, 51 Nagas, 43 Mikirs a Bengaliaid, Burniaid, Telegus, Ewropeaid (yn siarad o leiaf hanner dwsin o ieithoedd gwahanol), a 1152 o ysgolheigion. Mae y rhai hyn mor wasgarog a'r gorsafoedd mor anhygyrch fel na ddarfu i'r Ewropeaid cy-

* Cenadaeth yr *American Baptist Union*.

† Fe welwyd, wrth yr Adroddiad diweddaf, fod mewn cysylltiad â'r Genadaeth yn Khasia *cyn* pen hanner can' mlynedd, 4197 yn yr Ysgolion Dyddiol a 7364 yn yr Ysgolion Sabbothol.

sylltiedig â'r Genadaeth (hyny yw y cenadon) yn ystod yr hanner can' mlynedd erioed gyfarfod â'u gilydd mewn cynnadledd, oddieithr yn mlwyddyn Jiwbili y Genadaeth. Os bydd i un o'r cenadon hyn fethu o herwydd afiechyd, a gorfod myned ymaith, mae ei gymydog agosaf mor bell fel nas gall roddi unrhyw gynorthwy, a gadewir yr orsaf i bob pwrpas heb unrhyw arolygiaeth, fe allai am flynyddoedd, fel yr oedd Gowhati ei hunan. Mae y gwaith yn Khasia, ar y llaw arall, wedi ei grynhoi yn y fath fodd fel y gall cenadwr edrych ar ol cenadaeth ei gymydog yn ystod ei absennoldeb, ac y mae yr iaith yr un a'r bobl yr un. Wrth daflu fy llygaid dros ran helaeth o India, tybiaf fod mod yn gallu canfod nifer o genadaethau eraill, heblaw un Assam, yn y rhai y byddai yn fanteisiol ar bob cyfrif gwneyd y cais yma at gydgrynhoad. Nid oes genyf un ammheuaeth yn fy meddwl fy hunan pe buasai ein brodyr perthynol i Genadaeth Assam wedi cydgrynhoi eu nerth ar y Garos, llwyth nad yw i gyd ond 85,000, y buasai ganddynt erbyn hyn aelodaeth eglwysig yn eu mysg o bump neu chwe' mil o leiaf, os na buasai yr holl lwyth yn wir erbyn hyn wedi ei ddwyn drosodd, gan nad yw ond hanner rhifedi y Khasiaid. Nid oes genyf un ammheuaeth fod y ffaith fod Cenadaeth Assam wedi cymeryd i fyny y Nagas, sydd yn rhifo 95,000, a'r Mikirs, sydd yn rhifo 77,000, wedi cadw rhyw Gristionogion eraill rhag ymgymeryd â cheisio eu hefengyleiddio. Mae y Khasiaid yn gorwedd rhwng y Garos a'r Nagas. Os oedd y Garos yn rhy fychan iddynt, gallasent ychwanegu Dyffryn Assam o Dhubri i Gowhati, yr hwn a derfynir ar yr ochr ddeheuol gan fryniau Garo a bryniau Khasia. Dyna'r meddyliau y myfyriwn arnynt fel y teithiwn i fyny Bryniau Khasia, ar ol ymweled â gorsaf Cenadaeth Assam yn Gowhati, gyda'i chenadwr gallog sydd yn cael ei orweithio.

SHILLONG.

Ar ol cyrhaedd Shillong y peth cyntaf a'n tarawai, ar ol i ni edmygu yr olygfa brydferth, mor debyg i olygfeydd Ysgotland, oedd ymhob man o'n hamgylch, oedd yr eglwys (y capel) eang a chadarn a goronai y bryn ar ba un y mae pentref Mawkhar wedi ei adeiladu. Saif Shillong, fel Rhufain, ar "saith" o fryniau, ac y mae fel Jerusalem wedi ei hamgylchu gan fryniau; ond yn annhebyg i'r ddwy ddinas yma, nid oes ganddi unrhyw unoliaeth ymddangosiadol ei bod dan un gorfforiaeth. Cynnwysa amryw bentrefi, y rhai ydynt beldder amrywiol oddiwrth eu gilydd. Mawkhar ydyw y mwyaf o'r rhai hyn, ac y mae i fesur mawr yn Gristionogol. Mae y capel, gyda'i furiau ceryg a'i dô haiarn a'i golofnau, yn ddigon eang i gynnwys tua deuddeg cant o bobl, neu, os bydd taro bedwar cant ar ddeg, a gwelsom o bump i chwe' chant yn bresennol y ddau Sabboth yr oeddym ni yno. Adeiladwyd y capel âg arian a gyfranwyd yn y lle, yn benaf trwy danysgrifiadau neu roddion o eiddo y Khasiaid eu hunain. Cyfranant yn haelionus yn ol eu gallu cyfyng iawn; rhoddant yn ddirwgnach; rhoddant y fath waith ag a allant yn eu horiau segur; deuant yn rheolaidd iawn i'r cyfarfodydd crefyddol, ac y maent yn cymeryd rhan weithgar, zelog a deallus yn y gwasanaeth yn ol eu gallu.

Pan ystyriwn eu bod hanner can' mlynedd yn ol ymysg y rhai iselaf o holl lwythau India, eu bod yn gwbl anllythyrenog, eu hiaith heb ei rhoddi mewn ysgrifen, prin y gallem gredu mai Khasiaid oedd y bobl a welem yn gynnulledig o'n blaen, wedi eu gwisgo yn weddus a glanwaith, yn canu yn galonog, neu yn gwrandaw yn astud, a phob un yn darllen o'i lyfr neu ei llyfr.

DYSGYBLAETH EGLWYSIG YN KHASIA.

Rhoddwyd argraff ddwys ar fy meddwl, gan ddysgyblaeth y Genadaeth a'r eglwys yn Khasia. Cyfeiriasom at y cyfarfodydd mawrion a lïosog a gynnelir ar ddyddiau yr wythnos, ac ar y Sabboth. Ni ddarfu i mi holi pa fodd y llwyddir i gael y fath niferi mawrion i ymgynnull mor rheolaidd; ond yr oedd yn amlwg mai nid gorfodaeth neu ofn oedd y brif elfen. Yr oedd yr holl gyfarfodydd yn galonog, bywiog, a zelog. Yr oedd serchiadau y bobl wedi eu hennill. Nid oedd y cyfarfodydd yn drymaidd, diflas neu ddifywyd. Mae y Khasiaid yn siriol, llawen a chwareus. Nid yw eu cyfarfodydd yn tarfu nac yn attal y nodweddion diniwed hyn. Nid oes yno ddim prudd-der na chwynfan. Nid wrth ddim a welais yn y cyfarfodydd hyn y tarewid fi gan bresennoldeb dysgyblaeth, er fod yn yr oll o honynt barch, gweddusder a threfn.

Yr oedd y ddysgyblaeth a dynai fy sylw yn dwyn cysylltiad â phedwar o bethau:— (1), diodydd meddwol; (2), y Sabboth; (3), y prawf a roddir ar ymgeiswyr; (4), y chwareuyddiaeth cenedlaethol (cydymgais mewn saethu). Gyda golwg ar y ddiod feddwol, er esiampl, nid yn unig y mae llwyrymwrthodiad yn cael ei ddysgu a'i argymhell, ond rhoddir cymaint o bwys arno fel y mae yn ammod aelodaeth. Pwy bynag a geir yn profi dyferyn, cyll ei aelodaeth. Tynir ei enw allan o'r llyfr. Mae yr holl genadon, yr holl gynorthwywyr, yr holl aelodau, yn llwyrymwrthodwyr oddiwrth bob math o ddiodydd meddwol. Yr wyf yn meddwl y gallai cenadaethau eraill gymeryd addysg yn y peth hwn gyda mantais i bawb y maent a wnelont â hwynt. Yr un fath gyda golwg ar gadw y Sabboth. Nid yn unig cymerir y dydd i fyny yn llawn gan gyfarfodydd crefyddol, foreu, hwyr, a chanolddydd, ond gofelir am gadw y pedwerydd gorchymyn yn hollol lythyrenol. Lle y teimlir hyn fwyaf ydyw gyda'r farchnad a gynnelir bob wyth niwrnod. Mor bell ag y gellir dywedyd fod gan y Khasiaid eu hunain wythnos o gwbl, wythnos o wyth niwrnod ydyw, ac nid o saith. Bob wyth niwrnod y cynnelir eu marchnad. Y canlyniad ydyw fod y farchnad yn syrthio weithiau ar y

Sabboth, ac os gwaherddir i'r Cristion fyned i'r farchnad ar y diwrnod hwnw, fel yn sicr y gwneir, ni bydd y pryd hwn yn cael marchnad am un niwrnod ar bymtheg,—colled ddirfawr, gan mai yno y gwneir pob prynu a gwerthu, yr adnewyddir ac y cyfnerthir cyfeillgarwch, &c. Dydd y farchnad yw diwrnod mawr cynnulliad y llwyth. Ond pan y cymer le ar y Sabboth, rhaid i bob Cristion hunanymwadu, ac yn gyffredin ddyoddef llawer o golled arianol. Nis gall ac ni wna y cenadon ildio; ond y maent yn gobeithio, ymhen amser, gallu newid y farchnad i gael ei chynnal bob saith niwrnod, gyda'r cyntaf o'r Sabbothau heb yr un farchnad. Yn bresennol, y mae wyth o fanau canolog ac ä y farchnad iddynt ar gylch. Byddai yn rhaid rhoddi i fyny ddau o'r rhai hyny, a dwyn nifer y lleoedd i chwech, os nad ellid cynnal y farchnad mewn dau le ar unwaith.

Y drydedd esiampl o'r manylder at ba un y cyfeiriais ydyw, y prawf maith a thrwyadl y rhaid i ymgeiswyr fyned dano. Estyna, fe ddywedir i ni, yn fynych dros flynyddoedd; ond yr oedd ei natur a'i nodwedd y tu allan i gylch fy sylw personol ac uniongyrchol, a gallaf ychwanegu y tu allan i gylch fy ngwybodaeth. Ond hyn sydd eglur, nas gall y brodyr Cymreig gael eu cyhuddo o fod mewn brys i fedyddio, i dderbyn i gyflawn aelodaeth, nac i arddodi dwylaw am ordeiniad ar neb. Byddai rhai yn barod i ddyweyd eu bod yn rhy araf yn yr holl bethau hyn, yn rhy dueddol i ohirio neu i fod yn or-ochelgar yn y tri, ac yn enwedig yn yr olaf.

Y mae y pwynt arall y cyfeiriais ato, sydd yn dwyu cysylltiad â dysgyblaeth, yn ein harwain at un o sefydliadau mwyaf poblogaidd y llwythau Khasiaidd. Cyfeirio yr wyf at eu cystadleuon mewn saethu â bwa a saeth. Mae y rhai hyn oll i'r Cristion yn ffrwyth gwaharddedig. Nis gall ar un cyfrif ddangos ei wyneb na phrofi ei nerth yn yr un o honynt. Gellir yn briodol gofyn, paham hyny? Yr ateb yw, maent wedi eu cyrdeddu yn y fath fodd âg eilunaddoliaeth, meddwdod ac anfoesoldeb, fel nas gall un Cristion fyned yno heb, i raddau mwy neu lai, ymddangos fel yn cefnogi y drygau hyn, hyd yn nod pe cai nerth ei hunan i wrthsefyll temtasiwn. Tra yn marchogaeth yn nghymydogaeth Shillong, daethum ar draws cwmni mawr o fechgyn yn gynnulledig ar ochr bryn. Gofynais i'r arweinydd Khasi ag oedd gyda mi, pa beth oeddynt yn wneyd. Atebai yn Saesoneg ei fod wedi anghofio y gair Saesoneg (*archery* a feddyliai), ond na chaniateid i unrhyw fachgen o Gristion gymeryd rhan ynddo. Tybiwn fy mod yn canfod yn yr atebiad swn teimlad o gael cam. Buasai yn dda ganddo, fe dybiwn, gael bod yno, ond gan ei fod yn Gristion nis gallai. Gobeithio y gellir, ymhen amser, buro y sefydliad cenedlaethol hwn, fel y gellir ymarfer âg ef heb berygl i fywyd na moesau y rhai a fynant fyned i edrych arno neu gymeryd rhan ynddo."

SEFYLLFA MENYW YN KHASIA.

Yna, gwna Mr. Macdonald rai sylwadau ar y gwahaniaeth rhwng sefyllfa merch yn Khasia ag yn ngwastadedd India. "Yn Khasia, mae y gŵr a'r oll a ennilla yn eiddo y wraig, ac felly y mae y plant. Nis gall efe roddi ymaith oddiwrtho ddim o'r eiddo, tra y gall y wraig. Pan y bydd hi farw, aiff yr eiddo i'w merched neu i'w chwiorydd,—rhaid iddo fyned yn y llinell fenywaidd. Mae eiddo gŵr sydd heb berthynasau o'r rhyw fenywaidd yn myned i'r wladwriaeth. Mae hyn oll yn rhoddi gallu a dylanwad i'r fenyw sydd yn ymddangos yn ddyeithr yn India, lle yr ydym yn arferol o weled merch yn cael ei mathru dan draed, ei gorthrymu, a'i chaethiwo a'i charcharu. Tra y gall yr Hindw briodi cynifer ag a fyno o wragedd, gan anfon ymaith y naill ar ol y llall, nis gall gwraig o Hindw byth ail briodi, pa mor fynych bynag y gall ei gŵr fod wedi priodi merched eraill ar ei hol, neu pa mor greulawn, anfoesol, neu anffyddlawn bynag y gall ei gŵr fod; tra nad oes yr un anhawsder i wraig Khasi gael ysgariaeth oddiwrth ei gŵr, a phriodi drachefn, a gwneyd hyny mor fynych ag y dewiso. Ond arni hi y bydd cynnaliaeth y plant yn gorphwys. Ymysg Cristionogion, wrth gwrs, er fod cyfraith etifeddiaeth yn parhau heb un cyfnewidiad, nid oes ysgariaeth yn cymeryd lle ond yn ol y rheol Gristionogol.

Mae safle y fenyw mewn cymdeithas yn Khasia yn rhoddi eglurhad hefyd, i fesur, ar y cynnydd a wneir mewn addysg ymysg menywod ar y Bryniau. Dywed Syr W. W. Hunter 'mai Bryniau Khasia a Jaintia yw yr unig ddosbarth o Assam, ac un o'r ychydig nifer trwy India i gyd, yn yr hwn y gellir dywedyd fod addysg fenywaidd yn bod o gwbl.' Yn yr ysgol ddyddiol yn Khasia, mae *un* eneth am bob *dau* fachgen; lled debyg yw y ffigyrau yn yr Ysgol Sul. Yn Bengal, mae tua *deg ar hugain* o fechgyn yn yr ysgol am bob *un* eneth; ac ychydig iawn (*very very few*) o'r genethod hyn all ddarllen y llyfr elfenol mwyaf syml yn eu hiaith eu hunain, tra y gall agos bob geneth yn Khasia sydd yn yr ysgol ddarllen ei llyfr Hymnau a'i Thestament Newydd, a gall nifer mawr o honynt ddarllen Saesoneg hefyd. Gall un weled ar unwaith pan yn edrych arnynt yn eistedd yn y capel neu yn yr Ysgol Sul, ar wahan oddiwrth eu tadau a'u brodyr, fod ganddynt o'u hamgylch tua'r un nifer o lyfrau hymnau a Biblau â'r rhyw arall. Chwi gewch, ond ymofyn, fod y llyfrgell deuluaidd,—o ugain neu ddeg ar hugain o gyfrolau, Khasiaeg a Saesoneg,—yn cael eu defnyddio gan ferched y tŷ yn gystal a chan y meibion. Ni chlywais i unrhyw wraig o Khasi yn llefaru nac yn gweddio yn y capel, ond gall fod hyny i'w briodoli i geidwadaeth y cenadwr Cymreig, ac nid i unrhyw anallu o du y menywod sydd yn perthyn i'r cynnulleidfaoedd. Cymerant, pa fodd bynag, eu rhan yn y canu yn y modd mwyaf calonog."

DOSBARTH CHERRA.

Rhanau o Lythyr oddiwrth Mrs. Roberts, Nongsawlia.

Diau y bydd yn dda gan ein darllenwyr weled ychydig ddyfyniadau o lythyr, dyddiedig Hydref 21ain, a dderbyniwyd oddiwrth Mrs. Roberts. Crybwylla am gyfarfod eglwysig a gynnaliesid tua mis yn flaenorol ar nos Sadwrn i ymbarotoi gogyfer â'r cymundeb drannoeth. Ar ol i Mr. Roberts ddyweyd ychydig eiriau ei hunan, gwahoddodd amryw o'r brodyr i adrodd eu profiadau yn y rhagolwg ar gael cofio angeu y Gwaredwr. "Siaradodd amryw, a hyny yn nodedig o dda. Gorchfygwyd un—dyn da iawn a gweithiwr da—gorchfygwyd ef yn hollol gan ei deimladau, tra yr oedd yn siarad am gariad y Gwaredwr, a bu gorfod iddo am amser bwyso yn erbyn sêt oedd o'i flaen, gan ei fod yn gwbl analluog i ddyweyd dim ymhellach. Anfynych y gwelir y fath beth â hyn yn Khasia; yn gyffredin mae y Cristionogion yn hollol dawel a hunan-feddiannol, pa mor effeithiol bynag y gall mater yr ymddyddan fod. Ond yma yr oedd yn gwbl wahanol, a phaham yr ydoedd felly? Yr oedd rhyw ddylanwad dirgelaidd yn treiddio trwy y cyfarfod, rhyw lewyrch cysegredig trwy yr holl dŷ, nes gorfodid ni i deimlo gyda Jacob gynt, 'Diau fod yr Arglwydd yn y lle hwn,' ac i ddyweyd gyda Pedr, 'Da yw i ni fod yma.' Ië, da oedd i ni fod yno, da er ein hadeiladaeth ysbrydol ein hunain, a da er cael gweled ffrwythau rhyfedd Ysbryd Duw, fel eu dangosid yn mhrofiad addfed y cyfeillion anwyl oedd yn siarad. Da fuasai genyf pe buasai rhai o Gymru yn gallu bod yn y cyfarfod hwnw; buasai iddynt yn 'wledd o basgedigion breision.' Mae y cyfarfodydd parotöawl hyn yn dda agos bob amser, ond yr oedd hwn yn hynod felly.

"Ni chefais erioed, yr wyf yn tybied, y pleser o ysgrifenu atoch am unrhyw daith genadol a gymerwyd genyf; y mae genyf heddyw ychydig i'w ysgrifenu yn y ffordd hono. Wythnos i ddydd Gwener diweddaf aethum gyda fy mhriod ac Alun i dreulio ychydig ddyddiau mewn pentref a elwir Umniuh. Mae dros ugain milldir oddiyma; felly yr oedd genym daith diwrnod hir. Yr oeddym wedi parotoi i gychwyn yn gynnar y boreu, ond nid oedd ein cludwyr o'r un feddwl â ni, ac felly attaliwyd ni rhag cychwyn o Nongsawlia nes yr oedd agos yn ddeg ar y gloch. Aethom yn bur gysurus am tua deng milldir; yna, er mwyn ennill amser, cymerasom lwybr byrach trwy y dyryslwyni. Yma yr oedd y llwybr mor gul, a'r dyrysni mor dew, fel mai gyda chryn anhawsder y gellid tynu y fasged, yn yr hon yr eisteddwn, rhwng cangau y coed. Yr oedd y swn a gynnyrchid trwy i'r cangau gael eu tynu dros ben y *Toppah* (y glud-fasged) yn union fel swn y tonau yn curo ar làn y môr, ac,—a wnaf fi ei ysgrifenu ynte ei gelu?—canais fy llygaid, a chan roddi y ffrwyn i'm dychymyg, cefais fy hunan mewn man yn Ngogledd Cymru, yn ymyl y môr, yn nghwmni ac yn cofleidio tair o enethod bychain anwyl. Yr oeddwn bron a chlywed eu lleisiau, ac yr oeddwn bron a'u teimlo yn gafaelyd ynwyf, pan,—O, y fath ddeffröad egr!—dyma y fasged yn swrth yn erbyn coeden, a galwyd finnau at bethau sylweddol bywyd, a bywyd y *jungle* hefyd. Felly gydag oohenaid gollyngais fy nghafael o bleserau dychymyg, ac ymysgydwais i feddwl am bethau oedd o'm deutu. Af ymlaen yn awr gyda'm taith, gan obeithio nad yw y tröad byr hwn o'r ffordd yn beth anfaddeuadwy. Daethom allan o'r dyrysgoed, a chawsom ein hunain yn agos i afon, yr hon a groeswyd genym mewn cwch bychan. Wedi hyny yr oedd ein llwybr trwy lwyni o wahanol fathau, weithiau ar dir gwastad, weithiau ar lethrau serth, nes i ni gyrhaedd Nongjiri lle y gorphwysasom enyd. Saif y pentref hwn ar lecyn dymunol iawn; gellir o hono gael golygfa eang ar wastadedd Bengal. Cawsom yma amryw gyfeillion o Umniuh yn ein haros. Felly ail-gychwynasom, a chawsom ein hunain ar unwaith yn esgyn llechwedd mynydd serth. Yr oedd ein cyfeillion o Umniuh wedi cerdded yr un llwybr yn y bore, pob un â'i bilwg gyda pha un yr oedd wedi tori y cangau, ac felly yr oeddynt wedi gwneyd y dyrysgoed dipyn yn haws myned trwyddynt i ninnau. Ar ol i ni fyned ymlaen am gryn amser, disgynasom at afon fechan, yr hon a groeswyd genym ar bont wedi ei gwneyd âg un goeden. Pan yr oeddym hanner y ffordd drosodd, clywem ein harweinwyr yn galw ar ein cludwyr i aros, gan fod arnynt eisieu cryfhau y bont. Ymaith â hwy i'r goedwig, a thorasant gwpl o *bamboos*, y rhai a roddwyd dros ran o'r bont a ddrwgdybid, ac yna caniatäwyd i ni fyned ymlaen i'n taith, yr hyn a wnaethom, ond, rhaid cyfaddef, gyda gradd o gryndod. Yn ystod ein taith aethom trwy ogof naturiol, rhyfeddol i edrych arni a rhyfeddol yn ei gallu i weithio ynom neu arnom y rhagorol ras o ostyngeiddrwydd. Erbyn hyn yr oedd cysgodau yr hwyr yn crynhoi o'n hamgylch, ac yr oedd genym eto rai afonydd bychain i'w croesi, un o honynt yn peri i ni dipyn o arswyd o herwydd agosrwydd dau o raiadrau. Darfu i fy mhriod ysgrifenu atoch o berthynas i'r rhai hyn, a darlunio eu mawrwychedd, ac yn wir y maent yn ardderchog o ran golwg ac o ran swn. Pe buasai amser, hyfryd fuasai sefyllian yn agos i edmygu gwaith natur yn nghalon y goedwig fawr, a gwrandaw ar dwrf cadarn y dyfroedd y rhai a'n hadgofient am 'lef tyrfa fawr' sydd i gyfodi o Khasia, gan ddywedyd, 'Aleluwia, oblegid teyrnasodd yr Arglwydd Dduw Hollalluog.' Ond yr oedd eisoes yn tywyllu, ac yr oedd yn rhaid i ni groesi rhwng y ddau raiadr ar wely llithrig o geryg a thrwy y dwfr rhuthrol, felly yr oedd yn rhaid gwneyd y goreu o'n ffordd. Daeth rhai o Gristionogion Nongsawlia i'n cynnorthwyo, un o bob ochr i'r fasged, i ddal y cludwr yn ddiysgog trwy y dwfr. Bydd yn hawdd

genych fy nghredu pan y dywedaf i ni anadlu yn fwy rhydd wedi i'r oll o'n cwmni gyrhaedd yr ochr draw yn ddyogel, a rhoddi hefyd weddio ddiolchgarwch am amddiffyniad dwyfol. Ar ol hyn yr oedd y tywyllwch wedi ein goddiweddu. Nis gallem weled dim o'n blaen nac yn agos atom. Nid oedd genym ond ymbalfalu. Yr oedd ein harweinydd o'n blaen, ar ei draed a'i ddwylaw, yn ceisio dyfod o hyd i'r llwybr fel yr elem ymlaen. Difrifol o beth fuasai colli ein llwybr yn nghanol y *jungle*. Pan oedd ysbrydoedd rhai o'r cwmni yn bur isel, a blinder wedi meistroli rhai eraill, O y fath ymwared! gwelid goleuni yn y pellder. Yr oedd rhai wedi dyfod o Umniuh i'n cyfarfod gyda lanterni a ffaglau, ac yr oedd llewyrch y goleuni, hyd yn nod pan ymhell, yn adfywio ein gwroldeb ac adfer ein nerth. Ar ol hyn aethom ymlaen yn lled gysurus hyd ddiwedd y daith i Umniuh, lle yr oeddym yn ddiolchgar iawn am le i orphwys yn nhŷ yr Athraw. Yr oedd Alun wedi cyrhaedd cyn iddi dywyllu yn llawn, a chawsom ef yn gwneyd ei hunan yn hollol gartrefol yn y tŷ Khasi.

"Nid oedd un *Mem* (merch Ewropeaidd) na phlentyn gwyn wedi bod yn Umniuh o'r blaen; felly yr oedd Alun a minnau yn wrthddrychau o gryn gywreinrwydd. Deuai y merched a'r plant i'r tŷ yn sypiau; fel y byddai rhai yn myned ymaith deuai rhai eraill i gymeryd eu lle. Cyfranogasom o'n pryd bwyd hwyrol yn mhresennoldeb llawer o edrychwyr edmygus, ac o'r diwedd bu raid i ni ddyweyd ein bod wedi blino yn fawr ac yn dymuno myned i orphwys am y noswaith, ac felly cawsom y tŷ yn rhydd. Dydd Sadwrn bu genym dri chyfarfod, un i briodi pâr ieuanc—enw y ferch ieuanc yw Ka Apmon, y gŵr ieuanc, U Myngor. Daeth llawer ynghyd i weled y seremoni. Ymhen dwy awr wedi hyny cawsom gyfarfod eglwysig, yn yr hwn yr oedd y wraig ieuanc a'r gŵr ieuanc; dechreuad da i'w bywyd priodasol, onidê? Dim boreufwyd priodasol i ddyrysu eu meddyliau, na mis mêl i roddi iddynt syniadau cyfeiliornus am fywyd priodasol. Yr oedd y wraig ieuanc yn un o bedair a roddasant eu hunain y diwrnod hwnw i fod yn eiddo i'r Arglwydd. Derbyniwyd y pedair yn gyflawn aelodau. Atebasant yn dda y cwestiynau a roddwyd iddynt, ac nid ychydig oedd eu nifer. Teimlwn yn hyfryd iawn, gan y gwelwn fod parotôad gwirioneddol wedi bod ar eu tu hwy ac ar du yr Athraw. Yn yr un cyfarfod derbyniwyd pedwar fel ymgeiswyr. Rhai wedi troi yn ol oedd dau o honynt ar ol dechreu rhedeg flynyddoedd yn ol. Siaradai y pedwar mewn modd dymunol iawn, a dywedodd y ddau wrthgiliwr eu bod yn edifeiriol am eu hymddygiad yn yr amser a fu. Am wyth o'r gloch y nos yr oedd genym gyfarfod gweddi, pryd yr oedd llawer wedi dyfod ynghyd. Ar y Sabboth yr oedd genym bump o gyfarfodydd—cyfarfod gweddi yn gyntaf; yna pregeth; gwasanaeth i egluro natur yr ordinhadau, Bedydd a Swper yr Arglwydd, ac i'w gweinyddu; ail oedfa o bregethu; ac ar ddiwedd y dydd, cyfarfod gweddi drachefn. Y pregethwyr oeddynt U Ksan ac U Siang o Nongsawlia; pregethodd y ddau yn dda a chyda chryn lawer o yni. Tri ar hugain yw nifer y Cristionogion yn Umniuh; ond yn yr holl gyfarfodydd ar y Sabboth yr oedd nifer mawr o bobl yn bresennol—tua dau gant yn y cyfarfod i fedyddio a chymuno, a thua chant a hanner yn y pedwar cyfarfod arall.

Rhwng y cyfarfodydd daeth nifer o ferched i'm gweled. Ceisiais siarad ychydig â hwynt, a gofynais iddynt adrodd ychydig o'r hyn oeddynt newydd wrandaw. Ar ol tipyn o hudo, dywedodd un ferch ieuanc un gair bychan. Ar ol yr oedfa gyntaf oedd hyn. Gwnaethum yr un fath gyda nifer o rai eraill a ddaethant drachefn, ond methais a chael ganddynt adrodd un gair o bregeth na phennod. Gall hyn ymddangos i chwi yn ddigalon ac yn rhyfedd, ond dyna fel yr oedd; ac felly y mae yn gyffredin nes y daw y bobl i arfer clywed yr Efengyl yn cael ei phregethu iddynt. Mae eu meddyliau mor dywyll, ac y mae newyddion gogoneddus yr Efengyl mor ddyeithr i'w natur, fel nad ydynt hyd ar ol misoedd o ymarferiad cyson â'r moddion crefyddol yn dechreu dirnad yr hyn a ddywedir gan y pregethwr. Dengys hyn yn amlwg mai y moddion mawr i'w defnyddio mewn gwlad baganaidd fel hon ydyw *dysgu* y bobl. Mae o'r pwys mwyaf yma na byddo i ni wahanu yr hyn a gysylltai ein Gwaredwr â'u gilydd, *pregethu* a *dysgu*. Mae pregethu yn dwyn y bobl ynghyd ac yn cynnyrchu chwilfrydedd, ond addysgu dygn, dyfalbarhaol a phersonol sydd yn ymddangos yn fwyaf cymhwys i'r Khasi paganaidd yn ei sefyllfa bresennol o ran gwareiddiad. Da genyf feddwl fod y ddau fath yma o foddion yn cael eu defnyddio yn rhydd yn Khasia, ac oblegid hyny bydd Khasiaid y dyfodol, a dyfodol nad yw ymhell, mor agored i deimlo oddiwrth dylanwad yr hyfryd sain ag ydyw trigolion Cymru fawr ei breintiau yn awr. Mae y tir wedi ei fraenaru, a'r hâd yn cael ei hau; gadewch i ni ddysgwyl yn ffyddiog. Mae yr Ysbryd Glân yn ddiau yn gweithio gyda'i bobl, a chyn hir ceir cynauaf gogoneddus. Arweiniwyd fi i ysgrifenu cymaint, am fod rhai yn dyweyd, 'Paham na phregethir yr efengyl yn syml, ac yna gadael rhwng y gair â'r bobl?'

"Ond i fyned ymlaen, boddhäwyd fi yn fawr gan yr hyn a welais yn Umniuh. Ymddengys fod y gwaith yn myned rhagddo yn gyson yno, a gweithia y Cristionogion gyda'u gilydd mewn heddwch. Dychwelasom i Nongjiri trwy lwybr sydd yn myned i'r gwastadedd, ac yna yn esgyn ochr y mynydd. Mwynhäem yn fawr y golygfeydd prydferth o'n blaen ac o'n hamgylch; gorchuddid y mynyddoedd mawrion gan goed deiliog o'r gwaelod i'r pen uchaf. Gallem weled y mynydd dros yr hwn yr oeddym wedi cripian nos Wener, ond nid oedd un llwybr yn weledig. . . . . Cawsom gyfarfod byr yn Nongjiri i fedyddio plentyn i rai o'r Cristionogion yno. Ychydig yw

nifer y Cristionogion yn Nongjiri, ac nid ydynt gymaint ymlaen ag y buasem yn dymuno eu gweled. Ar ol y cyfarfod cychwynasom ar unwaith i Nongsawlia. Disgynasom i Theria ac yna gwelais y rheilffordd. Nid oeddwn er ys yn agos i bedair blynedd wedi gweled y nod hwn o wareiddiad.

"S. M. Roberts."

DOSBARTH SHELLA.

Mewn llythyr dyddiedig Tachwedd 5ed, crybwylla y Parch. W. Williams fod chwech o rai mewn oed yn Laitkynsew wedi eu bedyddio a'u derbyn at Fwrdd yr Arglwydd, ac fod pump o rai eraill wedi eu derbyn i'r Eglwys. Mae Ramjan yr Efengylydd wedi derbyn amryw i'r eglwysi yn Nongsynrih a Nongnah; pump wedi eu derbyn yn Lyngkin, dau yn Mostoh, ac amryw yn Dewsaw. Tachwedd y 6ed daeth dau negesydd at Mr. Williams o Nongsynrih i'w hysbysu fod y Cristionogion yno mewn perygl am eu bywydau, ac fod U Don Lyngdoh, yr offeiriad a ddaeth yn Gristion yn ddiweddar, wedi bod yn ymguddio am rai dyddiau. Dywedid oni buasai am bresennoldeb yr athraw y buasai U Don ac eraill wedi cael eu lladd. Anfonodd y cenadwr at Major Maxwell i Shillong i ofyn am gynnorthwy heddgeidwad, a chychwynodd ei hunan tua Nongsynrih, taith deuddydd neu dri. Ar ei ffordd galwodd yn Jakrem i weled Kisonsing, un o freninoedd Maram. Mae Nongsynrih yn nhiriogaeth Maram, gwlad sydd dan nawdd dau frenin. Proffesai Kisonsing na wyddai ddim am yr helynt, ond cydsyniodd i anfon dyn i'r pentref i edrych i sefyllfa pethau, ac i alw y pleidiau i ymddangos ger ei fron ef. "Ond," meddai Mr. Williams, "erbyn i ni gyrhaedd Nongsynrih gwelais fod y penaeth arall, Hajarsing, yno eisoes er's dyddiau yn ceisio gwastadhau pethau. Mae ef, fel y gwyddoch, yn Gristion er's dwy flynedd, ac y mae y brenin arall hefyd wedi cynnyg ei hun amryw weithiau, ond yr ydym wedi methu gweled ein ffordd i'w dderbyn oblegid diodydd meddwol a'r drygau cysylltiedig â hwynt. Ar y 13eg a'r 14eg o Dachwedd, cynnaliwyd Durbar (cynghor) gan y ddau frenin, a dirwywyd y drwgweithredwyr, a rhoddasant addewid mewn ysgrifen i beidio troseddu mwyach. Mae Major Maxwell wedi anfon y swyddog yno, ac er ei fod yn rhy ddiweddar i wneyd dim, gwna ei bresennoldeb lawer o les."

DOSBARTH MAWSMAI.

Rhan o Lythyr oddiwrth y Parch. J. Ceredig Evans.

Mewn llythyr dyddiedig Hydref 31ain, ysgrifena Mr. Evans, "Ychydig ddyddiau yn ol bum yn Mawpuh—un o'r pentrefi sydd dan fy ngofal—lle y cychwynwyd ysgol y flwyddyn ddiweddaf. Y mae yr achos yno yn gwisgo gwedd galonogol. Derbyniasom yno nos Sul diweddaf un ar ddeg i'r eglwys, tri o wŷr, tair o wragedd, a phump o blant ieuainc. Derbyniasom yn ddiweddar hefyd bump o bentref Sorrim—dau ddyn, un wraig a dau o blant. Cyfrifir y rhai hyn oll fel yn dal perthynas âg eglwys Mawsmai. Y mae dau neu dri o ymgeiswyr am dderbyniad i'r eglwys yn mhentref Mawsmai hefyd ar hyn o bryd; y mae hyn yn dipyn o galondid. Er mai araf y symuda pethau ymlaen yn rhai o'r pentrefi yma, y mae yn dda genym weled ambell un yn cael ei dueddu i chwilio am ffordd y bywyd."

Bydd yn dda gan ein darllenwyr ddeall fod y Parch. John Jones a Miss Williams wedi glanio yn ddiogel yn Calcutta, a'u bod yn dysgwyl gallu cyrhaedd i Shangpoong erbyn Rhagfyr 7fed, fel i fod yn nghyfarfod yr Henaduriaeth.

DERBYNIADAU AT Y GENADAETH.

Dymuna y Trysorydd Cyffredinol gydnabod yn ddiolchgar dderbyniad y symiau canlynol er yr hysbysiad diweddaf:—

	£	s.	d.
Cymunrodd Mrs. Sarah Llewellyn, Tŷ'r Capel, Penyffordd, Sir Benfro, trwy law ei chymunweinyddwr Mr. Lewis Evans (ar ol talu y doll)	45	0	0
Mrs. Martha Davies, Brynonen Shop, Glynnedd	2	0	0
Cemmaes, casglwyd gan y plant	1	1	3
Friend yn Llanrwst, i'w defnyddio gan Miss Williams tuag at y gwaith cenadol yn Sylhet	1	0	0
Mrs. Williams, Bodlondeb, Aberystwyth	5	0	0
Hermon, Dowlais	15	14	6
Un â'i chalon yn llwyddiant y Genadaeth	0	10	0
Hermon, Tongwynlais	2	11	0

Derbynir rhoddion at y Genadaeth gan y Trysorydd, David Hughes, Esq., J.P., 4, *William Moult Street, Liverpool.*

☞ Gellir talu unrhyw swm mewn unrhyw gangen o'r *North and South Wales Bank, to the credit of Mr. David Hughes, Treasurer of the Welsh C. M. Foreign Missionary Society.* Gofaler am i bob *cheque* neu *Postal Order* a anfonir fod yn "crossed."

Derbynir rhoddion at Drysorfa Gweddd-on ac Amddifaid Cenadon, &c., gan J. Herbert Lewis, Esq., J.P., *Central Buildings, North John Street, Liverpool.*

Pob llythyrau yn achos y Gymdeithas i'w cyfeirio i'r Ysgrifenydd, *The Rev.* Josiah Thomas, M.A., 28, *Breckfield Road South, Liverpool.*

P. M. EVANS AND SON, ARGRAFFWYR, TREFFYNNON.